Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Pontio:

## Arolygiad o'r trefniadau pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn y system cyfiawnder troseddol

*Cydarolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn*

Hydref 2012

Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Pontio: Arolygiad o'r trefniadau pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn y system cyfiawnder troseddol

## Cydarolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn

ISBN: 978-1-84099-573-2

Hydref 2012

## RHAGAIR

Mae pontio, fel y mae pawb ohonom sydd wedi sylwi ar blentyn yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn gwybod, yn ddigwyddiad arwyddocaol. Maent yn gerrig milltir pwysig a all, o'u goresgyn yn llwyddiannus, arwain taith person ifanc at fod yn oedolyn. I bobl ifanc sy'n troseddu, gall y cyfnod hwn fod yn broblemus a golygu newidiadau mewn perthnasau allweddol, yn aml ar adeg pan fo'u tueddiad i aildroseddu ar ei anterth. Mae ymdrin yn effeithiol â'r llawer math o bontio y mae'n rhaid i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ei wneud, fel y mae'n arolygiadau blaenorol wedi'i ddangos, yn heriol ond yn holl bwysig.

Yn yr arolygiad hwn rydym wedi edrych ar y gwaith sy'n digwydd i helpu pobl ifanc wrth iddynt symud o weithio gyda gwasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion. Roedd arnom eisiau darganfod beth oedd ymarferwyr rheng flaen yn ei wneud i hyrwyddo pontio effeithiol rhwng yr amrywiol wasanaethau, a sut y gellid ei wella. Nid oedd yn arolygiad o ansawdd y gwaith craidd a wnaed cyn ac ar ôl y trosglwyddo, nac i bwyso a mesur a oedd yr 'hollt' mewn gwasanaethau yn 18 oed yn iawn mewn egwyddor ai peidio, ond o'r gwaith a gyflawnir i gysylltu'r ddau.

Er inni weld enghreifftiau o arferion da, roedd angen mwy o deimlad o ddiben ar lawer o'r gwaith pontio a welsom yn ystod cwrs yr arolygiad hwn. Nid oedd pawb o'r bobl ifanc yn y gymuned a oedd yn gymwys i bontio i wasanaethau oedolion yn cael eu hadnabod, felly roedd y pontio, pan oedd yn cychwyn, yn aml yn digwydd yn rhy hwyr a gyda gwybodaeth annigonol. O ganlyniad, mewn llawer achos roedd y pontio'n cael ei ruthro, yn hytrach na phroses ystyrlon yn cynnwys y person ifanc, eu rhieni/gofalwyr a chydweithwyr eraill oedd yn ymwneud â'r achos. Yn y ddalfa, dywedodd pobl ifanc eu bod, er bod pontio wedi'i drafod gyda hwy, yn teimlo nad oeddent wedi'u paratoi ar gyfer realiti'r symudiad i sefydliad oedolion pan ddigwyddodd hynny. Yn gyffredinol, siom inni oedd darganfod diffyg gwaith gyda'r rheini mewn iechyd ac addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i sicrhau bod y gwasanaethau'r oedd ar y person ifanc eu hangen yn parhau. Yn yr un modd, roedd staff mewn Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc yn gwybod llai am ffyrdd ei gilydd o weithio nag y byddem wedi'i ddisgwyl.

Roedd yn amlwg sut roedd y patrwm o drosglwyddo a phontio pob person ifanc yn dibynnu ar gymaint o ffactorau unigol. Roeddem yn falch fod, yn ystod cwrs ein harolygiad, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi arwain y ffordd wrth sefydlu 'Fforwm Pontio Ieuenctid i Oedolion' a fyddai'n dod ynghyd holl adrannau'r llywodraeth sy'n ymwneud â'r mater er mwyn hyrwyddo gwelliannau. Darganfuasom arwyddion bod gwaith pontio'n dechrau derbyn mwy o sylw a bod protocolau cenedlaethol a lleol yn cychwyn gwneud rhywfaint o wahaniaeth.

Er bod angen sylw o hyd ar y mecanwaith o drosglwyddo achosion, gobeithiwn fod ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn helpu pob ymarferwr, yn y ddalfa ac yn y gymuned, i ddefnyddio'i sgiliau proffesiynol fel bod pontio'n digwydd mewn ffordd sy'n debygol o fod y mwyaf effeithiol i'r person ifanc unigol.

**Liz Calderbank**
Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

**Nick Hardwick**
Prif Arolygydd Carchardai EM

**Cynthia Bower**
Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Ansawdd hyd at 31 Gorffennaf

**Sir Michael Wilshaw**
Prif Weithredwr Ofsted

**Peter Higson**
Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Ann Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn

*Hydref 2012*

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| RHAGAIR | 3 |
| CYNNWYS | 4 |
| CYDNABYDDIAETH | 5 |
| CRYNODEB | 6 |
| ARGYMHELLION | 11 |
| 1. CWMPAS A DIBEN | 12 |
| 2. Y CYD DESTUN: OEDRAN, CYMHWYSEDD AM WASANAETHAU AC I DROSGLWYDDO YN 18 | 19 |
| 3. PONTIO YN Y GYMUNED: CYN TROSGLWYDDO | 23 |
| 4. PONTIO YN Y GYMUNED: AR ÔL TROSGLWYDDO | 37 |
| 5. PONTIO YN Y DDALFA | 43 |
| 6. TREFNIADAU CEFNOGI | 54 |
| ATODIAD 1: GEIRFA BYRFODDAU | 61 |
| ATODIAD 2: PONTIO – CYSYNIADAU ALLWEDDOL | 63 |
| ATODIAD 3: CYFEIRIADAU | 66 |
| ATODIAD 4: DATGANIAD O DDIBEN A CHOD YMARFER | 67 |

## Cydnabyddiaeth

Hoffem fynegi'n diolchiadau i'r bobl ifanc ac oedolion, staff a rheolwyr yn y Timau Troseddwyr Ifanc; Ymddiriedolaethau Prawf; sefydliadau carcharu; a'r gwasanaethau iechyd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gwasanaethau eraill yn y lluoedd yr ymwelasom â hwy yn ystod wythnosau'r arolygiad.

Yn ogystal, mae diolch yn ddyledus i'r bobl ifanc ac oedolion, staff a rheolwyr yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Swinfen Hall, Ymddiriedolaeth Brawf Dyffryn Tafwys, a'r Timau Troseddwyr Ifanc yn Reading, Swydd Rhydychen a Swydd Buckingham lle buom yn treialu ac yn profi methodoleg yr arolygiad.

**Richard Pearce (Arweinydd); Nigel Scarff**
Arolygwyr Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi

**Mel Peace**
Asesydd Arferion Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

**Samantha Booth**
Uwch Swyddog Ymchwil Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

**Hayley Cripps**
Swyddog Ymchwil Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

**Angela Johnson**
Arolygydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

**Fergus Currie**
Rheolwr Rhaglen Troseddau Ieuenctid y Comisiwn Ansawdd Gofal

**Martyn Rhowbotham**
Arolygydd Ofsted

**Mary Browning**
Arolygydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Huw Collins**
Arolygydd Estyn

**Andy Smith**
Prif Arolygydd Cynorthwyol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

**Andy Doyle**
Swyddog Cymorth Arolygiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

**Alex Pentecost; Christopher Reeves**
Tîm Cyhoeddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

## CRYNODEB

### *Yr arolygiad*

Cytunwyd ar yr arolygiad hwn o ansawdd y gwaith a gyflawnir i hyrwyddo pontio effeithiol pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i ddarpariaeth oedolion gan Grŵp y Prif Arolygydd Cyfiawnder Troseddol, yn dilyn ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol, fel rhan o'r *Cynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2010-2012*(1).

Mae'r broses o bontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn bwysig oherwydd pan gaiff hyn ei reoli'n dda gall hyrwyddo dilyniant mewn darpariaeth gwasanaethau ac arwain at gyflwyno gwasanaethau mwy effeithiol.

Roedd hyn yn golygu ymweliadau â Thimau Troseddwyr Ifanc ac Ymddiriedolaethau Prawf mewn chwe ardal o Gymru a Lloegr, a phedwar Sefydliad Troseddwyr Ifanc, i ddarganfod beth oedd ymarferwyr yn ei wneud i helpu pobl ifanc yn y ddalfa ac o dan oruchwyliaeth cymunedol i gyflawni pontio effeithiol, wrth gyrraedd eu 18 oed neu oddeutu'r adeg hynny. Mesurasom ansawdd arferion rheng flaen trwy siarad gyda phobl ifanc (y rheini o dan 18 oed) ac oedolion ifanc (y rheini oedd yn 18 oed a hŷn) ynghylch eu profiadau, yn ogystal ag arolygu cofnodion achosion. Fe fuom hefyd yn cynnal trafodaethau gydag ymarferwyr a rheolwyr o asiantaethau cyfiawnder troseddol a meysydd eraill, megis iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â hwy i ddarparu ymyraethau.

Yn ystod yr arolygiad roeddem yn chwilio am dystiolaeth fod pobl ifanc wedi profi cysondeb a dilyniant yn eu gwaith gyda gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion; a bod yr hyn a gyflawnwyd mewn gwasanaethau ieuenctid wedi cael ei atgyfnerthu ar ôl trosglwyddo. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hynny, roedd angen i ymarferwyr ddweud wrth bobl ifanc yn gyson beth oedd yn digwydd; paratoi pobl ifanc ar gyfer gwaith trwy gydol eu dedfryd; rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill ynghylch anghenion a risgiau a fyddai'n parhau; sicrhau bod ffactorau'n ymwneud â throseddu a nodwyd mewn gwasanaethau ieuenctid yn parhau i gael sylw mewn gwasanaethau oedolion, a bod yn ymatebol i anghenion y person ifanc unigol ar adeg o newid.

### *Canfyddiadau cyffredinol*

Er inni ddarganfod enghreifftiau o arferion unigol da, nid oedd sylw digonol yn cael ei roi bob amser i'r gwaith o hyrwyddo pontio effeithiol gan bobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion. Yn y gymuned, roedd rhai pobl ifanc nad oeddent yn cael eu hadnabod fel rhai cymwys i drosglwyddo ac, yn yr achosion hynny lle cawsant eu hadnabod, roedd y trosglwyddo'n aml yn cael ei wneud fel tasg weithdrefnol. Nid oedd pobl ifanc yn cael eu hysbysu na'u cynnwys i'r graddau y dylent.

Rhwng popeth, nid oedd digon o rannu gwybodaeth yn digwydd yn amserol rhwng y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau oedolion i alluogi cynlluniau dedfrydau i gael eu cyflawni'n ddi-dor. Roedd y sefyllfa'n debyg yn y ddalfa, lle nad oedd digon o gynllunio ymlaen llaw a chyfathrebu annigonol yn arwain at fwlch mewn cynllunio dedfrydau a chyflawni ymyriadau ar ôl i bobl ifanc drosglwyddo i Sefydliad Troseddwyr Ifanc dros 18 neu garchar. Un peth cadarnhaol oedd fod enghreifftiau o drefniadau lleol ysgrifenedig ar gyfer pontio yn y gymuned er bod angen iddynt gael eu deall a'u defnyddio'n well gan ymarferwyr.

Ychydig o rannu gwybodaeth oedd rhwng staff addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ymysg Timau Troseddwyr Ifanc a'u swyddogion cyfatebol mewn Ymddiriedolaethau Prawf.

Er nad oedd staff iechyd wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o drosglwyddo pobl ifanc rhwng Timau Troseddwyr Ifanc ac Ymddiriedolaethau Prawf, roedd arwyddion fod polisïau lleol a oedd yn annog mwy o sylw i bontio gan bobl ifanc yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar arferion gwaith.

## Canfyddiadau penodol

### Pontio yn y gymuned

#### *Penderfynu pontio neu gadw'n ôl*

Nid oedd Timau Troseddwyr Ifanc yn adnabod pob achos o bobl ifanc a oedd yn gymwys i drosglwyddo i Ymddiriedolaethau Prawf, ac nid oedd penderfyniadau i drosglwyddo achosion neu eu cadw'n ôl yn seiliedig ar asesiad bob amser. Gellid dylanwadu ar benderfyniadau gan dybiaethau ynghylch yr hyn y gallai Timau Troseddwyr Ifanc ac Ymddiriedolaethau Prawf ei gyflawni, a pha mor dda. Roedd y gyfradd yr oedd achosion naill ai'n cael eu trosglwyddo'n neu eu cadw'n ôl yn amrywio rhwng Timau Troseddwyr Ifanc, ac roedd achosion yn cael eu cadw'n ôl am yn hirach nag a ragwelwyd yn y protocol cenedlaethol trosglwyddo achosion[(2)]. Roeddem yn falch o ddarganfod bod y Timau Troseddwyr Ifanc, lle'r oedd achosion wedi cael eu cadw'n ôl am resymau penodol, wedi cymryd camau i oruchwylio'r achosion hynny yn ôl yr angen.

#### *Cynnwys darparwyr eraill*

Ychydig enghreifftiau oedd yna o reolwyr achosion Timau Troseddwyr Ifanc yn gosod amcanion ar gyfer y gorchymyn cyfan ac yn rhagweld beth oedd angen ei wneud lle'r oedd yn debygol y byddai newid darparwr ymyriad (ee iechyd) wrth gyrraedd 18 oed. Pan oedd achosion yn cael eu trosglwyddo o Dimau Troseddwyr Ifanc i'r Gwasanaeth Prawf, nid oedd yr asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â'r person ifanc yn cael eu hysbysu bob amser. Nid oedd gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac iechyd ar gyfer ieuenctid yn cydgysylltu bob amser â'r gwasanaeth cyfatebol i oedolion, na fel arall chwaith. Roedd yn dda gweld bod, mewn rhai o'r achosion lle'r oedd gwasanaethau iechyd oedolion naill ai heb fod ar gael neu'n anaddas, gwasanaethau iechyd pobl ifanc yn mynd allan o'u ffordd i barhau i weithio gyda phobl ifanc y tu hwnt i 18 oed.

#### *Paratoi'r person ifanc ar gyfer trosglwyddo*

Mewn rhai Timau Troseddwyr Ifanc, dywedodd rheolwyr achosion eu bod yn addasu eu dull o oruchwylio er mwyn paratoi pobl ifanc i drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, ychydig o oedolion ifanc oedd â chof fod opsiynau'n ymwneud â gwasanaethau oedolion wedi cael eu trafod yn llawn gyda hwy nac o fod yn glir ynghylch beth fyddai'n digwydd pan fyddent yn 18 oed.

#### *Rhannu gwybodaeth a chyfarfodydd trosglwyddo achosion*

Cyn trosglwyddo roedd angen am fwy o rannu gwybodaeth a thrafod rhwng rheolwr achosion y Tîm Troseddwyr Ifanc a rheolwr dynodedig y troseddwr yn y Gwasanaeth Prawf fel bod yr olaf wedi ei baratoi'n briodol i oruchwylio'r person ifanc. Roedd gan rai ardaloedd bwynt cyswllt sengl ar gyfer trafod cychwynnol ffurflen drosglwyddo achosion a gynhyrchwyd yn lleol ac a oedd yn cael ei chanfod yn ddefnyddiol gan ymarferwyr.

Nid oedd cyfarfodydd trosglwyddo achosion yn digwydd yn rheolaidd ond, pan oedd hyn yn bod, roedd pobl ifanc, rheolwyr achosion Timau Troseddwyr Ifanc a rheolwyr

troseddwyr y Gwasanaeth Prawf yn eu cael yn ddefnyddiol. Anaml y câi rhieni/gofalwyr eu gwahodd, ac nid oedd darparwyr ymyriadau'n cael eu gwahodd yn rheolaidd chwaith.

### *Ar ôl trosglwyddo*

Yn dilyn trosglwyddo, roedd rheolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf yn cyflawni asesiad ac yn dyfeisio cynlluniau, heb fawr o wybodaeth o asesiadau blaenorol Timau Troseddwyr Ifanc, yn enwedig ynghylch cynnydd y person ifanc hyd at hynny a'u barn ynghylch trosglwyddo. Mewn rhai achosion roedd anghysondebau amlwg rhwng sut oedd Timau Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Prawf wedi asesu'r *Perygl o Niweidio eraill*, a fyddai angen trafodaeth leol i'w ddatrys.

Roedd rheolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf wedi sefydlu lefel briodol o gysylltiad gyda gweithwyr gofal gadael mewn ychydig o dan hanner yr achosion lle'r oedd y person ifanc yn gymwys am wasanaeth, ond roeddent yn ansicr weithiau ynghylch cymhwysedd i adael gwasanaethau gofal a pha wasanaethau'n union a ddylai fod ar gael. Roedd rhai Ymddiriedolaethau Prawf wedi darparu canllawiau ysgrifenedig a hyfforddiant yn ddiweddar i fynd i'r afael â hyn.

### *Dilyniant*

Roedd angen am fwy o ddilyniant rhwng y ddau gyfnod o oruchwylio. Llai na hanner y cynlluniau a baratowyd ar ôl trosglwyddo oedd yn rhoi sylw i bob agwedd o'r gwaith yr oedd yn dal angen ei wneud yn dilyn y cyfnod o oruchwyliaeth y Tîm Troseddwyr Ifanc. Roedd yn well gan rai oedolion ifanc ddull ffres a chael eu trin yn fwy fel oedolion gan reolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf, tra oedd eraill yn teimlo bod y disgwyliadau oddi wrthynt yn ymddangos yn wahanol iawn. Roedd rhywfaint o'r diffyg dilyniant i'w briodoli i ddiffyg diben clir. Wrth benderfynu cadw achosion yn ôl, roedd gan reolwyr achosion Timau Troseddwyr Ifanc yn gyffredinol reswm dros wneud hynny. O gymharu â hyn, roedd y mwyafrif o'r oedolion ifanc hynny a oedd yn trosglwyddo o'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn mynd at y Gwasanaeth Prawf oherwydd eu bod yn cyrraedd eu 18 oed, yn hytrach na bod gwaith a oedd angen ei wneud wedi'i gynllunio a'r Gwasanaeth Prawf wedi cael ei asesu fel yr asiantaeth iawn i wneud hynny.

Er hynny, dim ond ychydig o achosion a ganfuasom lle'r oeddem yn teimlo y byddai wedi bod yn well i achos a drosglwyddwyd gael ei gadw'n ôl yn y Tîm Troseddwyr Ifanc ac nid oedd unrhyw achos o gadw'n ôl lle'r oeddem yn teimlo y byddai'n well pe byddai wedi ei drosglwyddo.

Roedd y nifer o enethod a merched ifanc, a pobl ifanc ddu ac o leiafrifoedd ethnig yn ein sampl yn gymharol fach. Er nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol, darganfuasom fod gwaith gyda merched ifanc i hyrwyddo pontio effeithiol ganddynt o ansawdd ychydig yn uwch yn gyffredinol nag yn sampl yr achosion, er bod llai o enghreifftiau o gyfarfodydd trosglwyddo achosion yn digwydd.

### *Trefniadau lleol*

Roedd gan y mwyafrif o ardaloedd yr ymwelasom â hwy brotocol lleol ar gyfer trosglwyddo achosion o'r Tîm Troseddwyr Ifanc i'r Gwasanaeth Prawf. Roedd y

mwyafrif o staff Timau Troseddwyr Ifanc y gwnaethom eu cyfweld yn ymwybodol ohono; roedd hyn yn llai gwir am staff y Gwasanaeth Prawf. Anaml yr oedd protocolau'n nodi'n fanwl sut y byddai effeithiolrwydd trefniadau lleol yn cael eu hadolygu ac felly nid oedd gan Fyrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc nac Ymddiriedolaethau Prawf wybodaeth ddigonol ar gael iddynt. Roedd bylchau yng ngwybodaeth ymarferwyr o wasanaethau eraill a oedd yn effeithio ar eu gallu i helpu pobl ifanc gyda phontio. Nid oedd rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc nac ymarferwyr yn wybodus bob amser ynghylch ymyraethau mewn cyfnodau prawf a allai fod yn addas i oedolion ifanc, ac adroddodd staff y Gwasanaeth Prawf nad oedd gwaith Timau Troseddwyr Ifanc na datblygiad plant a'r glasoed wedi cael sylw amlwg yn eu hyfforddiant mewn swydd. Roedd llai o broblemau yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd gan swyddogion prawf a oedd wedi eu secondio i'r Timau Troseddwyr Ifanc wybodaeth gyfoes o'u Hymddiriedolaeth Brawf.

Gwelsom enghreifftiau o drefniadau ysgrifenedig lleol ar gyfer cydgysylltu rhwng asiantaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a rhwng asiantaethau iechyd er nad oedd y lefel o ddealltwriaeth mewn gwasanaethau iechyd o'u rolau, meini prawf a throthwyon wedi datblygu digon. Yn yr holl ardaloedd yr ymwelasom â hwy, roedd ymarferwyr yn enwi digartrefedd neu lety anaddas fel rhwystr mawr i bobl ifanc rhag pontio'n llyfn rhwng gwasanaethau.

## Pontio yn y ddalfa

### *Gwaith cyn trosglwyddo*

Dywedodd y mwyafrif o'r 17 o oedolion ifanc yn y sampl bod eu trosglwyddiad i sefydliadau oedolion yn y dyfodol wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant, ond na roddwyd dyddiad iddynt ymlaen llaw. Dywedodd y mwyafrif iddynt gael eu hysbysu ar y diwrnod yr oeddent yn trosglwyddo, neu'r diwrnod cynt, a olygai na dderbyniasant unrhyw wybodaeth ymlaen llaw am y sefydliad yr oeddent yn trosglwyddo iddo. Roedd hyn wedi arwain at deimladau o rwystredigaeth ymysg rhai oedolion ifanc. Roedd y rheini a oedd wedi symud o fewn sefydliad cymysg (un yn cynnwys pobl ifanc ac oedolion ifanc) yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch y cynllunio a wnaed ar gyfer eu trosglwyddo. Roedd oedolion ifanc mewn sefydliadau unswydd, fodd bynnag, yn bryderus ynghylch y broses benderfynu a oedd wedi arwain at iddynt gael eu trosglwyddo i sefydliad gwahanol i'r un y gofynnwyd amdano.

### *Gwaith ar ôl trosglwyddo*

Ar ôl trosglwyddo, roedd y cyswllt gyda rheolwr troseddwr newydd y Gwasanaeth Prawf, unwaith iddo gael ei sefydlu, yn llai aml nag oedd y person ifanc wedi arfer ag ef gyda'u gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc blaenorol. Un achos pryder oedd fod rhai pobl ifanc yn dweud nad oeddent wedi cael cyswllt gyda'u gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc na gweithiwr Gwasanaeth Prawf ers trosglwyddo. Dywedodd goruchwylwyr troseddwyr eu bod yn gyffredinol wedi derbyn gwybodaeth o'r sefydliad anfon pan oedd y person ifanc yn cael ei drosglwyddo, ond eu bod yn aml yn ei chael hi'n anodd cael ymateb gan y Tîm Troseddwyr Ifanc neu weithwyr prawf. Y canlyniad oedd nad oedd cynlluniau dedfrydau'n gyfoes nac yn nodi pa waith oedd angen ei wneud i baratoi ar gyfer rhyddhau.

Teimlai rhai oedolion ifanc y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o wybodaeth a chymorth i'w helpu hwy addasu i'w sefydliad newydd. Dywedodd pob un ond un eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf yn eu sefydliad newydd.

Ar sail ein cyfweliadau gydag oedolion ifanc ac o ddarllen cofnodion achosion, fe wnaethom farnu nad oedd rhyw nag ethnigrwydd wedi bod yn arwyddocaol wrth esbonio amrywioldeb y gwaith i hyrwyddo pontio effeithiol.

### *Dilyniant mewn iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth*

Roedd pawb o'r bobl ifanc a oedd wedi bod mewn cysylltiad blaenorol â Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Pobl Ifanc yn adrodd iddynt fod wedi gweld gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn eu sefydliad newydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw rannu gwybodaeth am bobl ifanc cyn trosglwyddo pan oedd hynny'n golygu symudiad o un sefydliad i un arall. Mewn sefydliadau cymysg, roedd oedd gwasanaethau iechyd i bobl ifanc ac i oedolion ifanc yn ymwneud â'r un darparwr, roedd yn haws cyflawni dilyniant triniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o oedolion ifanc eu bod yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac wedi cael eu gweld gan weithwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau wrth ymsefydlu yn eu sefydliad newydd, ond dim ond dau a adroddodd fod dilyniant eu hanghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi cael ei drafod gyda hwy cyn trosglwyddo. Dywedodd pump nad oeddent wedi gallu parhau gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr oeddent wedi eu dechrau yn eu sefydliad blaenorol. Roedd cynllunio ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn well mewn sefydliadau cymysg nad ar safleoedd unswydd.

### *Trefniadau ysgrifenedig*

Nid oedd gan yr un o'r sefydliadau bolisi pontio ffurfiol ar waith, er bod gan un sefydliad cymysg rai prosesau clir i reoli pontio gan bobl ifanc yn y ddalfa.

## Casgliad

Yn y ddalfa ac yn y gymuned roedd angen prosesau mwy effeithiol a mwy o ddefnydd o ddoethineb proffesiynol fel bod pobl ifanc yn cael mwy o wybodaeth a'u cynnwys yn well. Roedd gwell prosesau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu hadnabod yn ddi-oed a bod gwybodaeth amserol yn cael ei rannu gyda'r gwasanaeth oedolion. Roedd angen mwy o ddefnyddio doethineb proffesiynol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch pa bryd a sut oedd pobl ifanc yn cael eu cadw'n ôl neu eu trosglwyddo'n rhoi mwy o ystyriaeth i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol, a bod cynlluniau dedfrydau'n cael eu defnyddio i sicrhau mwy o ddilyniant yn y gwaith a wneir gydag oedolion ifanc. Roeddem yn teimlo bod ar rai ymarferwyr, rhai yn y ddalfa a rhai yn y gymuned, angen gwybodaeth a hyfforddiant pellach i'w helpu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth ar gyfer ymdrin yn effeithiol â phontio gan bobl ifanc.

## ARGYMHELLION

***Dylai Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc, Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau carcharu, ar y cyd â darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, iechyd ac ymyraethau eraill, sicrhau bod:***

- effeithiolrwydd trefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, a chadw pobl ifanc yn ôl mewn gwasanaethau ieuenctid, yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson

- cynlluniau dedfrydau mewn Timau Troseddwyr Ifanc ac yn sefydliad diogel y person ifanc yn rhoi ystyriaeth i drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn y dyfodol lle bo hynny'n addas, a chynlluniau mewn Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau carcharu oedolion yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth gan wasanaethau ieuenctid, er mwyn sicrhau bod ymyriadau heb eu cwblhau'n cael eu gweithredu

- penderfyniadau i drosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion neu gadw oedolion ifanc yn ôl mewn gwasanaethau ieuenctid yn cael eu cofnodi yng nghofnod yr achos, ac yn rhoi ystyriaeth i farn pobl ifanc a pha waith sydd angen ei wneud i wireddu amcanion y ddedfryd, i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu a'r *Perygl o Niwed i eraill,* a rheoli'r graddau mae'r person ifanc yn agored i niwed

- pobl ifanc yn cael eu paratoi'n drwyadl ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion

- hysbysiadau trosglwyddo, a phob gwybodaeth angenrheidiol ymlaen llaw, yn cael eu hanfon at Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau oedolion mewn digon o bryd i sicrhau dilyniant cyflwyno ymyriadau

- pob darparwr ymyriadau (gan gynnwys darparwyr iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) yn cael eu hysbysu o drosglwyddiadau i Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau oedolion ymlaen llaw ac yn cael eu cynnwys yn briodol mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion er mwyn sicrhau dilyniant y ddarpariaeth

- rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys, lle bo hynny'n addas, mewn trafodaethau ynghylch trosglwyddo ac mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion, lle mae hynny'n debygol o gynorthwyo cynnydd a diddordeb y person ifanc

- staff mewn gwasanaethau ieuenctid ac oedolion yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant digonol am waith gwasanaethau ei gilydd er mwyn eu galluogi hwy i baratoi pobl ifanc i drosglwyddo i wasanaethau oedolion ac i weithio'n effeithiol gydag achosion a drosglwyddwyd.

## 1. CWMPAS A DIBEN

### *Cefndir*

1.1 Cytunwyd ar yr arolygiad hwn gan Grŵp y Prif Arolygydd Cyfiawnder Troseddol, yn dilyn ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol, fel rhan o'r *Cynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2010-2012*. Ei gylch gorchwyl oedd:

- asesu ansawdd y gwaith a gyflawnir i hyrwyddo pontio effeithiol gan bobl ifanc sydd o dan ddedfrydau cymunedol a dedfrydau yn y ddalfa, pan maent yn 18 oed, o ddarpariaeth ieuenctid i ddarpariaeth oedolion.

1.2 Roedd y dewis o bwnc yr arolygiad yn adlewyrchu pryderon bod gwaith gyda'r grŵp o bobl ifanc yn neilltuol o heriol. Roedd arolygiadau blaenorol wedi dangos bod trosglwyddo'n achosi risgiau i ddilyniant ac y gallai effeithio'n niweidiol ar waith i leihau aildroseddu a hyrwyddo adsefydlu. Er enghraifft, roedd arolygiad Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi o *Symudiad Achosion* (3) yn 2004, wedi darganfod y gallai problemau gyda chydymffurfiad a chydweithrediad godi yn ystod trosglwyddo achosion, ac roedd arolygiad Ofsted *Transition through detention and custody*(4) yn 2010 wedi dangos bod '*y rheini oedd yn trosglwyddo rhwng sefydliadau'n aml yn cael eu hanfanteisio gan drefniadau gwael ar gyfer anfon gwybodaeth ymlaen ynghylch eu hastudiaethau a'u llwyddiannau cynharach; roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ailgychwyn lle'r oeddent wedi gadael*'.

1.3 Sylwasom hefyd ar bryder o fewn y llywodraeth a'r sector gwirfoddol am effeithiolrwydd y cydgysylltu rhwng cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cysylltiedig i'r grŵp hwn o bobl ifanc, lle'r oedd newidiadau gwasanaethau wrth iddynt gyrraedd eu 18 oed (gyda'r potensial o darfu os nad oedd yn cael ei wneud yn dda) yn digwydd yn ystod y cyfnod brig am aildroseddu.

1.4 Canolbwynt yr arolygiad arfaethedig oedd y gwaith a gyflawnir gan ymarferwyr mewn Timau Troseddwyr Ifanc (YOT), Ymddiriedolaethau Prawf, sefydliadau carcharu ac eraill a oedd yn darparu ymyriadau (gan gynnwys gwasanaethau addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, iechyd corfforol a iechyd meddwl) i helpu pobl ifanc symud o weithio gyda gwasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn ystod cwrs eu dedfryd.

1.5 Wrth gyflawni'r arolygiad roeddem yn anelu at archwilio beth oedd ymarferwyr rheng flaen yn ei wneud i hyrwyddo pontio effeithiol mewn gwirionedd, yn hytrach na dim ond mesur cydymffurfiad â gweithdrefnau lleol neu genedlaethol. Yn rhinwedd y dull archwiliadol hwn fe wnaethom ddewis edrych ar nifer cyfyngedig o achosion mewn dyfnder, ac nid ydym felly wedi anelu at gyflwyno'n canfyddiadau ystadegol fel rhai sy'n adlewyrchu gwaith ledled Cymru a Lloegr yn gyffredinol.

1.6 Fe wnaethom arolygu gwaith yn y gymuned a gwaith yn y ddalfa. Yn y cyntaf, edrychasom ar achosion oedolion ifanc a oedd wedi derbyn gorchmynion adsefydlu ieuenctid (YRO), achosion a oedd wedi cychwyn mewn troseddwyr ifanc ac wedyn wedi trosglwyddo i Ymddiriedolaeth Brawf, ac achosion o bobl ifanc a fyddai'n

gymwys i drosglwyddo yn y dyfodol. Yn y ddalfa, edrychasom ar achosion o oedolion ifanc a oedd wedi symud yn ddiweddar o Sefydliad Troseddwyr Ifanc dan 18 yn sefydliadau diogel pobl ifanc i sefydliad pobl ifanc dros 18 neu garchar. Er inni benderfynu canolbwyntio ar y grŵp penodol hwn o bobl ifanc a oedd wedi trosglwyddo ar ganol dedfryd, roeddem yn ymwybodol bod pobl ifanc 18 oed eraill a oedd wedi aildroseddu ar ôl i'w dedfryd ieuenctid ddod i ben, (sef eu bod yn 'ailymuno' â'r system cyfiawnder troseddol) hefyd yn profi gwasanaethau oedolion am y tro cyntaf. Fel roedd hi'n digwydd, gwelsom nifer o'r achosion hyn yn ystod yr arolygiad, a'n teimlad oedd, er nad oedd hyn yn drosglwyddo yn yr ystyr ffurfiol, y byddai llawer o'n canfyddiadau'n berthnasol ar gyfer gweithio gyda'r grŵp hwnnw'n ogystal.

1.7 Roeddem yn anelu pryd bynnag oedd hynny'n bosibl at edrych ar bontio ehangach. Roedd ein canolbwyntio ar bobl ifanc 18 oed yn gweddu'n dda gyda'r ffaith fod llawer o bontio o fewn iechyd yn digwydd yn 18 oed neu oddeutu hynny, ond roeddem ym ymwybodol fod llawer o bontio mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (diwedd addysg orfodol ysgol yn 16, a chyfrifoldeb Connexions/Gyrfa Cymru hyd at 19) yn digwydd ar oedrannau eraill. O safbwynt addysg, hyfforddiant a chyflogaeth felly, roedd y mwyafrif o'n canfyddiadau'n ymwneud â chyfathrebu rhwng gweithwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ymwneud â phontio o fewn cyfiawnder troseddol.

1.8 Nid oedd unrhyw ddata cenedlaethol ar gael ar y nifer blynyddol o bobl ifanc yr oedd eu gorchmynion yn trosglwyddo i fod ar brawf a phwy oedd yn trosglwyddo o sefydliadau troseddwyr ifanc o dan 18 i sefydliadau pobl ifanc dros 18. Roeddem yn ddiolchgar i staff yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a oedd yn gallu'n helpu i adnabod achosion i'w harolygu yn y ddalfa.

### *Methodoleg arolygu*

### *Y tîm arolygu*

1.9 Roedd yr arolygiad yn cael ei arwain gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, gyda chefnogaeth gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn.

### *Datblygu'r arolygiad*

1.10 Cyflawnwyd adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â throsglwyddo achosion a phontio o fewn y system cyfiawnder troseddol a sectorau cysylltiedig megis iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Datblygwyd meini prawf arolygu a gwahoddwyd sylwadau gan aelodau o grŵp cyfeirio a oedd yn cynnwys rheolwyr a swyddogion o Dimau Troseddwyr Ifanc, Ymddiriedolaethau Prawf ac adrannau'r llywodraeth ganolog. Profwyd methodoleg yr arolygiad, gan gynnwys arfau asesu achosion ar gyfer achosion yn y ddalfa ac yn y gymuned, wedyn yn ardal Dyffryn Tafwys a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Swinfen Hall. Lle bynnag oedd hynny'n bosibl, fe wnaethom ddefnyddio'r un meini prawf ar gyfer achosion yn y ddalfa ac achosion yn y gymuned. Y prif wahaniaeth oedd inni, yn achosion pobl ifanc yn y ddalfa, gyfweld â phob oedolyn ifanc yr oeddem yn arolygu eu hachosion, ond yn

y gymuned fe wnaethom gyfweld â phobl ifanc heb ystyried a oedd eu hachos wedi ei gynnwys yn ein sampl asesu achosion ai peidio. Mae felly mwy o bwysau'n cael eu rhoi i farn pobl ifanc yn ein canfyddiadau yn y ddalfa nag yn ein canfyddiadau yn y gymuned.

### *Achosion yn y gymuned*

1.11 Rhwng Medi a Thachwedd 2011 ymwelasom â chwe ardal, gan gynnwys chwe Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOT), a'u swyddfeydd prawf cyfatebol, ond yn cynnwys hefyd Sefydliadau Troseddwyr Ifanc cyfagos a'u swyddfeydd prawf cyfatebol pan oedd arnom angen achosion ychwanegol i'w harolygu. Yr Ymddiriedolaethau Prawf yr ymwelasom â hwy oedd Swydd Gaerloyw, Manceinion Fwyaf, Swydd Hertford, Swydd Gaerlŷr a Rutland, Cymru a Gorllewin Swydd Efrog. Y Timau Troseddwyr Ifanc yr ymwelwyd â hwy oedd Conwy a Sir Ddinbych (gyda Gwynedd ac Ynys Môn), Swydd Gaerloyw, Swydd Hertford, Caerlŷr (gyda Swydd Gaerlŷr), Salford (gydag Oldham) a Wakefield (gyda Kirklees a Leeds). Rhoddodd hyn inni gymysgedd o ardaloedd metropolitanaidd, dinesig a gwledig.

1.12 Yn ystod yr arolygiad fe wnaethom siarad â 25 o bobl ifanc ac oedolion ifanc ynghylch eu profiad o'r broses o bontio; arolygu cofnodion achosion 128 o bobl ifanc ac oedolion ifanc a siarad gyda'u rheolwyr achosion yn y Tîm Troseddwyr Ifanc a rheolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf; siarad gyda rheolwyr ac ymarferwyr mewn Timau Troseddwyr Ifanc, Ymddiriedolaethau Prawf, ac mewn iechyd, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (ETE) ac asiantaethau eraill ynghylch eu trefniadau lleol, a derbyn gwybodaeth ymlaen llaw gan Dimau Troseddwyr Ifanc ac Ymddiriedolaethau Prawf.

1.13 Yn sgil niferoedd cyfyngedig y bobl ifanc yn trosglwyddo mewn unrhyw un ardal roedd yn rhaid inni ddewis achosion ar wahanol adegau o'r broses drosglwyddo i'w harolygu. Roedd y rhain yn achosion lle roedd yr adroddiad cyn dedfryd wedi cael ei baratoi'n agos i ddeunawfed pen blwydd y person ifanc; achosion a oedd yn gymwys i'w trosglwyddo yn y dyfodol ac achosion a oedd eisoes wedi'u trosglwyddo. Fe wnaethom hefyd arolygu nifer o achosion a oedd wedi'u cadw'n ôl gan Dimau Troseddwyr Ifanc. Fe wnaethom eithrio o'n sampl y mwyafrif o achosion nad oedd ganddynt ond hyd at dri mis o'u gorchymyn ar ôl pan ddeuent yn 18 oed gan inni farnu y byddai llawer o'r rhain yn cael eu cadw'n ôl yn awtomatig ac na fyddai fawr ddim gweithgaredd yn ymwneud â phontio i'w arolygu.

### *Proffil y sampl achosion yn y gymuned*

1.14 Roedd i'r bobl ifanc y gwnaethom arolygu eu hachosion y nodweddion canlynol:

- roedd 89% yn wrywod
- roedd 88% yn wyn
- roedd 26% mewn gofal wedyn a/neu'n gymwys am wasanaethau gadael gofal
- roedd gan 26% anabledd, gan amlaf anableddau/anawsterau dysgu

- roedd 38% o achosion wedi'u hasesu fel rhai canolig o safbwynt Risg o Niwed Difrifol ar gychwyn y Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid, a 10% o risg uchel
- roedd 22% o achosion fel rhai risg canolig, 9% risg uchel ac 1% risg uchel iawn o safbwynt bod yn agored i niwed.

### *Achosion yn y ddalfa*

1.15 Rhwng misoedd Medi a Hydref 2011, ymwelasom â phedwar sefydliad sy'n dal oedolion ifanc dros 18 (Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Portland; Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Downview; Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Moorland; a Charchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc). Roedd dau o'r sefydliadau'n 'sefydliadau cymysg' yn dal pobl o dan 18 a thros 18. Fe wnaethom gyfweld 17 o oedolion ifanc a oedd wedi trosglwyddo o sefydliad i bobl ifanc o dan 18 – pump ym mhob un o'r tri sefydliad sy'n dal dynion ifanc a dwy yn y sefydliad sy'n dal merched ifanc. Roedd saith wedi trosglwyddo o fewn sefydliadau cymysg a deg wedi trosglwyddo o sefydliad gwahanol. Roedd y nifer o ddyddiau rhwng eu trosglwyddo a dyddiad y cyfweliad yn amrywio o 30 i 169 (cyfartaledd o 81).

1.16 Fe wnaethom gyfweld â'r goruchwyliwr troseddwr ar gyfer pob person ifanc a, lle'r oedd hynny'n bosibl, eu rheolwr troseddwr yn y Gwasanaeth Prawf neu weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc. Cafodd cofnodion achosion eu dadansoddi ar gyfer pob person ifanc yn y sampl.

1.17 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda Phenaethiaid Dysgu a Sgiliau, gwasanaethau iechyd a'r Uned Rheoli Troseddwyr a staff perthnasol eraill.

### *Proffil sampl yr achosion*

1.18 Roedd pawb o'r oedolion ifanc yn y sampl yn 18 oed; roedd yr hynaf yn 18 mlwydd ac 8 mis.

- Roedd pump yn cyflawni dedfrydau dan glo a gorchmynion hyfforddi (yn amrywio o 6 i 18 mis).
- Roedd 12 yn cyflawni dedfrydau hirdymor (yn amrywio o ddwy flynedd, wyth mis i 14 mlynedd).
- Roedd pawb a oedd yn cyflawni dedfrydau dan glo a gorchmynion hyfforddi wedi eu lleoli o fewn sefydliadau cymysg, ac wedi trosglwyddo oddi mewn iddynt.

### *Deall 'pontio' a'r hyn mae'n ei olygu i bobl ifanc*

1.19 Cyflawnasom ymarferiad cwmpasu i ddarganfod beth oedd yn hysbys ynghylch pobl ifanc yn pontio rhwng gwasanaethau yn 18 oed, a pha bolisïau a chanllawiau arferion oedd ar waith. Edrychasom hefyd ar ddeunydd a ysgrifennwyd ynghylch pontio a newid yn fwy cyffredinol, gan fod arnom eisiau deall a allai'r hyn y gallem ei ddarganfod yn ddiweddarach fod yn berthnasol i unrhyw sefyllfa gyffredin mewn bywyd neu a oedd yn fwy penodol i'r system cyfiawnder troseddol neu'n fwy penodol fyth i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol.

1.20 Cadarnhaodd ein hadolygiad o lenyddiaeth y byddai angen rhoi sylw gofalus i unrhyw newid neu bontio yn achos llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol. Byddai llawer o bobl ifanc wedi cael profiadau o darfu teuluol a pherthnasau personol problemus a fyddai'n tueddu i'w gwneud hwy'n amheus o newid, a byddai rhai hefyd wedi cael profiadau negyddol o newidiadau gweithiwr cymdeithasol, ysgol, etc. Roedd tystiolaeth hefyd y byddai angen ystyried aeddfedrwydd y person ifanc a'u hamrywiol anghenion unigol er mwyn sicrhau pontio effeithiol. Dangosodd astudiaethau o ddefnyddwyr fod rhai pobl ifanc yn cael anawsterau gyda'r disgwyliadau o wasanaethau a anelir a oedolion. Fe wnaethom nodi'r dystiolaeth – o ymchwil i droseddu ac ymchwil arall – o bwysigrwydd ansawdd y berthynas waith unigol, a grynhoir yn ddefnyddiol yn y *NOMS Offender Management Model*(5) fel 'cysondeb, dilyniant, ymroddiad ac atgyfnerthu'. Mae crynodeb o'r dystiolaeth yn Atodiad 2.

### *Datblygu meini prawf arolygu*

1.21 O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarferiad cwmpasu fe wnaethom ddatblygu rhai damcaniaethau y gwnaethom eu profi wedyn yn yr adolygiad.

- Mae risgiau sylfaenol i ddilyniant darparu gwasanaethau a pherthnasau gwaith pan drosglwyddir pobl ifanc o un asiantaeth i un arall.
- Gall fod cyfleoedd i rai pobl ifanc wrth drosglwyddo i wasanaethau oedolion oherwydd bod arnynt angen cael eu trin yn fwy fel oedolion a/neu gallent elwa o 'ddechrau newydd'.
- Er mwyn i bobl ifanc bontio'n effeithiol, bydd angen i asiantaethau gyflawni tasgau gweithdrefnol (y 'trosglwyddo') sy'n berthnasol i bob defnyddiwr gwasanaeth ond oherwydd y bydd pob person ifanc yn profi newid a phontio mewn ffordd wahanol, bydd angen hefyd i ymarferwyr roi sylw i anghenion unigol y person ifanc.
- Mae pontio a throsglwyddo'n debygol o fod yn adegau dryslyd i lawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ac felly mae angen i ymarferwyr ragweld newidiadau yn agweddau ac ymddygiad pobl ifanc a bod yn ymatebol iddynt.

### *Trosglwyddo a phontio effeithiol*

1.22 Ar ôl ystyried y dystiolaeth fe wnaethom wedyn nodi'r egwyddorion allweddol (y tu hwnt i arferion da arferol o weithio gyda phobl ifanc yn y ddalfa ac yn y gymuned) o ran helpu pobl ifanc gyflawni pontio effeithiol o ddarpariaeth ieuenctid i ddarpariaeth oedolion. Y rhain oedd:

- pobl ifanc yn cael eu **hysbysu'n** gyson ac yn cael cyfle i drafod eu trosglwyddo sydd ar fin digwydd, a'u safbwyntiau a'u dewisiadau
- mae gwaith cynnar yn **paratoi'r** person ifanc ar gyfer gwaith drwy gydol yr holl ddedfryd, nid dim ond yn y cyfnod hyd at eu trosglwyddo
- ymarferwyr a fydd yn gweithio gyda'r person ifanc cyn ac ar ôl y trosglwyddo'n **rhannu gwybodaeth** ac yn siarad ynghylch beth sydd angen ei wneud i sicrhau pontio effeithiol

- bod digon o **ddilyniant ymdriniaeth** i sicrhau bod ffactorau'n ymwneud â throseddu a nodwyd mewn gwasanaethau ieuenctid yn dal i gael sylw mewn gwasanaethau oedolion lle mae gofyn am hyn, ond lle bo newidiadau angenrheidiol ac anochel bod y rhain yn cael eu hesbonio'n glir i'r person ifanc
- ymarferwyr yn ymwybodol y gall pontio rhwng gwasanaethau fod yn adeg heriol i lawer o bobl ifanc a bod angen iddynt, yn ogystal â chyflawni eu gweithgareddau trosglwyddo sylfaenol, fod yn **ymatebol** i anghenion y person ifanc unigol.

1.23 Cafodd set o feini prawf manwl (yr hyn roedd arnom eisiau ei weld ar waith) eu dyfeisio, ar sail yr egwyddorion hyn, i'w defnyddio yn ystod gwaith maes yr arolygu i'n helpu i fesur i ba raddau roedd yr asiantaethau perthnasol yn ystyried y ffactorau hyn ac yn dilyn polisi a chanllawiau arferion da cenedlaethol a lleol wrth reoli pontio pobl ifanc at wasanaethau oedolion.

**Enghraifft ymarferol o bontio effeithiol ar waith:**

**Cafodd Jane ei dedfrydu i ddwy flynedd o Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid pan oedd hi'n 17 mlwydd 8 mis oed. Roedd yn rhaid iddi fynychu rhaglen ymddygiad troseddol a chwnsela camddefnyddio sylweddau. Roedd Jane wedi adnabod ei rheolwr achos yn y Tîm Troseddwyr Ifanc, Kenny, ers llawer blwyddyn ac yn bryderus ynghylch trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Brawf leol. Fe wnaeth Kenny drafod hyn gyda Jane ac esboniodd pa waith fyddai'n cael ei wneud cyn trosglwyddo a beth oedd goruchwyliaeth prawf yn ei olygu.**

**Cysylltodd Kenny â'r Ymddiriedolaeth Brawf leol i roi gwybod iddyn nhw y byddai trosglwyddiad yn digwydd mewn tri neu bedwar mis a rhoddodd wybodaeth sylfaenol iddyn nhw am Jane. Dywedodd y byddai'r rhaglen ymddygiad troseddol wedi cael ei chwblhau cyn y trosglwyddo, ond ei bod yn debygol y byddai'n dal i fod angen gwaith ar gamddefnyddio sylweddau.**

**Fe wnaeth Kenny dawelu rhai o bryderon Jane ynghylch y trosglwyddo a phan gafodd y rhaglen ymddygiad troseddol ei chwblhau siaradodd gyda'r rheolwr troseddwyr a neilltuwyd ar ei chyfer gan y Gwasanaeth Prawf, Liz, am y ffordd roedd Jane wedi bod yn symud ymlaen a'r math o waith y byddai ei angen.**

**Trefnodd Liz gyfarfod trosglwyddo achos ar yr un diwrnod ag roedd Harry, y gweithiwr camddefnyddio sylweddau, yn y swyddfa brawf. Ymunodd Harry â'r cyfarfod am gyfnod i'w gyflwyno ei hun i Jane ac esbonio pa wasanaeth oedd yn cael ei gynnig. Roedd gweithiwr iechyd y Tîm Troseddwyr Ifanc eisoes wedi cysylltu ag ef ac roedd felly'n ymwybodol o'r gwaith a oedd eisoes wedi cael ei wneud i helpu Jane.**

**Er bod Jane yn nerfus yn y cyfarfod teimlai ei bod hi'n cael ei chefnogi gan ei rheolwr achos o'r Tîm Troseddwyr Ifanc, a theimlai'n dawelach ei meddwl fod y lleill yno'n gwybod rhywbeth amdani fel na fyddai'n rhaid iddi ailadrodd ei holl stori eto fyth.**

**Yn ddiweddarach fe wnaeth Jane a Liz adolygu sut oedd y trosglwyddo wedi mynd. Dywedodd Jane iddi werthfawrogi'r gefnogaeth gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ond ei bod hi wedi addasu i weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a**

**gwasanaethau oedolion. Roedd hi wedi cael gwybod beth i'w ddisgwyl a theimlai fod rhai o'i syniadau a'i dewisiadau wedi cael eu hystyried a'i bod hi'n gallu dyfalbarhau â'i hymdrechion i gadw allan o helynt.**

***Terminoleg***

1.24 Yr hyn a gymerasom fel diffiniad ymarferol o bontio effeithiol o un gwasanaeth i un arall oedd 'mae'r person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei hysbysu'n gyson, a bod goruchwyliaeth ac ymyriadau ar ôl pontio wedi parhau ac wedi adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd cyn trosglwyddo'. Yn gyffredinol, rydym wedi defnyddio'r term 'trosglwyddo' i ddisgrifio'r camau y mae ymarferwyr yn eu cymryd i drosglwyddo cyfrifoldeb o un asiantaeth i'r llall, a 'pontio' i ddisgrifio profiad y person ifanc er nad yw wedi bod yn bosibl nac yn ddymunol gwahaniaethu fel hyn ym mhob achos.

1.25 Defnyddir y termau 'pobl ifanc' neu 'berson ifanc' i gyfeirio at bawb o'r rheini a oedd yn cael eu goruchwylio gan y Tîm Troseddwyr Ifanc yn y ddalfa ac yn gymwys i drosglwyddo wrth gyrraedd 18 oed. Defnyddir y term 'oedolyn ifanc' yn yr achosion hynny lle mae'r adroddiad yn cyfeirio'n benodol at ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd ar ôl i'r rheini yn y ddalfa neu o dan oruchwyliaeth gyrraedd eu deunawfed pen blwydd. Mewn rhai achosion, mae'r adroddiad yn rhoi sylwadau ar yr hyn a oedd wedi digwydd dros gyfnod yn rhychwantu'r deunawfed pen blwydd, ac yn yr achosion hynny, defnyddir y term 'person ifanc'. Rydym yn defnyddio'r term 'system cyfiawnder troseddol' i gynnwys trefniadau ar gyfer pob oedran, ac eithrio lle mae angen penodol inni wahaniaethu rhwng y 'system cyfiawnder ieuenctid' i'r rheini o dan 18 a'r 'system cyfiawnder troseddol oedolion' i'r rheini sy'n 18 oed a hŷn.

1.26 Mae'r holl enwau mewn enghreifftiau o achosion yn yr adroddiad hwn yn rhai ffug.

## 2. Y CYD-DESTUN: OEDRAN, CYMHWYSEDD AM WASANAETHAU AC I DROSGLWYDDO'N 18 OED

### *Darpariaeth gwasanaethau yn ôl oedran*

2.1 Mae llawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn cael eu darparu ar sail grŵp oedran. Yn y ddalfa, mae cyfundrefnau ar wahân ar gyfer pobl ifanc o dan 18 a rhai 18 oed a hŷn. Mae hefyd amryw o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOT) neu adrannau o fewn sefydliadau oedolion wedi eu neilltuo ar gyfer oedolion ifanc 18 i 21 oed, ond mae rhai (a'r holl ferched o'r oedran hwnnw) yn cael eu cymysgu gyda phobl 21 oed a hŷn. Yn y gymuned, Ymddiriedolaethau Prawf sy'n gyfrifol am reoli'r mwyafrif o droseddwyr 18 a hŷn sydd o dan orchmynion cymunedol, yn y ddalfa os ydynt ar raglen rheoli troseddwyr, a'r rheini ar drwydded ar ôl cael eu rhyddhau. Cafodd Timau Troseddwyr Ifanc eu sefydlu gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, gan ddod ag amrywiaeth o wasanaethau lleol ynghyd – gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, iechyd ac, mewn rhai achosion, tai. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn gyfrifol am oruchwylio'r mwyafrif o orchmynion llys a wneir gan y llys ieuenctid, ar bobl ifanc o dan 18 oed. O safbwynt gwasanaethau megis iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gall gwasanaethau a rhaglenni gwahanol fod â hawliadau gwahanol yn ôl oedran, gyda rhywfaint o hyblygrwydd lleol.

2.2 Mae'r mwyafrif o newidiadau gwasanaeth yn digwydd pan ddaw'r person ifanc yn 18, neu oddeutu'r adeg hynny. Fodd bynnag, mae newidiadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) yn digwydd yn wahanol gyda diwedd addysg orfodol ysgol yn 16, a diwedd cyfrifoldeb Connexions/Gyrfa Cymru oddeutu pen blwydd y person ifanc yn 19. Mae gwasanaethau gadael gofal i bobl ifanc yn ymestyn i 21 oed (neu 25 mewn rhai achosion) er y gall fod newid tîm neu weithiwr yn 18 oed. Yn hanesyddol, mae rhai gwahaniaethau lleol wedi bod yn nhrothwy oedan gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.

2.3 Mae'r sail resymegol dros ddarparu gwasanaethau gwahanol i bobl ifanc (yn deillio'n rhannol o *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*[6)]) yn cynnwys y gred bod arnynt angen gwahanol fath o wasanaeth a/neu dull o weithio i oedolion; y dylai pobl ifanc gael eu gwahanu oddi wrth oedolion i warchod eu buddiannau mewn rhai lleoliadau a lle bo rhai asiantaethau'n cael eu trefnu yn ôl grŵp oedran (ee y llysoedd ieuenctid) mae manteision wrth gael rhai eraill (sef Timau Troseddwyr Ifanc) yn gweithio i'r un ffiniau oedran.

### *Pryderon ynghylch trothwyon oedran*

2.4 Mae pryderon, er hynny, yn bodoli ynghylch y rhaniad o wasanaethau ar sail oedran a'r trefniadau i drosglwyddo pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion.

2.5 Yn 2005 cyhoeddodd yr Uned Allgáu Cymdeithasol adroddiad pwysig ar bontio gan bobl ifanc ag anghenion cymhleth - *Transitions: Young Adults with Complex Needs*[7] a ganfu:

*"Anaml y mae gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion yn arwain i'w gilydd yn ddigon da … Mae pontio o'r system ieuenctid i'r system oedolion yn digwydd yn anwastad a gall arwain at darfu neu ddiweddu rhaglenni sy'n rhoi cyfleoedd a dargyfeiriadau i droseddwyr. Unwaith mae troseddwr yn cyrraedd ei 18 oed, maent yn aml yn cael eu trosglwyddo i garchar newydd ac yn wynebu cyfundrefn newydd a gall ymdrechion a chost uchel rhaglenni cynnar, mewn rhai achosion, gael eu gwastraffu os na bydd rhaglenni ac ymdriniaethau'n cael eu cynnal … Mae'r pontio llym hwn yn digwydd er gwaetha'r ffaith y darganfuwyd bod gan lawer o oedolion ifanc 18 i 20 oed lawer o'r un nodweddion â throseddwyr ifanc 16 i 17 oed: anaeddfedrwydd, cyrhaeddiad addysgol isel, rhianta gwael, problemau ymddygiad, a chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau."*

2.6 Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd Comisiwn Barrow Cadbury ar Oedolion Ifanc a'r System Cyfiawnder Troseddol adroddiad, *Lost in Transition*[8] a oedd yn edrych ar y driniaeth o bobl ifanc 18-25 oed yn y system cyfiawnder troseddol. Yn fwy diweddar mae'r Gynghrair Pontio i fod yn Oedolyn (T2A) wedi galw am well comisiynu 'ar draws y ffin oedran fympwyol o 18'[9], am gymorth i gael ei ymestyn i'r rheini ag anghenion penodol yn y grŵp oedran o gwmpas 18-25 oed ac am well pontio rhwng Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac Ymddiriedolaethau Prawf a'u partneriaid.

2.7 Ar adeg yr arolygiad, roedd prosiectau treialu pontio a sefydlwyd gan Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury, ac yn cynnwys Ymddiriedolaeth St Giles a'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn profi gwahanol ddulliau o wella gwasanaethau i oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol. Roedd y rhain yn Swydd Gaerwrangon a Birmingham (yn canolbwyntio ar achosion cymunedol) ac yn Llundain lle'r oedd troseddwyr o Sefydliad Troseddwyr Ifanc Rochester a oedd yn dychwelyd i Southwark neu Croydon yn cael eu targedu ar gyfer cymorth dwys. Yn ogystal, fe wnaeth prosiect ymchwil diweddar, a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Brawf Dyffryn Tafwys, edrych ar ansawdd gwaith pontio yn Reading.

2.8 Yn y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) fe wnaeth y Bwrdd Rhaglenni Lleihau Troseddu gomisiynu gwaith ar bontio yn 2009. Roedd gwaith wedi cael ei wneud ar yr un pryd o fewn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fapio bontio o fewn gwasanaethau awdurdodau lleol ac iechyd. Ym Mawrth 2010, fe gynhaliodd Uned Gyflawni'r Prif Weinidog ymchwil i bontio gan bobl ifanc o fewn y system cyfiawnder troseddol.

2.9 Ers ein gwaith maes, mae sylw parhaus wedi bod o fewn y llywodraeth a'r sector gwirfoddol a chymunedol i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â phontio. Un datblygiad pwysig oedd adroddiad a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn Rhagfyr 2011, *Positive for Youth: A new approach to cross-government policy for young people aged 13 to 19*[10]. Roedd hwn yn rhoi sylw i waith, arfaethedig ac ar y gweill, mewn gwasanaethau addysg ac ieuenctid, iechyd, troseddu, tai ac asiantaethau eraill, ac yn datgan nifer o ffyrdd lle'r oedd angen gwneud gwelliannau.

***Canllawiau a chyfarwyddyd ynghylch pontio***

2.10 Mae adrannau ac asiantaethau llywodraeth yng Nghymru a Lloegr, wedi darparu canllawiau a chyfarwyddyd ar bontio. Fe wnaeth NOMS a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gyhoeddi canllawiau yn Awst 2008 a'r *Protocol pontio achosion rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr* ar gyfer achosion cymunedol yn Rhagfyr 2009. Fe wnaeth y ddau nodi'r mathau achosion y dylid eu trosglwyddo neu beidio, a'r prosesau y dylid eu dilyn.

2.11 Yn ystod cwrs yr arolygiad, sefydlwyd Fforwm Pontio Ieuenctid i Oedolion. Roedd yn rhywbeth cadarnhaol fod y datblygiad hwn a oedd yn cael ei arwain yn frwd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) wedi sicrhau cyfranogiad yr amrywiaeth o adrannau perthnasol y llywodraeth. Fe arweiniodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid hefyd ar gynhyrchu protocol diwygiedig ar gyfer pontio mewn achosion cymunedol, gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn arwain ar bontio yn y ddalfa.

2.12 Yn y maes iechyd, yng Nghymru ac yn Lloegr, mae canllawiau wedi eu cyhoeddi ar amrywiaeth o bynciau'n ymwneud â phontio gan bobl ifanc at wasanaethau oedolion, gan gynnwys anghenion iechyd cymhleth, problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Roedd yn gyffredin i'r rhain roi sylw i'r oedran y mae gwasanaethau'n cychwyn ac yn dod i ben (yn enwedig mewn iechyd meddwl); egluro'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng gwasanaethau pobl ifanc a gwasanaethau oedolion, a defnyddio doethineb wrth benderfynu pa bryd i drosglwyddo, cadw'n ôl neu weithio ar y cyd gyda phobl ifanc.

**Enghraifft o drefniadau pontio mewn Iechyd:**

**Yn 2005, cyhoeddodd Asiantaeth Genedlaethol Lloegr ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau adroddiad, *Young people's substance misuse treatment services – essential elements*[12]. Roedd yn datgan:**

**'Mae egwyddor sylfaenol ynghylch sut y dylai comisiynwyr a darparwyr camddefnyddio sylweddau ystyried y mater hwn: dylai gwasanaethau gael eu darparu ar sail angen nid yn ôl maen prawf oedran.**

**Felly, os oes gan berson 18 oed neu hŷn anghenion y gellid eu diwallu'n well gan wasanaeth pobl ifanc, yna dyna fyddai'r lleoliad mwyaf addas, cyn belled nad yw hyn yn niweidiol i'r gwasanaeth a gynigir i gleientiaid eraill. Byddai'r un peth yn wir am bobl ifanc o dan 18 sydd angen gwasanaeth y gallai gwasanaeth oedolion ei ddarparu'n well. Dylai comisiynwyr felly ganiatáu hyblygrwydd wrth ystyried trefniadau pontio'.**

**Dylai pob person ifanc sy'n derbyn triniaeth camddefnyddio sylweddau gael cynllun gofal pontio cyn eu deunawfed pen blwydd a ddylai nodi anghenion sy'n parhau (nid dim yn rheini sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau) a pha sefydliadau yw'r rhai mwyaf abl i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gydnabod bod 'pontio i wasanaethau oedolion yn digwydd ar oedrannau neu gyfnodau datblygiadol gwahanol gan ddibynnu ar yr asiantaeth'.**

**Roedd canllawiau diweddarach yn 2008[13] ychydig yn fwy petrusgar:**

**'… gellir cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd o safbwynt uchafswm oedran, cyn belled â bod yr angen yn cael ei ddiwallu'n well mewn gwasanaeth person ifanc a bod gan y staff y cymhwysedd a'r adnoddau i ddiwallu'r anghenion. Yn yr un modd, efallai y gall rhai pobl ifanc gael eu hanghenion wedi'u diwallu'n well mewn gwasanaethau oedolion lle gall ymyriadau arbenigol fod yn fwy datblygedig nag yng ngwasanaeth arbenigol triniaeth camddefnydd sylweddau lleol y person ifanc.**

**… Gellid lleoli gweithwyr pontio mewn gwasanaethau oedolion, ond hefyd gynnal rhai sesiynau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau pobl ifanc er mwyn hwyluso pontio'.**

***Ffactorau eraill sy'n effeithio ar bontio***

2.13 Er i'r arolygiad archwilio gwaith i hyrwyddo pontio effeithiol, roedd arnom hefyd angen ystyried agweddau eraill o waith ieuenctid a gwaith oedolion oherwydd roedd ganddynt y potensial i effeithio ar sut roedd pobl ifanc yn gwneud y pontio.

2.14 Yn gyntaf, er na wnaethom ddadansoddiad costau, cytunai uwch-reolwyr yn yr ardaloedd yr ymwelasom â hwy bod y Timau Troseddwyr Ifanc (YOT) yn gyffredinol yn cael mwy o adnoddau fesul achos na'r Ymddiriedolaethau Prawf, gan adlewyrchu'r egwyddor o 'ymyriad cynnar' a oedd yn sail i sefydlu'r Timau Troseddwyr Ifanc. Golygai hyn mai'r tebygrwydd oedd, er y byddai lefel y gwasanaeth unwaith y byddai'r person ifanc wedi trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf yn cael ei benderfynu ar sail yr unigolyn, y byddai llai o adnoddau ar gael. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod y sefyllfa'n debyg yn y ddalfa, lle mae trefniadau comisiynu ar gyfer sefydliadau diogel plant yn wahanol i'r rhai ar gyfer carchardai'n ehangach, ac nid oedd gennym ffigurau cymharol manwl ar gael.

2.15 Yn ail, roedd Timau Troseddwyr Ifanc wedi cael eu cynllunio o'r cychwyn fel timau o staff o asiantaethau partneriaethol yn cyflwyno gwasanaethau mewn dull integredig, gyda phwyslais clir ar anghenion plant a phobl ifanc. I'r gwrthwyneb, roedd rheolwyr troseddwyr yn y Gwasanaeth Prawf yn fwy tebygol o orfod trefnu a chomisiynu gwaith darparwyr ymyraethau allanol (a allai fod ag arbenigedd mewn gwaith gydag oedolion ifanc neu beidio), yn aml wedi'i ddarparu ar safle arall lle byddai disgwyl i oedolion ifanc deithio. Yn y ddalfa, mae arolygiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o raglen waith troseddwyr ifanc yn dangos ymwneud llai cyson gan weithwyr proffesiynol eraill mewn gwaith gydag oedolion ifanc unwaith y maent wedi trosglwyddo i Sefydliad Troseddwyr Ifanc dros 18 oed.

2.16 Yn drydydd, mae gwahanol safonau cenedlaethol [(14),(15)], a threfniadau ar gyfer penderfynu lefel y gwasanaeth i'r rheini sydd o dan oruchwyliaeth gan Dimau Troseddwyr Ifanc a'r rheini sydd o dan oruchwyliaeth gan Ymddiriedolaethau Prawf. Ar adeg ein harolygiad roedd safonau cenedlaethol newydd wedi cael eu cyflwyno yn y Gwasanaeth Prawf[(16)] ac roedd safonau cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wrthi'n cael eu hadolygu. Roedd safonau cenedlaethol ar gyfer troseddwyr oedd yn oedolion yn cael eu gweld gan y rhai y buom yn cyfweld â hwy fel rhai mwy beichus a llai hyblyg, tra bod Timau Troseddwyr Ifanc yn cael eu gweld fel rhai â lefelau cysylltu uwch pan oedd ar bobl ifanc eisiau help. Yn y ddalfa, roedd darpariaethau ar wahân ar gyfer gofal gwarchodol pobl ifanc o dan 18, o gymharu ag oedolion ifanc.

## 3. PONTIO YN Y GYMUNED: CYN TROSGLWYDDO

**Crynodeb:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu ein casgliadau ynghylch y camau a gymerir: i adnabod y bobl ifanc sy'n gymwys i'w trosglwyddo; i wneud penderfyniadau ynghylch trosglwyddo neu gadw yn ôl; i roi gwybodaeth i'r person ifanc a'i gynnwys yn y broses drosglwyddo, ac i rannu gwybodaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf a gwasanaethau eraill i oedolion.

***Beth y disgwyliem ei weld:***

Timau Troseddwyr Ifanc (YOT) yn adnabod achosion sy'n gymwys i'w trosglwyddo yn 18 oed a chyfathrebu effeithiol gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf er mwyn sicrhau pontio llyfn.

- Mae asesiadau, cynlluniau a gwaith gyda'r person ifanc cyn y pontio i gyd yn gymorth i sicrhau fod y person ifanc yn dal i gymryd rhan yn y gweithgareddau a'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu neu fod mewn *Perygl o Niwed* yn ystod y trosglwyddo ac wedi hynny.

- Mae timau YOT, y gwasanaeth prawf a'r partneriaid eraill i gyd yn sicrhau fod y person ifanc yn meddu ar wybodaeth lawn ac yn cael ei gynnwys yn y broses drosglwyddo, a bod yr holl wybodaeth wedi'i diweddaru.

- Bod pawb sy'n cymryd rhan yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau'r person ifanc wrth iddynt symud o un gwasanaeth i'r llall, gan eu cynnwys yn llawn, ac ymateb i unrhyw broblemau allai godi.

***Canfyddiadau allweddol:***

- Nid oedd pob achos oedd yn gymwys i'w drosglwyddo i Ymddiriedolaethau Prawf wedi'u hadnabod gan dimau YOT.

- Roedd penderfyniadau i drosglwyddo yn aml yn cael eu gwneud heb asesiad.

- Roedd rhai achosion yn cael eu cadw gan dimau YOT ar ôl eu pen-blwydd yn ddeunaw, gyda'r rhan fwyaf ohonynt am eu bod yn fregus. Nid oedd yr achosion hyn wedi'u cyfyngu i'r sawl oedd â chyfnod byr yn unig ar ôl ar y gorchymyn, fel y rhagwelwyd yn y protocol cenedlaethol ar drosglwyddo achosion.

- Nid oedd elfennau allweddol o'r trosglwyddo megis darparu gwybodaeth gynhwysfawr a chynnal cyfarfodydd tair ffordd yn digwydd yn gyson.

- Nid oedd pobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, na darparwyr ymyriadau yn chwarae rhan ddigonol yn y broses drosglwyddo.

### *Adnabod achosion cymwys*

3.1 Darganfuwyd mai dim ond ychydig dros ddwy ran o dair o'r achosion hynny oedd yn gymwys i'w trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf yn 18 yr oedd rheolwyr achosion mewn Timau YOT wedi eu hadnabod. Golygai hyn fod nifer arwyddocaol o achosion y dylid fod wedi eu hystyried ar gyfer trosglwyddo wedi aros gyda'r

Timau YOT. Er y gellid darganfod cymhwyster drwy systemau rheoli achosion neu gyfrifiad syml o oed y person ifanc a hyd y gorchymyn, ni chafwyd adnabod amserol ond mewn 43% o achosion. Golygai hyn fod y gwaith o baratoi'r person ifanc ar gyfer trosglwyddo wedi'i oedi neu ei ruthro mewn rhai achosion. Y rheswm mwyaf cyffredin oedd amryfusedd o du'r rheolwr neu'r ymarferwr.

3.2 Roedd gan reolwyr mewn rhai timau YOT systemau ar gyfer adnabod achosion cymwys a sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ynglŷn â throsglwyddo. Yn nhimau YOT Caerlŷr, roedd y ffurflen dosbarthu achosion yn cofnodi a fyddai'r person ifanc yn gymwys i'w drosglwyddo yn y dyfodol agos, oedd yn broc i'r cof. Mewn timau YOT eraill, roedd gan y rheolwyr daenlenni o achosion oedd yn nesu at gyfnod trosglwyddo wedi'u dosbarthu yn ôl trefn dyddiad geni ac roedd achosion yn cael eu hadolygu yn gyson wrth arolygu staff. Roedd rhai systemau rheoli achosion yn nodi oed y person ifanc mewn blynyddoedd a misoedd. Dywedodd un rheolwr timau YOT wrthyf mai dim ond wrth fwrw golwg yn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc am wybodaeth ar fater arall y gwelodd *"17 mlwydd, 11 mis yn syllu arna'i"* a mynd ati'n frysiog i roi trosglwyddo ar y gweill.

### *Asesu a gwneud penderfyniadau*

3.3 Unwaith y nodwyd fod rhywun yn gymwys i'w drosglwyddo, gwnaed penderfyniad i gadw'r person ifanc yn ôl neu ei drosglwyddo yn y mwyafrif mawr o achosion, er y cafwyd oedi gyda rhai oherwydd amryfusedd. Penderfynwyd trosglwyddo mewn dwy ran o dair o achosion a chadw yn ôl mewn un rhan o dair. Gwnaed llai na hanner y penderfyniadau hyn ar sail ystyried y ffactorau oedd yn effeithio ar briodoldeb cadw yn ôl neu drosglwyddo. Roedd nifer o ymarferwyr a oedd wedi penderfynu trosglwyddo achosion wedi gwneud hynny am ei fod yn ddisgwyliad eglur yn eu timau YOT, felly'r mater dan ystyriaeth iddynt hwy oedd nid a fyddid yn trosglwyddo ond pa bryd y byddid yn gwneud. Pan wnaed penderfyniad byddai'n aml yn cael ei gofnodi yn nodiadau arolygu'r staff yn unig. Roeddem yn teimlo nad oedd hyn yn briodol am fod bwriad i drosglwyddo yn benderfyniad mawr o ran dyfodol y person ifanc, yr oedd gofyn ei nodi ar gofnod achos y person ifanc lle y gellid ei weld gan eraill oedd ynglŷn â'r achos.

3.4 Roedd penderfyniadau i gadw'n ôl yn fwy tebygol o fod wedi'u selio ar asesu (15 allan o 22) na'r rhai oedd i'w trosglwyddo (15 allan o 48).

3.5 Ychydig yn unig o achosion a welsom lle yr oeddem yn teimlo bod y penderfyniad, p'un ai i drosglwyddo neu i gadw'n ôl, yn un afresymol. Yr eithriadau oedd achosion a gafodd eu trosglwyddo pan oedd y person ifanc mewn cyfnod neilltuol o fregus, ac achosion a gadwyd yn ôl er fod y gwaith oedd yn cael ei wneud arnynt ar y pwynt hwnnw yn annigonol. Mewn un ardal, roedd pobl ifanc oedd wedi'u dedfrydu pan oeddent bron yn 18 oed yn cael eu dal gan dimau YOT, heb i unrhyw waith gael ei gyflawni, tan eu pen-blwyddi yn ddeunaw, ac yna eu trosglwyddo. Roeddem yn teimlo mewn sefyllfaoedd o'r fath y gallai'r gwasanaeth prawf fod wedi cymryd yr achosion hyn o'r cychwyn fel bod cyn lleied o darfu â phosibl yn digwydd ac er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol y person ifanc.

### *Y broses o wneud penderfyniadau*

3.6 Disgrifiodd rhai rheolwyr achosion timau YOT y broses o wneud penderfyniadau ynghylch trosglwyddo fel un gymharol uniongyrchol, am mai'r disgwyliad cyffredin (yn y protocol cenedlaethol ac yn yr ymarfer lleol) oedd trosglwyddo achosion gyda chadw hwy yn ôl yn eithriad. Roedd eraill yn pwyso a mesur ffactorau o blaid ac yn erbyn trosglwyddo ym mhob achos. Yn swydd Hertford, gwelsom fod penderfyniadau yn amlach wedi'u seilio yn benodol ar asesiadau Asset na mewn ardaloedd eraill.

3.7 Lle cafwyd asesiad, roedd dwy ran o dair wedi cymryd i ystyriaeth aeddfedrwydd y person ifanc, pa mor fregus oeddynt, a'u patrwm o gydymffurfio; ac yn achos ychydig dros hanner ohonynt, yr angen am gwblhau ymyriadau (yn enwedig ymyriadau cymodi neu rai yn cynnwys rhieni/gofalwyr) a barn y person ifanc ar drosglwyddo.

3.8 Roedd yr amser oedd ar ôl ar y gorchymyn yn ffactor, er i raddau llai nag y rhagwelwyd yn y *Protocol trosglwyddo achosion* cenedlaethol a ddarparai ar gyfer cadw yn ôl mewn achosion oedd yn agos at gwblhau eu gorchymyn llys. Roedd llawer o'r achosion a gadwyd yn ôl yn oedolion ifanc a fyddai ymhell ymlaen yn eu deunawfed flwydd erbyn i'r gorchymyn llys ddod i ben, ac roedd rhai yn 19 mlwydd oed. Y rheswm mwyaf cyffredin am gadw yn ôl oedd am y barnwyd bod y person ifanc yn agored i niwed (yn arbennig y rhai ag anabledd a/neu a oedd yn gymwys i adael y gwasanaethau gofal), ac roedd y timau YOT yn teimlo bod ganddynt eisoes berthynas waith gyda'r person ifanc oedd yn gweithio, gwell mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol plant a mwy o amser a hyblygrwydd na'r Ymddiriedolaeth Prawf.

3.9 Cymerwyd rhai ffactorau penodol i ystyriaeth mewn penderfyniadau i drosglwyddo neu i gadw yn ôl. Barnwyd bod llawer o bobl ifanc oedd wedi eu dyfarnu'n euog o droseddau rhywiol yn anaddas ar gyfer rhaglenni troseddwyr rhywiol i oedolion ac o bosibl yn agored i niwed o du troseddwyr rhywiol hŷn, ac felly byddai'n well eu cadw yn ôl cyd ag y byddai modd rheoli'r risgiau i bobl ifanc eraill. Yn aml, roedd timau YOT (a'r gwasanaeth prawf weithiau) yn teimlo y byddai fwy na thebyg yn well i bobl ifanc gydag anghenion lleferydd ac iaith, anghenion iechyd rhywiol, ac â phroblemau camddefnyddio sylweddau llai datblygedig, aros gyda'r timau YOT am y byddai'n annhebyg y caent wasanaeth tebyg gan yr Ymddiriedolaeth Prawf. Dywedodd un rheolwr achosion timau YOT:

*"Mae gen i berson ifanc sy'n 18. Fe wnaeth e lawr lwytho delweddau anweddus. Roedd gan y gwasanaeth prawf yr adnoddau, ond roedd yn ymwneud mwy ag ymyriad gan oedolion ac roedd angen rhywbeth gwahanol arno. Roedd e hefyd yn awtistig ac roedden ni'n meddwl y byddai'n well ei gadw yma i adeiladu ar sail yr ymddiriedaeth oedd ganddo ynom ni, ac mae'r amser gennym ni. Ond yr ydym wedi gwneud cysylltiadau gyda gwasanaethau iechyd meddwl oedolion fel bod asesiadau yn cael eu gwneud tra'n bod ni'n dal i weithio gydag e."*

3.10 Ystyriwyd bod mathau eraill o achosion yn fwy tebygol o fod angen eu trosglwyddo. Roedd y rhain yn cynnwys pobl ifanc oedd yn ystyried bod timau YOT 'ar gyfer plant' ac a oedd felly yn gyndyn i gydweithredu gydag ymyriadau'r timau; y rhai oedd yn debygol o ddylanwadu ar blant iau (yn cynnwys pobl ifanc mewn gangiau); a'r rheiny gyda grŵp hŷn o gyfoedion. Roedd ymarferwyr hefyd yn dweud pan oedd pobl ifanc yn gyfarwydd â'r swyddog prawf lleol (naill ai drwy waith di-dâl neu aelod o'r teulu) gallai hyn fod yn ffactor. Serch hynny, mewn

ardaloedd gwledig roedd pryderon y byddai'r person ifanc yn ei chael hi'n anodd i gyrraedd y swyddfa prawf ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar ôl cael ymweliadau cartref gynt gan reolwr achos y timau YOT.

3.11 Roedd penderfyniadau eraill yn ymwneud llai â manylion yr achos unigol, gan adlewyrchu gwahanol dybiaethau ynghylch trosglwyddo mewn gwahanol dimau YOT. Roedd un rheolwr timau YOT, wedi trafod gyda rheolwyr prawf, yn ffafrio cadw ar y cyfan, am fod llawer o'r bobl ifanc ar eu llwyth achosion wedi'u hasesu a'u cael yn fregus, a bod trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf wedi ei gysylltu â phroblemau gyda chydymffurfiaeth, a thorri gofynion yn sgil hynny, yn y gorffennol. Yn yr achos hwn, roedd trefniadau lleol yn gefn i'r timau YOT gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn barod i barhau â'r gwaith oedd ar y gweill gyda phobl ifanc 18 oed.

3.12 Roedd gan rai ymarferwyr awydd mwy cyffredinol i "*gadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder troseddol i oedolion*" fel y cyfryw. Roedd eraill yn anghytuno, gan ddatgan bod peryglon wrth: *"eu dal yn ôl fel pe baent yn blant … mae'n rhaid i ni fod yn ofalus rhag meddwl … mai ni yw'r unig bobl sy'n gallu cwrdd â'u gofynion. Ydyn ni'n cadw'r achos am fod y person ifanc yn rhy nerfus i symud ymlaen neu a ydym ni'n cadw'r person ifanc am mai ni yw'r gwasanaeth sy'n gallu cwrdd â'u gofynion orau?"*

3.13 Tynnodd eraill sylw at fanteision cymysgedd o wasanaethau i'r ifanc ac i oedolion, er enghraifft, i rai pobl ifanc yn gadael gofal, byddai trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf yn darparu ffocws 'oedolyn' mewn rhai agweddau o'u bywyd, gan gadw ffocws 'rhywun ifanc' o'r gwasanaethau gadael gofal.

3.14 Roedd llawer o benderfyniadau i gadw yn ôl, ond fawr ddim penderfyniadau i drosglwyddo, yn cymryd i ystyriaeth y gwahaniaeth, neu'r gwahaniaeth tybiedig, rhwng yr adnoddau y gallai'r timau YOT a'r Ymddiriedolaeth Prawf eu darparu. Dywedodd un rheolwr achosion YOT: "*Mae gennym adnoddau da i ddelio â gofynion iechyd, h.y. lleferydd ac iaith, iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Nid oes gan y gwasanaeth prawf adnoddau ar gyfer hynny nac i ddelio ag anaeddfedrwydd".* Ond yn aml, serch hynny, nid oedd rheolwyr achosion timau YOT yn gwybod beth oedd gan y gwasanaeth prawf i'w gynnig, heblaw pan oedd secondai prawf gwybodus yn y timau YOT hynny. Y realiti oedd fod gan y gwasanaeth prawf mewn rhai swyddfeydd adnoddau da ar gyfer oedolion ifanc (gwelsom glybiau gwaith a darpariaeth iechyd meddwl oedd yn rhagori ar yr hyn oedd ar gael yn y timau YOT lleol) ond mewn eraill nid felly. Roeddem o'r farn ei bod yn bwysig i ymarferwyr wybod beth yn union fyddai ar gael yn yr achos unigol yn hytrach na dibynnu ar argraffiadau sydd wedi'u cyffredinoli ac sydd, o bosibl, bellach wedi dyddio. Fel arall, fel y dywedodd un rheolwr achosion timau YOT "*nid ydym yn gwybod at beth yr ydym yn eu trosglwyddo … na pham yr ydym yn eu cadw*".

3.15 Mewn dau o'r timau YOT yr ymwelasom â hwy, roedd y penderfyniadau a wnaed gan y rheolwr YOT yn aml yn golygu trafod gyda'i gydweithiwr cyfatebol yn y gwasanaeth prawf. Roeddem o'r farn bod hyn yn gadarnhaol am y gallai rheolwyr rannu gwybodaeth a syniadau, yn enwedig ynghylch yr adnoddau oedd ar gael ar y pryd.

3.16 Peth prin oedd fod rheolwyr troseddwyr prawf yn enwi achosion nad oeddent yn gymwys i'w trosglwyddo, er eu bod yn gweld achosion a drosglwyddwyd o dimau YOT yn fwy o sialens i weithio gyda hwy nag oedolion ifanc yn gyffredinol am fod y rheiny o dimau YOT fel arfer wedi gwneud mwy o droseddu a bod ganddynt broblemau dyfnach. Roedd y problemau hyn yn cynnwys defnydd cronig o ganabis a oedd yn ei gwneud hi'n anodd cysylltu â nhw. Dywedodd un ymarferwr:

*"Mae arolygu person ifanc yn gallu cymryd llawer o'ch amser. Mae ganddyn nhw nifer o broblemau fel arfer: llety, ymddygiad, anawsterau dysgu yn aml. Gall cysylltu ag asiantaethau eraill fod yn eithaf cymhleth. Er enghraifft, os yw Connexions yn gysylltiedig mae gofyn inni siarad â nhw a gweld beth y maen nhw'n ei wneud gyda'r achos. Mae pobl ifanc yn gallu ei chael hi'n anodd i ddod i apwyntiadau, a does gyda ni ddim llawer rhagor o adnoddau i fynd ar eu holau."*

### *Rheoli achosion a gedwir yn ôl wedi 18*

3.17 Arolygwyd 26 o achosion gennym lle y gwnaed penderfyniad i gadw'r achos yn ôl a'r person ifanc oddi ar hynny wedi cyrraedd 18 oed. Fe aethom ar ôl y rhesymau penodol dros gadw yn ôl fel ein bod yn gallu asesu a oedd rheolwr achosion y tîm YOT wedi cymryd camau i ddelio â'r materion hynny mewn gwirionedd. Roedd y sail resymegol dros gadw achosion yn cynnwys erlyn cyfredol am dorri amodau, gwaith teuluol wedi'i gynllunio, cwblhau Arolygu a Gwyliadwriaeth dwys a gwaith cyfiawnder adferol, cyngor ar iechyd rhywiol a beichiogrwydd, a chysylltu â gwasanaethau gadael gofal. Mewn 18 o'r 22 achos lle yr oedd yn bosibl barnu roeddem yn teimlo bod camau digonol wedi'u cymryd i gyflawni'r amcanion hyn a gyda phob un o'r achosion, gan gymryd cynnydd y person ifanc i ystyriaeth, fod cadw yn ôl gan dimau YOT wedi bod yr un mor effeithiol, neu yn fwy effeithiol, na phe bai'r achos wedi'i drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf. Roeddem felly yn teimlo bod y penderfyniadau i gadw'r achosion hyn wedi bod yn benderfyniadau da.

**Enghraifft ymarfer:**

**Roedd Edie yn feichiog, gyda phryderon Diogelu amdani hi a'i baban heb ei eni, ac roedd yn cael gwasanaethau iechyd rhywiol gan nyrs y tîm YOT. Disgrifiodd rheolwr achos y tîm YOT ei phenderfyniad i gadw'r oruchwyliaeth o Edie fel un "awtomatig. Roeddwn i'n gallu gweld bod arni angen rhywun yr oedd hi'n ymddiried ynddynt ac oedd â'r amser a'r cysylltiadau". Cysylltodd rheolwr achos y tîm YOT gyda'r gweithiwr gadael gofal a'r gweithiwr tai ac, yn sgil pryderon ynghylch cam-drin domestig, cyfeiriodd yr achos i'r grŵp trais domestig aml-asiantaeth. Roddem yn teimlo er y gallai'r gwasanaeth prawf fod wedi ymgymryd â llawer o'r tasgau hyn, fod mewnbwn parhaus y nyrs YOT a'r berthynas waith agos rhwng rheolwr achos y tîm YOT a'r gweithiwr gadael gofal wedi bod yn neilltuol o bwysig o ran cael canlyniadau cadarnhaol. Roedd Edie yn awr yn fwy hyderus, a gofal y baban ganddi, ac roedd cynlluniau'n eu lle i fynd i'r afael â'r pryderon am y cam-drin domestig.**

### *Rhagweld newidiadau posibl mewn ymyriad a/neu ddarparwr*

3.18 Pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd 18 oed gall fod newidiadau o ran pwy sy'n darparu ymyriadau mewn meysydd fel cam-drin sylweddau ac iechyd meddwl ac roedd yn

bwysig bod rheolwyr achosion mewn timau YOT yn gwneud cynlluniau i osgoi tarfu ar ymyriadau yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig pan oedd yr ymyriad yn ofyniad gorchymyn llys.

3.19 Ond dim ond lleiafswm o achosion, serch hynny, y daethom o hyd iddynt lle roedd y rheolwr achosion wedi rhagweld y newidiadau posibl hyn. Cysylltwyd â'r gwasanaeth prawf mewn chwarter yn unig o'r achosion lle roedd Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cael ei baratoi ar rywun oedd bron yn 18 oed ac ar gychwyn yr oruchwyliaeth nifer fach o gynlluniau ymyriad a baratowyd gan dimau YOT oedd yn ystyried y posibilrwydd o oruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf ar ryw gam yn y gorchymyn a/neu newidiadau posibl mewn ymyriadau yn 18 oed.

3.20 Mewn rhai enghreifftiau, cafwyd y diffyg rhagweld hwn oherwydd nad oedd rheolwyr achosion timau YOT wedi nodi y byddai'r person ifanc yn dod yn 18 oed yn ystod cyfnod y gorchymyn neu eu bod yn cynllunio ar gyfer cyfnodau byr yn unig neu tan y pen-blwydd yn ddeunaw. Roedd yn ymddangos bod ysgrifenwyr Adroddiadau Cyn Dedfrydu yn ffafrio ymyriadau heb strwythur y gellid eu gweithredu yn hyblyg cyn trosglwyddo yn hytrach na thrafod ymyriadau mwy strwythuredig gyda'r gwasanaeth prawf a fyddai'n fwy cymhleth i'w trefnu ond a fyddai, o bosibl, yn fwy effeithiol. Roedd yn gadarnhaol, yng Ngwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych, bod y rheolwyr achos yn defnyddio adran 'Targedau'r Dyfodol' y cynllun Ymyriad i adnabod gwaith y gallai'r Ymddiriedolaeth Prawf ymgymryd ag ef. Roedd y cam hwn yn rhoi cyfle i feddwl ymlaen llaw ynglŷn â'r hyn y gellid ymgymryd ag ef cyn i unrhyw drosglwyddiad posibl ddigwydd a'r hyn y gallai'r rheolwr troseddwyr prawf ymgymryd ag ef wedi'r trosglwyddiad.

3.21 Roedd rhai rheolwyr achosion timau YOT yn credu y gallai gwaith cynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol fod yn wastraff os na fyddai'r person ifanc yn dal mewn cysylltiad/wedi aildroseddu erbyn hynny. Roedd y ffordd hon o fynd ati yn gyfle a gollwyd gan ei fod yn golygu bod gwaith diweddarach i gynnal ymyriadau yn cael ei ruthro a'i fod yn broses oedd yn ymateb yn unig; gallai hefyd greu bwlch os oedd y gwasanaeth ieuenctid wedi dod i ben ond nad oedd y gwasanaeth i oedolion wedi eu derbyn eto. Roedd y duedd hon i gynnwys darparwyr iechyd yn rhy hwyr neu ddim o gwbl yn cael ei hategu gan staff yng ngwasanaethau iechyd oedolion a ddywedai eu bod yn tueddu i glywed bod achosion wedi eu trosglwyddo o'r timau YOT i'r Ymddiriedolaeth Prawf ar ôl iddo ddigwydd. Roedd peth cysylltu cynnar gyda darparwyr iechyd meddwl, serch hynny, yn well. Yn swydd Hertford, dywedodd un darparwr iechyd meddwl eu bod yn cyfrannu at Adroddiadau Cyn Dedfrydu gan nodi pa gamau oedd angen eu cymryd i gefnogi'r person ifanc yn eu trosglwyddiad i wasanaethau oedolion.

**Enghraifft ymarfer:**

**Siaradodd un rheolwr achosion timau YOT oedd yn paratoi Adroddiad Cyn Dedfrydu ar berson ifanc oedd bron yn 18 â'r swyddog prawf oedd wedi'i secondio i gael gwybodaeth ar raglenni cydnabyddedig ac i drafod yr opsiynau dedfrydu. Yna cafodd drafodaeth gyda'r uwch swyddog prawf, nodi sgôr aildroseddu'r grŵp o droseddwyr (mesur o ba mor debygol fyddai aildroseddu), a chyfeirio'r achos i'r rhaglen alcohol dwyster isel. Y canlyniad**

**oedd gorchymyn lle gallai'r tîm YOT wneud y gwaith ar y cychwyn ac yna'i drosglwyddo'n rhwydd i'r gwasanaeth prawf, a'r asiantaeth camddefnyddio sylweddau i oedolion. Ymatebodd y person ifanc yn gadarnhaol ac roedd yn gwybod am wahanol swyddogaethau'r tîm YOT a'r gwasanaeth prawf o'r cychwyn cyntaf.**

### *Rhoi gwybodaeth i bobl ifanc a'u cynnwys*

3.22 Roedd dwy ran o dair o'r bobl ifanc y gwnaethom eu cyfweld yn cofio y dywedwyd wrthynt ymlaen llaw y gallent gael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf pan oeddent yn 18 ond dim ond chwarter ohonynt oedd yn teimlo bod yr opsiynau wedi eu trafod yn llawn gyda hwy. Dywedodd rhai ohonynt iddynt gael gwybod ar fyr rybudd am eu trosglwyddiad i'r gwasanaeth prawf, ar ôl cymryd yn ganiataol hyd at hynny y byddent yn aros gyda'r tîm YOT. Dywedodd eraill bod eu rheolwr achosion YOT wedi dweud wrthynt pe baent yn aildroseddu byddent yn mynd at y gwasanaeth prawf a'u bod llawer yn llymach yno nag yn y tîm YOT.

3.23 Dywedodd un person ifanc, a hynny'n achos pryder inni, nad oedd yn ymwybodol ei fod yn gymwys i'w drosglwyddo pan gafodd ei gyfweld gennym:

*"Byddai'n well gen i aros yma [yn y tîm YOT]. Maen nhw jyst fel petaen nhw'n fwy o help gyda phob dim. Rwy'n nabod nhw i gyd hefyd. Rwy wedi cael lot fawr o help, lot fawr am y Coleg, dod yn ôl i gysylltiad gyda nheulu i ac fe helpodd y tîm YOT fi gyda'u gweld nhw am ychydig o weithiau yr wythnos unwaith eto ... Dwy ddim yn nabod neb yn y gwasanaeth prawf. Mae gyda fi weithiwr gadael gofal rwy'n ei weld yn aml, falle unwaith yr wythnos. Digwyddodd [y newid o weithiwr cymdeithasol i weithiwr Gadael Gofal] yn gyflym dros ychydig o ddiwrnodau ac fe gymerodd amser i fi allu siarad gyda fy Ngweithiwr Gadael Gofal. Mae'n well aros yn y tîm YOT yn bennaf oherwydd y lefel o gefnogaeth".*

Dywedodd un arall:

*"Mae'r tîm YOT jyst eisiau cael gwared â chi. Dylen nhw roi mwy o rybudd ichi eich bod yn mynd at y gwasanaeth prawf, chwe mis dyweder."*

### *Rhoi gwybod i Ymddiriedolaethau Prawf am y bwriad i drosglwyddo a darparu'r wybodaeth berthnasol*

3.24 Pan roedd y tîm YOT yn rhoi gwybod i'r gwasanaeth prawf y byddent yn trosglwyddo achos yn y dyfodol anfonwyd gwybodaeth lawn (fel sy'n ofynnol gan y protocol trosglwyddo achosion cenedlaethol) mewn llai nag un rhan o dair o achosion. Roedd gwybodaeth yn cael ei hanfon, ond gyda dogfennau pwysig yn eisiau mewn ychydig dros hanner. Anfonwyd proffiliau craidd Asset bron bob tro ond roedd cynlluniau ymyriad, cynlluniau rheoli risg a chynlluniau rheoli achosion bregus weithiau'n cael eu hepgor. Roedd hyn am fod dryswch ynglŷn â'r dogfennau yr oedd eu hangen, problemau gyda chopïo ac e-bostio dogfennau, ac am nad oedd y rhan fwyaf o reolwyr troseddwyr prawf yn ddigon cyfarwydd ag asesiadau Asset i wybod bod rhywbeth yn eisiau.

3.25 Anfonwyd rhai hysbysiadau gydag ond ychydig o rybudd, yn cynnwys achosion yr oedd y timau YOT wedi penderfynu eu cadw yn flaenorol ond lle roedd angen trosglwyddo wedi hynny yn dilyn aildroseddu neu dorri rheolau. Golygai hyn

wedyn fod y trosglwyddo yn cael ei ruthro gyda llai o gyfle ar gyfer cyfarfodydd trosglwyddo achosion oedd wedi eu cynllunio'n dda.

3.26 Ychydig iawn o achosion yr oedd y gwasanaeth prawf wedi cael gwybod amdanynt chwe mis cyn y dyddiad trosglwyddo arfaethedig (fel yr argymhellir yn yr enghraifft o arfer da yn y protocol cenedlaethol). Roedd y rhan fwyaf o reolwyr troseddwyr prawf o'r farn, ac yr oeddem ni'n cytuno, y byddai rhybudd o dri mis o drosglwyddo disgwyliedig yn rhoi hen ddigon o amser iddynt wneud paratoadau ar gyfer derbyn yr achos, ac eithrio MAPPA ac achosion o berygl uchel o niwed pan fyddai angen rhybudd hirach. Mewn rhai meysydd, roedd gan yr ymddiriedolaeth prawf eisoes lawer o wybodaeth am achosion oedd yn cael eu monitro drwy gynlluniau aml-asiantaeth megis Atal Troseddwyr Ifanc a Rheoli Troseddwyr Integredig, am fod eu staff yn bresennol yn y cyfarfodydd lle trafodwyd achosion cyn trosglwyddo.

3.27 Roedd yn well gan rai rheolwyr ac ymarferwyr mewn timau YOT anfon gwybodaeth ar bapur yn hytrach nag yn electronig. Roedd rhai yn drwgdybio e-bost diogel ac roeddent yn hapusach yn mynd â'r wybodaeth yn bersonol at y swyddfa brawf. Ar adeg yr arolygiad roeddem yn ymwybodol o beilot yn Llundain o ddull newydd o drosglwyddo'n electronig a oedd yn awtomeiddio'r broses o godi gwybodaeth Asset a gwybodaeth arall ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Prawf.

3.28 Roedd gan ddau o'r swyddfeydd prawf mwy reolwr dynodedig i weithredu fel un pwynt o gyswllt ar gyfer trosglwyddiadau. Roedd y trefniadau hyn yn gweithio'n well na defnyddio'r rheolwr dyletswydd, yn enwedig gydag achosion mwy cymhleth lle roedd angen trafodaeth ar lefel rheolwyr. Roedd rhai ardaloedd wedi dyfeisio ffurflenni 'Trosglwyddo o dimau YOT i'r Gwasanaeth Prawf' oedd yn crynhoi'r wybodaeth bwysicaf am yr achos, er fod y ffurflen, mewn rhai achosion, wedi aros gyda'r rheolwr, heb i'r rheolwr troseddwyr prawf ei gweld. Roedd y ffurflenni mwyaf cynhwysfawr a welwyd gennym yn cynnwys lefel 'pa mor agored i niwed', statws 'gadael gofal', ac 'asiantaethau eraill oedd ynglŷn â'r person ifanc'.

3.29 Roedd gan rai swyddogion prawf swyddogion lled arbenigol a oedd yn goruchwylio oedolion ifanc gan gynnwys rhai a oedd wedi trosglwyddo o dîm YOT. Roedd hyn o gymorth i staff YOT gan ei fod yn ei gwneud yn haws iddynt drafod yr achos yn anffurfiol yn gynnar.

### *Ymdrin â phryderon sylweddol yn ystod pontio*

3.30 Arolygwyd chwe achos lle teimlem fod pryderon sylweddol ynghylch *Perygl o Niwed*, yn agored i niwed neu gydymffurfio yr oedd angen peth trafod arnynt gan YOT a rheolwyr prawf. Dim ond mewn tri achos y bu trafodaethau o'r fath. Er ei bod yn gadarnhaol fod penderfyniadau priodol wedi'u gwneud ym mhob un o'r achosion ynghylch y ffordd orau i reoli'r achos, roedd gyda ni bryder am y gyfran uchel lle nad oedd dim ymdrin â materion o'r fath.

3.31 Roedd rhai o'r achosion a oedd i gael eu trosglwyddo yn destun 'cyfarfodydd cynllunio achos' neu 'gyfarfodydd risg uchel' yn y tîm YOT a oedd yn cynnwys rheolwyr ac allai o bosibl gynnwys asiantaethau eraill. Fodd bynnag anaml y gwahoddid y rheolwr troseddwyr prawf dynodedig i gymryd rhan yn y trafodaethau terfynol hyn cyn trosglwyddo. Golygai hyn golli'r cyfle i ddeall achos mewn mwy o ddyfnder.

### *Aseinio rheolwr troseddwyr i baratoi i gymryd yr achos*

3.32 Ym mhob achos pan oedd timau YOT wedi gwneud hysbysiad cychwynnol o drosglwyddo arfaethedig roedd y gwasanaeth prawf wedi dynodi swyddog penodol, er mewn ychydig o dan chwarter yr achosion ni chafodd y rheolwr achos YOT ei hysbysu'n brydlon am hyn. Yr arferiad oedd i achosion gael eu dyrannu i ba bynnag reolwr troseddwyr prawf oedd â'r lle i ymgymryd â hwy. Yn Swydd Gaerlŷr roedd achosion YOS yn cael eu dyrannu i reolwyr troseddwyr prawf lled arbenigol i wella'r arfer gydag achosion wedi'u trosglwyddo.

3.33 Yn Ymddiriedolaeth Prawf Swydd Gaerloyw roedd uwch swyddog prawf wedi sylweddoli bod y broses drosglwyddo yn gallu 'drifftio' a rhoddodd flaenoriaeth i dracio'r achosion hyn, ac roedd yn glir iawn wrth gyfathrebu gyda Rheolwyr YOT a rheolwyr achosion ynghylch amserlenni ac anghenion gwybodaeth. Mewn ardal arall, roedd y trefniadau yn llawer mwy tameidiog. Mewn un achos, anfonodd rheolwr achos YOT gais am drosglwyddo ar e-bost at y Gwasanaeth Prawf yn gofyn pa ddeunydd oedd arnynt angen, gan roi'r gorau i'r apwyntiadau ar ei union. Ni ddyrannwyd yr achos gan y Gwasanaeth Prawf am chwe wythnos oherwydd camgymeriad ac yn y cyfamser ni chafodd y person ifanc ei weld gan na'r naill asiantaeth na'r llall.

3.34 Anfonwyd asesiadau a chynlluniau wedi'u diweddaru at y rheolwr troseddwyr prawf mewn ychydig o dan hanner yr achosion cyn eu trosglwyddo. Yn ymarferol, cawsom fod rhai asesiadau Asset yn cael eu hadolygu ar ôl y trosglwyddo, ac (lle y'i cynhelid), yn y cyfarfod tair ffordd. Roedd hyn yn aml yn adlewyrchu naill ai benderfyniadau hwyr i drosglwyddo neu mewn achosion eraill roedd rheolwr achos y tîm YOT yn rhoi llai o flaenoriaeth i'r adolygiad Asset nag i waith arall gydag achosion oedd ar y gweill. Golygai hyn mewn rhai achosion ei bod yn hwyr ar y rheolwr troseddwyr prawf yn canfod os oedd datblygiadau arwyddocaol wedi digwydd yn y cyfnod ers hysbysiad cychwynnol y trosglwyddiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyhuddiadau troseddol newydd, newidiadau mewn cydymffurfio a'r gwaith a oedd wedi ei gwblhau gan ddarparwyr ymyriadau.

3.35 Mewn un achos, cafodd un person ifanc gydag euogfarnau blaenorol am drais ei gadw'n ôl gan y tîm YOT am gyfnod byr tan oedd wedi cwblhau rhaglen troseddau cyllyll. Mewn achos arall, roedd y rheolwr troseddwyr prawf wedi cael y wybodaeth Asset yn llawn ymlaen llaw ond roedd wedi rhoi blaenoriaeth i achosion cyfredol a heb ddim ond crafu wyneb yr asesiadau Asset. Er bod yr achos wedi ei drosglwyddo cyn pen ychydig, nid oedd wedi sylwi bod y person ifanc yn fregus ac y byddai angen cydgysylltu gyda'r gwasanaethau gadael gofal.

### *Hysbysu a chynnwys darparwyr ymyriadau a phartïon eraill â buddiant*

3.36 Cafodd Atal Troseddwyr Ifanc (DYO), MAPPA a chynlluniau gadael gofal eu hysbysu am drosglwyddiadau oedd ar ddod bron ym mhob achos. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn digwydd yn gyson gyda'r gwasanaethau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE), camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, ac o'r herwydd roedd eu rôl wrth gynllunio ar gyfer parhad yr ymyriadau wedi ei lleihau. Pan siaradwyd â darparwyr ymyriadau iechyd ac ETE yn y chwe ardal cawsom amrywiadau eang a oeddent yn cael eu hysbysu am fwriadau i drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf ai peidio, ac i ba raddau roeddent wrthi ynglŷn â hynny. Roedd hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r lefel cysylltu yn fwy cyffredinol rhwng yr asiantaethau partneriaid yn yr ardaloedd hynny. Dywedodd y gwasanaethau iechyd oedolion ac ETE mai anaml y byddent â rhan yn y prosesau trosglwyddo rhwng y timau YOT a phrofiannaeth.

3.37 Cawsom ychydig o enghreifftiau o staff ETE yn y tîm YOT yn cael cyswllt gyda'u gweithwyr cyfatebol yn y Gwasanaeth Prawf, neu wasanaethau ETE i oedolion yn fwy cyffredinol, i drafod achosion a oedd yn trosglwyddo o'r tîm YOT i'r gwasanaeth prawf. Teimlai'r ymarferwyr mai cyfrifoldeb rheolwyr achosion YOT a rheolwyr troseddwyr prawf oedd y trafodaethau trosglwyddo, ond yr oedd prinder peth o'r wybodaeth ETE ar y cofnodion a drosglwyddid yn golygu nad oedd staff ETE mewn ymddiriedolaethau prawf ddim yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn oedd wedi ei wneud yn y tîm YOT. Golygai hyn y gallai asesiadau ac ymyriadau gael eu dyblygu a bod gofynion ETE cyfredol heb gael eu cwrdd.

3.38 Yn y gwasanaethau iechyd, roedd a wnelo'r cydgysylltu rhwng gwasanaethau ieuenctid ac oedolion â phryd y dylai'r person ifanc drosglwyddo a pha drefniadau oedd angen iddynt fod yn eu lle. Roedd hyn yn angenrheidiol am fod yna'n aml drothwyon lleol ynghylch cymhwysedd.

3.39 Cawsom fod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc (boed hwy'n rhan o'r timau YOT neu beidio), yn fwy tebygol o barhau i weithio gyda phobl ifanc heibio 18 oed, gyda chyfnodau arwain hir at wasanaethau oedolion. Roedd y gwasanaethau iechyd meddwl ar y llaw arall yn fwy tebygol o fod â phwynt trosglwyddo sefydlog, er y gallai'r oedran amrywio hyd yn oed wedyn. Serch hynny, nodwyd nad oedd y trothwyon hyn yn aml yn hysbys i ymarferwyr iechyd pobl ifanc pan oeddent yn eu cyfeirio.

3.40 Amrywiai'r trefniadau cydgysylltu'n amlwg rhwng ardaloedd a'i gilydd, er ein bod wedi sylwi gyda chamddefnyddio sylweddau, fod deialog fuddiol yn fwy tebygol o ddigwydd. Mewn un ardal roedd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn gweithio gyda phobl ifanc hyd at 19 oed ond roedd ganddo gysylltiadau cryf hefyd gyda'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i oedolion oedd â chysylltiad â'r gwasanaeth prawf a hefyd gwasanaethau cymorth cymunedol ychwanegol. Roedd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i oedolion arall heb unrhyw hanes o gydgysylltu â gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn y tîm YOT a oedd wedi gweithio cyn hynny â'r person ifanc, gan leihau'r cyfle ar gyfer parhad neu gysondeb. Roedd y diffyg cydgysylltu hwn yn golygu y byddai'n rhaid ysgrifennu asesiadau o'r dechrau a theimlem fod hynny'n ailadroddus ac yn ddiangen.

3.41 Gwelsom rai enghreifftiau da o gynlluniau gadael cynhwysfawr yn y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc, er y gallai'r gwasanaeth prawf gael ei anghofio'n aml. Yn Swydd Gaerloyw, roedd y defnydd ar y system 'Nodiadau Gofal'

Iechyd yn croesi'r ffiniau plant/oedolion gan leihau'r dyblygu ar asesu a sicrhau gwybodaeth well am y person ifanc.

3.42 Yn gadarnhaol, mewn rhai o'r achosion lle oedd gwasanaethau iechyd oedolion naill ai heb fod ar gael neu'n anaddas, roedd gwasanaethau iechyd pobl ifanc yn gwneud ymdrech arbennig i ddal ati i weithio gyda phobl ifanc heibio 18 oed er mwyn cwblhau rhaglen driniaeth, i gwrdd â bregusterau a nodwyd neu i ddangos y ffordd i'r person ifanc at wasanaethau cefnogi yn y gymuned. Roedd yr ymagwedd hon yn adlewyrchu'n dda ar ymrwymiad y staff a'r hyblygrwydd a ganiateid gan y rheolwyr.

3.43 Wrth drefnu'r trosglwyddo, roedd rhai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i oedolion yn ymwybodol o fregusterau ychwanegol pobl ifanc mewn gwasanaeth i oedolion ac yn teilwra'u gwasanaeth yn unol â hynny. Roeddent yn ymwybodol o'r angen i rwystro cael cysylltiad â'r sawl a allai gyflenwi cyffuriau neu annog mwy o ddefnyddio cyffuriau gan ddweud efallai y byddent yn defnyddio mentora fwy ac osgoi gwneud gwaith grŵp gyda defnyddwyr gwasanaeth hŷn. Fodd bynnag, roedd hyn yn aml yn cael ei gynllunio'n annibynnol heb gyfeirio at ba strategaethau oedd wedi eu defnyddio gan y tîm YOT a/neu ddarparwr iechyd y person ifanc.

3.44 Ym mhob ardal y buom yn ymweld â hi, ystyriai'r asiantaethau fod gan ddigartrefedd neu lety anaddas effaith negyddol ar ansawdd y trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau am eu bod yn gwneud cydymffurfio ac ymgysylltu yn llai tebygol. Roedd ymarferwyr yn datgan bod problemau llety yn neilltuol o anodd pan gyrhaeddai pobl ifanc 18 oed am eu bod wedyn yn llai tebygol o gael eu gweld yn flaenoriaeth gan yr awdurdod lleol, er bod mantais yn gymaint ag y gallent wedyn gael tenantiaeth yn gyfreithlon. Yn Swydd Gaerloyw, roedd protocol yn y gwasanaeth tai wedi ei anelu at rwystro troi tenantiaid allan a hyrwyddo parhad mewn trosglwyddo. Dywedodd un rheolwr tîm YOT yn rhywle arall wrthym: *"Rwyf wedi cael staff wrthi'n wyllt yn ceisio cael pobl ifanc i lety gyda chymorth cyn eu bod yn 18 oed….hyd yn oed y diwrnod cyn eu pen-blwydd".*

### *Paratoi'r person ifanc ar gyfer y trosglwyddo*

3.45 Yn hanner yr achosion, roedd rheolwr achos y tîm YOT yn trafod y cynnydd a wnaed gyda'r person ifanc ac unrhyw bryderon oedd gan y person ifanc ynghylch trosglwyddo ac mewn ychydig dan yr hanner wedi gwneud hynny hefyd gyda rhieni/gofalwyr.

**Enghreifftiau ymarfer:**

**Roedd Ash, a oedd bron yn 18, yn ei niweidio'i hun. Roedd yr asesiad CAMHS cychwynnol wedi rhoi diagnosis o iselder clinigol a chafodd ei gyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Cynigiwyd apwyntiad yn syth ac aeth yr ymarferwr YOS CAMHS gydag Ash i'r tri apwyntiad cyntaf. Teimlai iddo gael gwybodaeth a thawelwch meddwl a oedd yn help i gryfhau ei ymgysylltu a chyfrannodd at y gwelliant a gafwyd wedyn yn ei iechyd meddwl.**

**Aseswyd bod Denys yn addas ar gyfer ei drosglwyddo gan reolwr achos y tîm YOT. Fodd bynnag, roedd yn un byr iawn ac yn un ysgafn o gorffolaeth ac wedi cael ei fwlio yn y gorffennol. Roedd rheolwr achos y tîm YOT yn credu hefyd ei fod yn un hawdd dwyn perswâd arno. Gwyddai rheolwr achos y tîm YOT fod**

**gwaith grŵp yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn yr Ymddiriedolaeth Prawf a siaradodd â'r rheolwr troseddwyr prawf i geisio sicrhau y câi gwaith ei wneud ar sail un wrth un er mwyn osgoi troseddwyr hŷn. Trafododd hefyd ei bryderon fod rhieni Denys yn cael ei ymddygiad yn anodd ei drin a chytunwyd i'w cyfeirio at raglen rianta gan y tîm YOT.**

3.46 Dywedodd rhai rheolwyr achosion timau YOT eu bod yn paratoi pobl ifanc ar gyfer trosglwyddo drwy gynnwys symud at fwy o ymweliadau swyddfa, amserau gosod a thrafod beth oedd 'mwy o hunanddibyniaeth' yn ei olygu i'r person ifanc. Dywedodd un ohonynt: *"Allwn ni ddim mynd yn syth o'u trin fel plentyn at ddweud bod rhaid iddyn nhw wneud y cyfan eu hunain. Mae angen aeddfedrwydd*". Fodd bynnag, anaml yr oedd rheolwyr troseddwyr prawf yn ymwybodol o hyn a theimlai lleiafrif arwyddocaol nad oedd arfer y timau YOT o gymorth gyda throsglwyddo. Dyma sylw nodweddiadol gan un rheolwr troseddwyr prawf: "*Mae pobl ifanc o'r YOT yn anaeddfed a heb unrhyw ddirnadaeth. Allan nhw ddim deall canlyniadau eu gweithredoedd. Rwy'n cymryd bod gweithwyr YOS yn gweithio ar y materion hyn* [ond] *dyw pobl ifanc o'r YOT ddim yn cymryd gymaint o gyfrifoldeb drostyn nhw'u hunain…mae'r YOS yn mynd â nhw i leoedd ac rydym ni angen eu diddyfnu. Maen nhw'n aml yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau yn hwyr, weithiau ddwy awr yn hwyr*".

3.47 Crybwyllodd nifer o Reolwyr YOT eu bod yn ddiweddar wedi adolygu rôl y swyddog prawf ar secondiad i'w 'ailffocysu' ar weithio gyda'r grŵp oedran hŷn, gan gynnwys eu paratoi ar gyfer trosglwyddo.

3.48 Roedd cyfarfod trosglwyddo achos yn cynnwys y person ifanc, rheolwr achos y tîm YOT a'r rheolwr troseddwyr prawf wedi ei gynnal yn hanner yr achosion a oedd yn cael eu trosglwyddo. O blith y rhain, roedd y rhan fwyaf yn amserol ac roedd gwybodaeth ddigonol wedi ei hanfon ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Roedd y rhesymau dros ddiffyg cyfarfodydd trosglwyddo achosion yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth y dylid cynnal cyfarfodydd o'r fath (er bod ymarferwyr yn dweud eu bod yn ymwybodol o hyn bellach), amryfusedd neu ddryswch, rheolwyr achosion YOT a rheolwyr troseddwyr prawf yn methu â bod ar gael neu gred na fyddai dim diben i gael cyfarfod trosglwyddo achos yn yr achos arbennig dan sylw. Pan nad oedd cyfarfod trosglwyddo achos wedi ei gynnal cyn y trosglwyddo peth prin oedd canfod iddo gael ei ail amserlennu'n ddiweddarach.

3.49 Er bod cofnodion cyfarfodydd yn tueddu i fod yn brin, roeddem yn cael darlun o'r hyn oedd wedi ei drafod gan y sawl a gymerai ran. Yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd roedd y rheolwr troseddwyr prawf yn cael gwybod am y person ifanc a'u hanes o droseddu, ac yn egluro cydymffurfio a gorfodaeth, gan gynnwys sut mae'r gwasanaeth prawf yn wahanol i'r timau YOT. Tueddai'r cyfarfodydd i ganolbwyntio ar gydymffurfio a disgwyliadau ymddygiad yn fwy na chadarnhau a gosod nodau penodol. Hefyd dan drafodaeth, ond heb fod fel mater o drefn ym mhob achos yr edrychwyd arno, oedd y rhesymau dros drosglwyddo a pha asiantaethau eraill yr oedd y person ifanc mewn cysylltiad â hwy, neu roedd angen iddo fod mewn cysylltiad â hwy.

3.50 Pan siaradwyd ag oedolion ifanc, roedd y rhai oedd wedi mynychu cyfarfod tair ffordd cyn trosglwyddo wedi ei gael yn gadarnhaol. Dim ond un oedd wedi ei gael yn broblem gan y teimlai fod y rhybuddion ynghylch peidio â chydymffurfio *"dros*

*ben llestri"*. Roedd rhai rheolwyr achosion yn y timau YOT wedi gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod y person ifanc yn ymbresenoli. Roedd llawer yn cael adeiladau'r gwasanaeth prawf yn fwy ac yn llai croesawgar nag adeiladau'r timau YOT ac wedi cwrdd â'r person ifanc cyn y cyfarfod trosglwyddo achos er mwyn mynd gyda hwy.

3.51 Ni chawsom ond un enghraifft lle oedd rhiant neu ofalwr wedi ei wahodd. Y peth mwyaf cyffredin oedd bod gwahoddiad wedi ei anghofio neu bod yr ymarferwyr yn teimlo'n amheus o'u gwahodd. Dywedodd llawer o reolwyr troseddwyr prawf wrthym eu bod yn cael ymwneud â rhieni/gofalwyr yn anodd. Byddent weithiau yn cael galwadau ffôn gan riant/gofalwr ynglŷn â'r person ifanc yn methu ag ymbresenoli neu ynghylch eu lles a heb fod yn sicr sut oedd ymateb. Yn gadarnhaol, roedd rhai rheolwyr troseddwyr prawf yn sylweddoli, pe baent wedi ymgysylltu â'r rhiant/gofalwr yn gynharach, y gallent fod wedi gallu eu cynnwys yn y goruchwylio ar y person ifanc mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a byddent yn ystyried eu cynnwys yn y dyfodol.

3.52 Nid oedd darparwyr ymyriadau wedi'u gwahodd mewn tua hanner yr achosion lle roeddem yn teimlo bod angen iddynt fod yno i sicrhau parhad. Dywedodd gweithwyr iechyd ac Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth wrthym mai anaml y'u gwahoddid hwy i gyfarfodydd trosglwyddo achos er gwaethaf fod ganddynt o bosibl rannau allweddol i'w chwarae mewn perthynas ag achosion. Yr oedd eithriadau. Yng Nghaerlŷr, roedd gan staff iechyd brofiad o gyfarfod â'r rheolwr achosion YOT a'r rheolwr troseddwyr prawf mewn cyfarfod ar wahân. Roedd Gwasanaeth Glasoed Fforensig YOS a Turning Point yn Swydd Hertford yn cymryd rhan lawnach mewn cyfarfodydd trosglwyddo achos, ac yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch breguster a Diogelu. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i oedolion mewn ardal arall ddim ond yn ymwybodol o drosglwyddo ymhell ar ôl y digwyddiad, pan oedd y gwasanaeth prawf yn cyfeirio rhywun atynt, ac roedd hyn yn arwain at fylchau yn ymwneud yr oedolion ifanc â'r gwasanaethau.

3.53 Ar ôl y cyfarfod, roedd pob parti perthnasol (ee asiantaethau partneriaid eraill oedd ynglŷn â'r achos) wedi cael gwybod am enw a manylion cysylltu'r rheolwr troseddwyr prawf newydd a dyddiad ffurfiol y trosglwyddo mewn tri chwarter o'r achosion.

**Cael y cyfan at ei gilydd**

**Yn Swydd Gaerloyw cawsom fod llawer o agweddau ar arfer da mewn gwaith cyn trosglwyddo wedi eu gwaelodi'n dda mewn ymarfer. Roedd bron pob achos cymwys wedi ei adnabod; roedd pobl ifanc yn cael eu hysbysu ar y cyfle cynharaf, roedd y rheolwr achos YOT yn trafod cynnydd y person ifanc gyda hwy cyn trosglwyddo, anfonwyd gwybodaeth at y gwasanaeth prawf a chynhaliwyd cyfarfodydd trosglwyddo achosion. Cawsom fod yr asesiadau profiannaeth yn Swydd Gaerloyw yn fwy tebygol na'r rhai mewn ardaloedd eraill a arolygwyd i dynnu ar wybodaeth gan y tîm YOT. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd bod y wybodaeth a anfonid yn cynnwys digon o fanylion o'r gwaith gwirioneddol oedd wedi ei wneud gyda'r person ifanc.**

### *Amrywiaeth*

3.54 Roedd y niferoedd o enethod a merched ifanc, a phobl ifanc dduon ac o leiafrifoedd ethnig yn ein sampl yn gymharol fach. Er nad oedd yn ystadegol arwyddocaol, cawsom fod y gwaith gyda merched ifanc i hyrwyddo trosglwyddo effeithiol yn gyffredinol o safon ychydig yn uwch nag ar gyfer sampl yr achosion, ac eithrio ein bod wedi canfod llai o enghreifftiau o gyfarfodydd trosglwyddo achosion yn cael eu cynnal.

### *Casgliad*

3.55 Er ein bod wedi canfod rhai prosesau buddiol wedi'u hanelu at sicrhau adnabod a gwneud penderfyniadau yn gynnar, a rhai enghreifftiau o sylw da i anghenion ac amgylchiadau pobl ifanc, nid dyna oedd y norm. Roedd rheolwyr achosion YOT a rheolwyr troseddwyr prawf angen ymwybyddiaeth uwch o'r gweithgareddau hanfodol oedd angen eu cyflawni ym mhob achos, a phryd; ac roedd angen i reolwyr sicrhau bod trosglwyddiadau yn digwydd yn y ffordd briodol. Roedd swyddogion prawf ar secondiad mewn timau YOT yn adnodd delfrydol ar gyfer gwaith trosglwyddo, cyn belled â'u bod yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch darpariaeth yr Ymddiriedolaeth Prawf a'r protocol trosglwyddiadau lleol.

3.56 Yn ein barn ni, roedd angen gwneud mwy gan reolwyr achosion YOT a rheolwyr troseddwyr prawf i baratoi pobl ifanc yn iawn ar gyfer y trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Cawsom fod rhai ymarferwyr yn gweithio gyda rhai o dan 18 oed yn meddwl am eu cynllun gwaith yn ei gyfanrwydd, ond i eraill y 'bwriad dan sylw' oedd trosglwyddo'r achos. Yn rhannol, gall y diffyg meddwl tymor hir hwn fod oherwydd mewn llawer o achosion gwelid y trosglwyddo i wasanaethau oedolion fel gofyniad roedd angen gweithredu arno, yn hytrach na dewis oedd angen asesiad o'r hyn fyddai orau i'r person ifanc unigol. O'r herwydd, roedd llawer o'r bobl ifanc yn trosglwyddo o YOT i'r gwasanaeth prawf am eu bod yn cyrraedd 18, yn hytrach nag am fod rheolwr achos yr YOT yn meddwl fod angen gwneud gwaith wedi'i gynllunio ac mai'r gwasanaeth prawf oedd yr asiantaeth iawn i'w wneud. Teimlem y gallai fod gwersi i'w dysgu o'r broses roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr oedd ag achosion wedi'u cadw'n ôl wedi ei defnyddio, sef, holi 'pa waith ddylai gael ei wneud ar ôl i'r person ifanc gyrraedd 18?' ac 'ai nyni neu'r gwasanaeth prawf sydd yn y lle gorau i gyflawni'r gwaith hwnnw?'

## 4. PONTIO YN Y GYMUNED: AR ÔL TROSGLWYDDO


**Crynodeb:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu beth sy'n digwydd i bobl ifanc unwaith y byddant wedi trosglwyddo i oruchwyliaeth yr Ymddiriedolaeth Prawf a gwasanaethau oedolion eraill.

***Beth roeddem yn disgwyl ei weld:***

- Ar ôl trosglwyddo, mae'r rheolwr troseddwyr prawf yn diweddaru'r asesiadau a'r cynlluniau, gan sicrhau bod dysgu blaenorol yn cael ei atgyfnerthu a bod yr ymyriadau presennol yn cael eu cynnal ac unrhyw ymyriadau newydd angenrheidiol yn cael eu dechrau.

***Canfyddiadau allweddol:***

- Roedd angen i'r Systemau Asesu Troseddwyr ar ôl trosglwyddo wneud defnydd gwell ar y wybodaeth oedd ar gael yn yr Asset a baratowyd gan y tîm YOT. Canfuwyd gwahaniaethau sylweddol yn sut oedd timau YOT ac Ymddiriedolaethau Prawf wedi asesu *Perygl o Niwed*.

- Roedd llai na hanner y cynlluniau a baratowyd ar ôl trosglwyddo yn mynd i'r afael â meysydd gwaith oedd yn dal heb eu gwneud yn dilyn y cyfnod o oruchwyliaeth YOT.

- Roedd rhai oedolion ifanc a gyfwelwyd gennym yn croesawu'r newid i oruchwyliaeth prawf, ac eraill yn colli'r gefnogaeth a gaent gan y timau YOT.

- Nid oedd rheolwyr achosion y timau YOT na'r rheolwyr troseddwyr prawf yn gyfarwydd ag ymyriadau na threfniadau gweithio y naill a'r llall.

- Nid oedd gan reolwyr troseddwyr prawf ddigon o wybodaeth i gydgysylltu'n effeithiol gyda gwasanaethau gadael gofal.


### *Asesu a chynllunio ar ôl trosglwyddo*

4.1 Yn dilyn trosglwyddo'r achos, cyflawnodd y rheolwr troseddwyr prawf asesiad a chynllun Systemau Asesu Troseddol yn y rhan fwyaf o achosion, er nad oedd un o bob tri asesiad yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth Asset oedd ar gael. Nid oedd llawer o'r asesiadau yn cynnig sylwadau ar aeddfedrwydd cyffredinol y person ifanc nac yn sôn beth oedd barn y person ifanc am eu datblygiad hyd yma a'u trosglwyddiad. Er enghraifft, mewn un achos cafodd un person ifanc a oedd yn ymddangos i'r rheolwr troseddwyr prawf fel person hyderus a hunanfeddiannol o'r tu allan ei asesu heb roi'r sylw priodol i'r hanes o hunan niweidio oedd wedi ei amlinellu yn drwyadl yn yr asesiad Asset.

4.2 Roedd y rhan fwyaf o reolwyr troseddwyr prawf yn dweud bod asesiadau Asset, yn eu profiad hwy, yn ddefnyddiol ond yn amrywio, o "*tenau*" ar un eithaf at "*gyfoeth o wybodaeth am y person ifanc a'u teulu y byddwn wedi gorfod ymdrechu i geisio ei gael fy hun*" ar y llall. Roedd yn rhan fwyaf yn dweud nad oedd deall y fformat gwahanol a ddefnyddir yn Asset yn peri anhawster iddynt. Ychydig o gymhwyso

gan staff prawf ar ganllaw ysgrifenedig y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar drosi gwybodaeth Asset yn Systemau Asesu Troseddwyr a welwyd gennym. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth ar iechyd corfforol a chynnwys ymyriadau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth bob amser wedi'u cofnodi yn foddhaol ar asesiad Asset oedd yn golygu nad oedd y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i reolwyr troseddwyr prawf.

4.3 Roedd rhai rheolwyr troseddwyr prawf yn rhoi llai o sylw i gynllun ymyriad YOT. Dywedodd un:

"*os byddai'i yn cael achos sydd wedi ei drosglwyddo rwy'n gwneud fy nghyfweliad Systemau Asesu Troseddwyr fy hun ac yna yn dyfeisio fy nghynllun ymyriad fy hun. Os yw'r Asset yn dod a'i fod yn gwbl wahanol i fy nghynllun dedfryd i yna rwy fwy na thebyg yn cadw at fy un i. Os byddai'r tri ohonom yn cwrdd a bod rheswm am ymyriad arbennig wedyn byddwn yn fwy tueddol o'i gynnwys*".

### *Asesu Perygl o Niwed*

4.4 Mewn rhai o'r achosion a archwiliwyd gennym, roedd gwahaniaethau yn y modd yr oedd y rheolwr achos YOT a'r rheolwr troseddwyr prawf wedi asesu'r Perygl o Niwed. Mewn rhai achosion roedd y rheolwr troseddwyr prawf wedi adolygu'r Perygl o Niwed Difrifol a'i osod yn uwch wedi'r trosglwyddo. Ar y cyfan roeddem yn barnu bod yr ailasesiadau hyn yn rhai cywir am eu bod yn rhoi mwy o bwysau ar droseddu'r person ifanc yn flaenorol, er bod rheolwyr troseddwyr prawf yn dweud byddai'r oedolion ifanc dan sylw wedyn yn ddig ynglŷn â'r newid o orfod ymbresenoli yn amlach a'r arolygu mwy ymwthiol yr oedd hyn weithiau yn ei olygu.

4.5 Mewn achosion eraill, roedd y tîm YOT wedi nodi pryderon ynghylch *Perygl o Niwed Difrifol i eraill* y person ifanc, ond bod naill ai uwch swyddog prawf neu reolwr troseddwyr y gwasanaeth prawf wedi ei ail gategoreiddio fel un isel. Mewn rhai achosion, roeddem yn poeni bod yr ail gategoreiddio hyn (weithiau wrth ddyrannu) yn gynamserol ac mewn eraill, rhoddwyd llai o bwysau i ffactorau fel trais o fewn y teulu a bod â chyllyll yn eu meddiant nag yn yr asesiad YOT. Gellir crynhoi'r diffyg dealltwriaeth hwn yn y sylw canlynol gan reolwr: "*mae YOT fel pe baent yn asesu risg yn uwch na ninnau felly mae'n bosib ein bod yn lleihau'r risg mewn rhai achosion … efallai y bydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted â'n bod* yn *darllen y dogfennau cychwynnol*". Roedd rheolwr prawf arall, yn yr un modd, yn teimlo: "*Ydy, mae'n digwydd yn aml … mae'r [risg] ar y cyfan yn mynd lawr*. *Mae ganddyn nhw banel risg, mae gennym ni MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) – dydyn ni'n gwybod dim am baneli risg y timau YOT."* Dywedodd un ymarferwr: "*mae YOT wrth gwrs yn defnyddio trothwyon gwahanol ar gyfer niwed difrifol i'n rhai ni … mae'n asesiad risg gwahanol*".

4.6 Roedd hyn yn ein gadael yn bryderus nad yw ymarferwyr mewn timau YOT ac yn y gwasanaeth prawf mor hyderus na mor fedrus wrth asesu'r Perygl o Niwed mewn pobl ifanc oedd ar fin mynd yn oedolion ag y dylent fod. Roeddem hefyd yn teimlo nad oedd hi'n sefyllfa iach nad oedd y tîm YOT yn gwybod bod achosion yr oeddynt hwy wedi eu hasesu a'u harolygu mewn un ffordd yn awr yn cael eu hasesu a'u harolygu mewn ffordd wahanol iawn gan y gwasanaeth prawf. Roedd angen i reolwyr y timau YOT a'r gwasanaeth prawf drafod newidiadau tebygol yn y lefelau o Berygl o Niwed Difrifol mewn achosion unigol, ac roedd angen i staff

timau YOT a'r gwasanaeth prawf ddysgu gan ei gilydd ynghylch gwella asesiadau *Perygl o Niwed* pobl ifanc oedd yn cael eu trosglwyddo rhwng dau wasanaeth.

### *Y parhad ar gyflawni'r gwasanaeth*

4.7 Roeddem yn siomedig o weld rhy ychydig o enghreifftiau o barhad wrth gynllunio. Dim ond 40% o gynlluniau dedfryd y gwasanaeth prawf oedd yn rhoi sylw i bob agwedd o'r gwaith yr oedd angen ei wneud o hyd yn dilyn y cyfnod o oruchwyliaeth gan YOT ac roedd llai yn cynnwys gweithgareddau i fanteisio ar y cynnydd a wnaed gan y person ifanc yn ystod cyfnod yr oruchwyliaeth YOT. Weithiau roedd hyn am nad oedd y rheolwr troseddwyr prawf yn gwybod digon am gynnwys goruchwyliaeth YOT a dro arall nid oeddynt wedi anelu at nod pan ymddangosai bod y person ifanc yn brin o gymhelliad. Sut bynnag, y canlyniad oedd nad oedd y gwaith o ailgysylltu'r person ifanc â'r dasg o fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau a'u hanghenion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth wedi digwydd, neu wedi digwydd ddim ond ar ôl cyfnod o oedi.

4.8 Nid oedd darparwyr ymyriadau newydd bob amser wedi ceisio cael gwybod a oedd yna ddarparwr blaenorol, a mynnu gwybodaeth ganddynt a'i defnyddio, er bod darparwyr iechyd meddwl yn fwy tueddol o wneud hynny, gan arwain at ddyblygu asesiadau a bylchau mewn gwybodaeth. Archwiliwyd un achos lle nad oedd y rheolwr troseddwyr prawf a'r gweithiwr CAMHS fyth yn siarad â'i gilydd, er fod yr olaf wedi parhau i weld y person ifanc am sawl mis ar ôl i'r achos gael ei drosglwyddo. Enghraifft fwy cadarnhaol oedd pan, ar ôl trosglwyddo, y darparodd y tîm YOT raglen rianta ar gyfer rhieni/gofalwyr y person ifanc a chysylltu'n rheolaidd gyda'r rheolwr troseddwyr prawf.

4.9 Ychydig iawn o enghreifftiau a welsom o barhad gyda chymorth iechyd corfforol rhwng gwasanaethau plant ac oedolion neu gyda'r YOT a'r Ymddiriedolaeth Prawf. Gwahaniaeth sylweddol rhwng y timau YOT a'r gwasanaeth prawf oedd bod nyrs y tîm YOT mewn sefyllfa i annog pobl ifanc i gofrestru gyda meddyg teulu, ac nid oedd dim adnodd cyfatebol yn yr Ymddiriedolaethau Prawf.

4.10 Yn Salford, roedd gwasanaethau iechyd ieuenctid yn ymwybodol o anawsterau gyda phontio, ac yn cadw'r achos yn agored tan y byddai'r person ifanc wedi ymgysylltu'n llwyddiannus gyda'r gwasanaeth oedolion. Roedd tystiolaeth hefyd o gysylltiadau da rhwng gweithiwr iechyd meddwl y tîm YOT a'r gweithiwr ymyriad cynnar yn y tîm seicosis. Yn Wakefield, os na allai'r person ifanc ymgysylltu neu os nad oedd yn cwrdd â'r trothwyon, câi gwaith pellach ei wneud. Yng Ngogledd Cymru roedd y gwasanaeth cyffuriau oedolion wedi adolygu eu gweithdrefnau i wella'r pontio i bobl ifanc i'w gwasanaeth ar ôl cyrraedd 18 oed. Roedd cyflwyno hyfforddwyr iechyd (cyn ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u comisiynu a'u hyfforddi gan y GIG a'r gwasanaeth prawf) yn Swydd Gaerlŷr yn cefnogi pobl ifanc fregus a oedd, er enghraifft, â phroblemau alcohol neu ysmygu yn ogystal â phroblemau bwyta'n iach a gweithgareddau. Roedd gan ddarparu gwasanaeth o'r fath oedd heb fod yn annhebyg ei ddull i beth o'r gwaith yn y timau YOT (fe deimlem), y potensial i 'bontio' goruchwyliaeth YOT a'r gwasanaeth prawf i rai pobl ifanc

4.11 Sylwodd rhai darparwyr ar newidiadau nad oedd eglurhad arnynt pan drosglwyddai pobl ifanc i'r gwasanaeth prawf. Roedd gwrthgyferbyniad gydag asiantaethau tai oedd â lefelau uchel o gyswllt a chefnogaeth â'r YOT ond oedd â chyswllt ysbeidiol â'r gwasanaeth prawf. Lle oedd presenoldeb mewn coleg yn aml

yn rhan o'r cynllun ymyriad gyda'r YOT, ynghyd â chyswllt â'r coleg, roedd hyn yn peidio neu'n lleihau pan drosglwyddai'r person ifanc i'r gwasanaeth prawf. Roedd gwrthgyferbyniad hefyd gyda staff y gwasanaeth Connexions yn arddangos lefel uchel o gyswllt â staff y timau YOT a chyswllt llai a mwy amrywiol gyda staff y gwasanaeth prawf pan oedd pobl ifanc yn trosglwyddo. Er y disgwylid peth newid yn y dull gweithio wrth i bobl ifanc fynd yn hŷn, byddai peth trafodaeth gyda phartneriaid lleol ynghylch hyn wedi bod o gymorth fel y gallent wybod lle roeddent yn sefyll.

4.12 Fodd bynnag, roedd rhai achosion a oedd yn dangos bod rhannu da ar wybodaeth yn gwneud lefel uchel o barhad yn bosibl.

**Enghraifft ymarfer**

**Rhoddwyd dedfryd i Richard o Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid (YRO), dan oruchwyliaeth a Gofyniad Gweithgaredd (rhaglen troseddau cyllyll) chwe diwrnod. Ar ôl yr hysbysiad trosglwyddo cychwynnol roedd rheolwr troseddwyr prawf yn cael ei enwi'n gyflym i gymryd yr achos ac roedd galwad ffôn i gydgysylltu rhwng y ddau ymarferydd cyn y trosglwyddo lle eglurodd rheolwr achos y tîm YOT gynnwys ac ymagwedd y rhaglen troseddau cyllyll. Trefnwyd cyfarfod trosglwyddo achos ac roedd yn canolbwyntio ar beth roedd Richard wedi ei ddysgu gyda'r YOT a'r meysydd gwaith roedd angen iddynt barhau. Cynlluniwyd sesiynau gan y rheolwr troseddwyr prawf i atgyfnerthu'r dysgu ar y rhaglen troseddau cyllyll gydag ymagwedd rhwystro llithro'n ôl.**

***Ymdrin ag anawsterau wrth bontio***

4.13 Yn y rhan fwyaf o achosion roedd pryderon ynghylch ymddygiad neu freguster y person ifanc yn cael eu hadnabod a chael gweithredu arnynt yn briodol gan y rheolwr troseddwyr prawf, gan dynnu ar wybodaeth gan y tîm YOT mewn hanner ohonynt. Lle oedd staff y gwasanaeth prawf wedi cysylltu â staff y tîm YOT am gyngor, roeddent yn cael hynny o gymorth. Fodd bynnag, mewn achosion eraill dywedodd y rheolwr troseddwyr prawf nad oeddent mewn gwirionedd wedi meddwl hyd yn oed am gysylltu â chyn reolwr achos y tîm YOT, neu wedi bod yn rhy brysur i wneud hynny, neu wedi cysylltu â'r tîm YOT ond heb gael ymateb.

4.14 Roedd rhai o'r bobl ifanc y bu inni siarad â hwy yn nodi eu bod wedi cael problemau gyda dod i arfer â goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Lle oedd llawer o'r gwasanaethau roeddent eu hangen pan oeddent gyda'r tîm YOT yn cael eu darparu oddi mewn i'r YOT, roeddent yn gorfod teithio'n amlach at wasanaethau partneriaeth eraill pan oeddent gyda'r gwasanaeth prawf, ac roedd gwaith arfer gyda hynny. Poenai rhai am gymysgu gyda phobl hŷn. Yn Swydd Gaerlŷr, dywedodd rheolwyr troseddwyr prawf eu bod er mwyn ceisio achub y blaen ar broblemau gyda chamddefnyddwyr sylweddau ifanc yn tueddu i '*weithio un wrth un yn hytrach na'u cael yn cymysgu gyda chamddefnyddwyr hŷn oedd mewn mwy o rigol*'.

4.15 Siaradwyd â nifer o staff YOT a oedd yn pryderu pan fyddai pobl ifanc yn trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf y byddai llai o ddiddordeb yn eu hanghenion unigol. Ond cawsom fod llawer o reolwyr troseddwyr prawf yn ceisio'n galed i ddod i adnabod y person ifanc ac ymgysylltu â hwy, yn fwyaf amlwg mewn rhai

achosion pan nad oedd camau cychwynnol y trosglwyddo wedi eu gwneud yn rhy dda a bod angen camau adferol o'r herwydd. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys apwyntiadau cychwynnol hirach, tecstio i atgoffa, a pheth defnydd ar ymweliadau cartref.

4.16 Teimlai rheolwyr troseddwyr yn y gwasanaeth prawf y byddai safonau cenedlaethol adolygedig 2011 yn cynnig mwy o gyfle iddynt fod yn hyblyg wrth ymdrin ag oedolion ifanc oedd wedi trosglwyddo ac wedi cael trafferth i addasu.

4.17 Roedd diffyg llety yn cael ei weld gan ymarferwyr fel un o'r prif rwystrau i bobl ifanc allu gwneud cynnydd. Lle roedd gan y timau YOT ddewis o opsiynau wrth weithio gyda'r rhai o dan 18 oed, dywedai'r rheolwyr troseddwyr ifanc mai gwely a brecwast yn aml oedd yr unig opsiwn realistig. Yn Wakefield, roedd y gwasanaethau tai yn cynnig cymorth ar draws ystod oedran a oedd yn pontio 18 oed, yn canolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi sgiliau byw'n annibynnol yn ogystal â threfniadau tenantiaeth. Roedd cynlluniau cymorth ar y cyd yn cael eu datblygu'n aml gyda'r tîm YOT a'r Ymddiriedolaeth Prawf i sicrhau a chadw tenantiaethau.

***Gadael Gofal***

4.18 Roedd y rheolwyr prawf troseddwyr wedi sefydlu lefel addas o gyswllt â gweithwyr gadael gofal mewn ychydig dan hanner yr achosion ble roedd y bobl ifanc yn gymwys i dderbyn gwasanaethau ar ôl gadael gofal. Fodd bynnag pan wnaethom siarad â rheolwyr prawf troseddwyr roeddent weithiau'n ansicr am feini prawf cymhwyster ac yn union pa wasanaethau ddylai fod ar gael, ac roeddynt yn teimlo y byddai mwy o wybodaeth neu hyfforddiant yn y maes hwn o gymorth iddynt.

**Roedd gan yr oedolion ifanc y gwnaethom eu cyfweld amrywiaeth o safbwyntiau ar eu profiad gyda'r YOT a'r Gwasanaeth Prawf:**

***"Mae YOT yn gwneud popeth drosoch chi. Yn y Gwasanaeth Prawf mae'n rhaid i chi wneud popeth drosoch eich hun, a sefyll ar eich dwy droed."***

***"Cwrddais â YOT...a thrafod bywyd a throseddu ac rydw i mewn gwirionedd yn gwneud yr un peth gyda'r gwasanaeth prawf. Roeddwn i'n gweld CAHMS ond rhois y gorau i'w gweld nhw pan gefais fy nhrosglwyddo i'r gwasanaeth prawf. Doedd dim ots pan ddaeth hynny i ben."***

***"Ddeudon nhw wrtha'i pe bawn i'n mynd i fwy o helynt y byddwn yn cael fy anfon i'r Gwasanaeth Prawf. Ddwedon nhw mai dim ond un cyfle oeddech chi'n ei gael gan y Gwasanaeth Prawf cyn eich gyrru'n ôl i'r llys. Ddwedon nhw hefyd nad oedden nhw'n dod i'ch gweld chi adref, os ydych chi'n...hwyr wnawn nhw mo'ch gweld chi. Wnaeth neb ofyn i mi be fyddai orau gen i."***

***"Mae bod gyda'r gwasanaeth prawf yn well nag roeddwn i'n ddisgwyl. Rydw i'n dod ymlaen yn dda gyda'm Swyddog Prawf newydd ac yn ei gweld bob wythnos. Cefais fwy o gefnogaeth gan y Gwasanaeth Prawf na'r YOT. Gwnes fy ETE ac rydw i'n edrych ymlaen at gael fy ngherdyn CSCS. Ac mae wedi fy helpu i gael trefn ar fy hawliau. [Mae'n] bendant yn well cael eich arolygu gan y gwasanaeth prawf. Maen nhw'n gwneud mwy o bethau."***

***"Roedd yn well nag oeddwn i'n ddisgwyl i ddechrau. Dydyn nhw ddim yn eich trin fel plentyn. Mae'n llawer gwell gan fy mod mewn cyswllt bob dydd â'r***

***YOT. Pan oeddwn gyda YOT ro'n i'n gweld gweithiwr camddefnyddio sylweddau ond roedd yn sesiwn byr iawn a ddim help. Ond gyda'r Gwasanaeth Prawf gwelais seicolegydd oedd wir yn deall ac oedd yn lot o help. Y peth gorau yw cael fy nhrin fel oedolyn – ond dydi'r gwasanaeth prawf ddim wedi helpu gyda ETE."***

***"Es i'n syth at y gwasanaeth prawf o'r llys – dim cyfarfod trosglwyddo chwaith. Dim trafod. Dim ond dweud wrtha i y baswn i'n mynd at y Gwasanaeth Prawf pe bawn yn aildroseddu. Roedd y Gwasanaeth Prawf fel ro'n i'n disgwyl – ddim yn dda. Does gen i ddim byd cadarnhaol i ddweud amdano. Ges i weithiwr camddefnyddio sylweddau a Seicolegydd CAMHS pan oeddwn i hefo'r YOT ond daeth hynny i ben pan es i at y Gwasanaeth Prawf. Mae gen i weithiwr cyffuriau newydd....dydw i ddim yn credu eu bod wedi siarad â YOT. Dim Seicolegydd i gymryd lle'r llall. Dim byd positif i'w ddeud. Rydw i wedi torri'r amodau ddwywaith ac yn eu torri nhw eto."***

***"Mae'r Gwasanaeth Prawf yn fy helpu i gael gwaith – Cefais fy rhoi mewn cyswllt â Camau Nesaf (Next Steps) - yn aros am gyfweliad am gwrs mecaneg. Mae popeth fel pe bai o wedi ei drosglwyddo. Maen nhw'n fy helpu fwy gyda phrentisiaeth, maen nhw wedi fy helpu i gael trefn ar fy arian [hawlio budd-daliadau] a'm helpu i gyda gwasanaethau tai i geisio cael fy lle fy hunan"***

***Casgliad***

4.19 Bu'r gwaith y gwnaethom ei arolygu a wnaethpwyd ar ôl y trosglwyddo yn dangos y gall gwaith effeithiol iawn gael ei gyflawni gyda grŵp o bobl ifanc, ond yr oedd diffygion. Yn rhannol, cododd y rhain o ddiffyg gweithio ar y cyd yn effeithiol wrth agosáu at y trosglwyddo ac mewn achosion eraill am nad oedd y rheolwr prawf troseddwr wedi canfod digon am beth oedd y bobl ifanc wedi bod yn ei wneud yn flaenorol er mwyn eu cynorthwyo i gynllunio ymyriadau ar ôl y trosglwyddiad. Roedd angen i reolwyr troseddwyr wybod mwy am ymyriadau YOT a gadael gwasanaethau gofal i'w helpu i sicrhau parhad y dull o weithredu.

## 5. PONTIO YN Y DDALFA


**Crynodeb:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu ein casgliadau ynglŷn ag a oedd yr oedolion ifanc yn teimlo eu bod wedi eu paratoi ar gyfer eu trosglwyddo o ystâd ddiogel pobl ifanc i garchar i rai dros ddeunaw oed/YOI, maint yr wybodaeth a rannwyd rhwng sefydliadau ac a oedd parhad cynllunio dedfryd ar ôl y trosglwyddo.

***Beth roeddem yn disgwyl ei weld:***

- Y sefydliadau yn ystadau plant a phobl ifanc yn canfod achosion oedd yn gymwys ar gyfer eu trosglwyddo pan oeddent yn 18 oed ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r sefydliad oedd yn eu derbyn er mwyn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

- Mae asesiadau, cynlluniau a gwaith gyda'r person ifanc cyn y trosglwyddo i gyd yn gymorth i sicrhau fod y bobl ifanc yn ystod ac wedi'r trosglwyddo yn parhau i fod yn rhan o ddigwyddiadau ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu neu i fod yn *Risg o Niwed*.

- Mae Ymarferwyr yn sicrhau fod y bobl ifanc â gwybodaeth lawn ac yn rhan o'r broses trosglwyddo, a bod yr wybodaeth i gyd wedi'i ddiweddaru.

- Mae pob un sy'n rhan o'r broses yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau'r bobl ifanc wrth iddynt symud o un gwasanaeth i'r llall, gan ymwneud yn llawn â hwy, ac ymateb wrth a phan mae problemau'n codi.

- Bu peth aflonyddu ar waith ETE yr oedolion ifanc. Nid oedd rhannu gwybodaeth iechyd am oedolion ifanc cyn iddynt gael eu trosglwyddo pan oedd hyn yn golygu symud corfforol o un sefydliad i un arall.

***Canfyddiadau allweddol:***

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r oedolion ifanc fod y trosglwyddo wedi ei drafod ymlaen llaw ond prin oedd y rhybudd a gawsant am ddyddiad y trosglwyddo nag i ba sefydliad yr oeddent yn cael eu trosglwyddo.

- Fe ddwedodd yr oedolion ifanc yn y sampl eu bod yn teimlo'n "barod" i gael eu trosglwyddo, ond roedd y rhai a symudodd o safle penodedig yn teimlo eu bod wedi eu paratoi'n llai na'r rhai oedd mewn sefydliadau cymysg. Derbyniodd arolygwyr troseddwyr wybodaeth gan y sefydliad oedd yn eu hanfon pan oedd yr oedolyn ifanc wedi ei drosglwyddo ond roeddynt yn aml yn cael problem i gysylltu â YOT neu gweithwyr prawf.

- Bu peth aflonyddu ar waith ETE yr oedolion ifanc. Nid oedd rhannu gwybodaeth iechyd am oedolion ifanc cyn iddynt gael eu trosglwyddo pan oedd hyn yn golygu symud corfforol o un sefydliad i un arall.


***Cefndir***

5.1 Gall bobl ifanc sy'n cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed tra maent yn y ddalfa brofi newid yn y lle y cedwir hwy, y gyfundrefn, addysg, rhaglenni a

threfniadau cynllunio dedfryd a newid o reolwr achos YOT i reolwr troseddwr prawf yn y gymuned.

5.2 Mae pobl ifanc dan 18 oed yn cael eu lletya yn ystâd plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys safleoedd penodedig sy'n dal pobl ifanc yn unig, sefydliadau cymysg sy'n dal (ond mewn llety ar wahân) pobl ifanc a rhai 18-21 oed, neu bobl ifanc 18-21 oed ac oedolion hŷn. Mewn sefydliadau cymysg mae pobl ifanc dan 18 oed yn cael eu cadw mewn adain neu unedau penodedig. Mae darpariaeth cyfundrefn i rai dan 18 oed yn wahanol i'r rhai dros 18 oed. Mae Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai 28/2009[17] yn datgan: '*Nid ydynt eto yn oedolion ac mae'n rhaid cymryd pob gofal i sicrhau fod amodau gwarchodaeth a gweithgareddau'r gyfundrefn yn hyrwyddo eu lles a'u tyfiant iach.'*

5.3 Mae trefniadau comisiynu rhwng y YJB a NOMS yn datgan y bydd, gyda rhai eithriadau, pobl ifanc ar DTOau yn aros yn yr ystâd blant a phobl ifanc ar ôl eu pen-blwydd yn ddeunaw oed, ond y bydd pobl ifanc gyda dyfarniadau hwy yn cael eu trosglwyddo i ystâd oedolion. Mae pobl ifanc sy'n lletya mewn sefydliadau cymysg fel arfer yn cael eu trosglwyddo i'r ddarpariaeth bobl ifanc yn yr un sefydliad pan fyddant yn 18 oed tra bod y rhai a gafodd eu lletya mewn lleoliadau penodedig yn cael eu trosglwyddo i sefydliad arall.

5.4 Disgwylir i'r bobl ifanc sydd yn y ddalfa gael cynllun hyfforddi sy'n cael ei oruchwylio gan eu gweithwyr YOT a gweithwyr achos y sefydliad ac sy'n cael ei adolygu o leiaf unwaith bob tri mis mewn cyfarfod ble bydd y person ifanc, ei weithiwr(wyr) YOT, gweithiwr achos ac unrhyw aelod o'r staff sydd â chyfraniad defnyddiol i'w wneud. Wedi'r trosglwyddo bydd cyfarfodydd cynllunio dedfryd (i'r rhai sy'n ddarostyngedig i reoli troseddwr ac fel arfer â risg uchel neu uchel iawn o wneud Niwed Difrifol neu sy'n droseddwyr toreithiog) yn digwydd ar gyfnodau llai aml, yn aml blwyddyn ar wahân a phur anaml mae teuluoedd yn rhan o'r broses. Fel gydag unrhyw un arall sy'n cyrraedd, bydd y rhai sy'n cael eu trosglwyddo i garchar/YOI i rai dros 18 oed o ystad plant a phobl ifanc yn ddarostyngedig i asesiadau sgrinio, ac asesiadau iechyd ac addysg wrth gyrraedd. Dylai cynllun hyfforddi'r bobl ifanc ac unrhyw wybodaeth berthnasol a anfonir gan y sefydliad anfon gael ei roi yn y cynllun dedfrydu ac asesiadau eraill.

5.5 Ym mis Awst 2008 cyhoeddwyd dogfen y YJB, *Progression to the young adult estate*. Nododd y prosesau ar gyfer pontio o ystad plant a phobl ifanc i ystad oedolyn ifanc.

### *Dedfrydau Hirdymor*

5.6 Dywedodd dogfen YJB y byddai dilyniant i ystad oedolyn ifanc 18 oed yn awtomatig i bobl ifanc sy'n treulio dedfrydau hir; y byddent yn symud o fewn mis yn dilyn eu pen-blwydd yn 18 oed a byddai ganddynt o leiaf fis ar ôl i'w wneud cyn eu rhyddhau ar ôl dyddiad eu symud. Dylai'r symud gael ei drafod yn ystod cynllunio'r hyfforddiant olaf neu gyfarfod rheoli remand cyn pen blwydd y person ifanc yn ddeunaw oed. Mae'r arfer gorau a amlinellir yn y ddogfen yn cynnwys adnabyddiaeth gynnar o'r trosglwyddo a'r sefydliad fydd yn ei dderbyn ac ystyriaeth o unrhyw ddarpariaeth arbenigol fydd ei angen ar y bobl ifanc, a chynllunio ar y cyd fel y gall y bobl ifanc gael eu paratoi i symud mewn ffrâm amser a benderfynwyd ymlaen llaw.

### *Gorchmynion Cadw a Hyfforddi (DTO)*

5.7 Roedd y ddogfen hefyd yn cynnwys arweiniad ar symudiadau dewisol (i'r rhai ar Orchymyn Cadw a Hyfforddi [DTO]) i ystad oedolyn ifanc 18 oed er mai'r rhagdybiaeth i bobl ifanc o dan DTO oedd y byddent yn dal i letya ar ystad plant a phobl ifanc pan fyddant yn cyrraedd 18 oed. Mae gofyn rhoi gwybod i'r YJB am drosglwyddiad pob un sy'n 18 oed ac o dan y DTO i ystad oedolyn ifanc er mwyn eu monitro. Yn ychwanegol, gellir symud unrhyw un sy'n 18 oed ac o dan y DTO i ystad oedolyn ifanc fel rhan o ddrafft gorlenwi mewn ymateb i bwysau'r boblogaeth yn ystad plant a phobl ifanc.

### *Cynllunio a pharatoi ar gyfer trosglwyddo*

5.8 Roedd 17 o oedolion ifanc yn ein sampl (pump dan DTO a 12 o ddedfrydau tymor hirach). Adroddodd tri chwarter ohonynt eu bod wedi'u trosglwyddo naill ai ar eu pen blwydd, neu o fewn ychydig ddyddiau o'u pen blwydd yn ddeunaw oed. Dywedodd tri eu bod wedi'u trosglwyddo ar eu pen blwydd, saith eu bod wedi'u trosglwyddo drannoeth a thri arall wedi'u trosglwyddo o fewn i bum diwrnod o'u pen-blwydd. Cafodd bedwar eu cadw yn yr ystad plant a phobl ifanc am nifer sylweddol o ddyddiau wedi'u pen blwydd yn ddeunaw oed (rhwng 52 ac 88 diwrnod). Dywedodd dau eu bod wedi'u cadw yn y sefydliad i gwblhau eu haddysg neu gyrsiau ymddygiad troseddol roeddent wedi'u dechrau. Doedd y ddau oedolyn ifanc arall ddim yn gallu cofio eu bod wedi cael rheswm dros eu arhosiad estynedig yn eu sefydliad pobl ifanc.

5.9 Roedd yn foddhaol clywed y rhan fwyaf o'r oedolion ifanc yn adrodd fod y trosglwyddo i ystad oedolion wedi'i drafod mewn cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant, er bod un yn dweud ei fod wedi gorfod codi'r mater ei hunan a doedd dim un oedolyn ifanc yn adrodd fod y mater wedi'i drafod mewn unrhyw fanylder.

5.10 Adroddodd y rhai mewn sefydliadau cymysg well profiadau yn nhermau paratoi ar gyfer eu trosglwyddiad. Roedd hyn yn aml yn cael ei briodoli i'r cyfleoedd a gawsant i ymweld ag ochr oedolion y sefydliad cyn eu trosglwyddo, oedd yn caniatáu iddynt gyfarfod â'r staff, dod yn gyfarwydd â'r amgylchedd newydd a dysgu am y gwahaniaethau yn y drefn. Adroddodd un oedolyn ifanc fod aelod o staff o ochr yr oedolion wedi mynychu'r cyfarfod cynllunio hyfforddi olaf yn yr uned pobl ifanc i ddarparu gwybodaeth am y drefn oedolion.

5.11 Roedd peth tystiolaeth mewn ffeiliau achosion o bontio'n cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant cyn y pontio (ee *"mynychodd gyfarfod cynllunio hyfforddiant, siaradodd am gynlluniau i symud i statws Sefydliad Troseddwyr Ifanc [YOI*]") ond roedd diffyg manylion o ran sut roedd yr oedolion ifanc wedi cael eu paratoi ar gyfer y symud.

5.12 Tystiolaeth gyfyngedig oedd ar gofnodion achosion yn nodi fod cymorth ar gael i bobl ifanc cyn eu trosglwyddo o sefydliad bobl ifanc. Roedd enghreifftiau o ble roedd hyn yn digwydd yn cynnwys un cofnod oedd yn darllen: '*Dywedodd X ei fod yn nerfus ynglŷn â'i symud i'r prif sefydliad. Cawsom sgwrs am y rheolau a'r rheoliadau sydd yn y prif sefydliad. Cytunodd X fod rheolau a rheoliadau ble bynnag y byddech chi a'i fod yn ddim ond yn fater o'u deall a'u cadw. Rydw i wedi sicrhau X y bydd yn iawn ac y dylai gymryd y cwbl o'r gwersi roedd wedi'u dysgu [*yn yr uned ifanc*] a'u defnyddio i'w fantais ei hun.*' Nododd un arall 'fe *wnaethom*

*drafod cwpl o'i gofnodion negyddol a dderbyniodd hynny a dweud ei fod yn bryderus o ran pryd y byddai'n cael ei drosglwyddo'.*

### *Hysbysiad o drosglwyddo*

5.13 Dywedodd bron i bob un o'r bobl ifanc yn y sampl nad oeddent wedi cael dweud wrthynt ymlaen llaw pryd y byddent yn cael eu trosglwyddo. Roedd yr unig dri a ddywedodd eu bod wedi cael dweud wrthynt ymlaen llaw ar ba ddyddiad y byddai'r trosglwyddo'n digwydd i gyd mewn sefydliadau cymysg. Dywedodd dau eu bod wedi darganfod hynny bythefnos cyn eu pen-blwydd yn ddeunaw oed a dywedodd un, oedd ddim ond wedi cyrraedd y sefydliad naw diwrnod cyn ei ben-blwydd, iddo gael dweud wrtho y byddai'n symud ar y Dydd Llun ar ôl iddo ddod yn 18 oed. Roedd eraill mewn sefydliadau cymysg yn tybio y byddent yn cael eu trosglwyddo yn gymharol gyflym ar ôl eu pen blwydd yn ddeunaw o ganlyniad i'r hyn roeddent wedi cael dweud wrthynt yn eu cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant a beth roedd pobl ifanc eraill wedi ei ddweud wrthynt am y broses drosglwyddo. Dywedodd pedwar o oedolion ifanc wrthym eu bod wedi cael dweud wrthynt eu bod yn cael eu trosglwyddo y diwrnod cynt ac fe wnaeth 10 ddarganfod hynny ar y diwrnod y cawsant eu trosglwyddo. Dywedodd un oedolyn ifanc:

"[Fe wnes i ganfod] *pan gyflwynwyd fy magiau i mi ar fy mhen blwydd a dywedwyd wrthyf rwyt ti'n cael dy drosglwyddo"*.

5.14 Roedd y rhai mewn sefydliadau cymysg i gyd yn hyderus y byddent yn symud ar draws i ochr yr oedolion o'r sefydliad cyfredol ac yn gyffredinol roeddent yn gadarnhaol am y cynlluniau trosglwyddo.

*"Gofynnon nhw i mi os oeddwn eisiau cael fy nhrosglwyddo. Ro'n i'n gwybod y byddwn yn aros yn [yr un sefydliad] felly ro'n i'n hapus i wneud hynny"*.

5.15 Yn gyffredinol, fodd bynnag, dywedodd oedolion ifanc mewn sefydliadau penodedig nad oeddent wedi cael dewis ble'r hoffent gael eu trosglwyddo, a hyd yn oed pe baent yn cael y cynnig, teimlent nad oedd neb yn gwrando arnynt nac yn eu hysbysu pam fod penderfyniadau wedi'u gwneud i'w trosglwyddo i sefydliad gwahanol.

*"Soniais fy mod eisiau cael fy symud i YOI ger Llundain ond wnaeth neb ddim amdano."*

*"Fe wnaethon nhw ofyn i ble'r hoffwn gael fy nhrosglwyddo a dywedais i Deerbolt. Ddywedon nhw [*gweithiwr YOT a gweithiwr achos*] y buasent yn ceisio fy nghael i mewn yno ond yna'n dweud y byddai'n dibynnu ar ble roedd y bws yn mynd a ble byddai'n fy nghymryd ar y dydd."*

*"Gofynnon nhw i mi ble roeddwn i am fynd, a dywedais i Swinfen Hall, Aylesbury neu Moorland, a dwedon nhw y byddwn yn siŵr o fod yn un o'r ddau le yma. Yna ym Mis Mai medden nhw y byddwn yn Aylesbury. Ym Mis Mehefin ddwedon nhw y byddwn yn y Parc a phythefnos cyn trosglwyddo y byddwn i yn [*y sefydliad mae'r person ifanc ynddo ar hyn o bryd*]. Ro'n i yn gofyn yn barhaol am fy nhrosglwyddiad"*.

*"Dywedodd* [y gweithiwr YOT a'r gweithiwr achos] *gwpl o weithiau 'byddi'n symud pan fyddi'n 18 ond dydyn ni ddim yn siŵr pryd.' Wnaethon nhw ddim gofyn i mi ble'r hoffwn i fynd."*

5.16 Adroddodd saith o'r oedolion ifanc (pob un mewn sefydliad penodedig) mai dim ond ar ddiwrnod eu trosglwyddo yr oeddynt wedi canfod i ba sefydliad roeddent yn cael eu trosglwyddo. Dywedasant eu bod wedi canfod naill ai gan swyddogion yr adain pan ddywedwyd wrthynt am bacio'u meddiannau, yn y dderbynfa yn y sefydliad oedd yn eu hanfon, ar y fan, neu unwaith roeddynt wedi cyrraedd y sefydliad oedd yn eu derbyn. Roedd hyn yn golygu nad oedd dim o'r oedolion ifanc wedi derbyn unrhyw wybodaeth am y sefydliad roeddent yn cael eu trosglwyddo iddo cyn cyrraedd yno nac wedi cael cyfle i hysbysu'u teuluoedd/gofalwyr i ble roeddent yn mynd.

*"Y diwrnod y symudais i yma, dywedodd y swyddogion wrtha i mod i'n cael fy anfon allan, i bacio fy stwff a wnes i ddim canfod ble ro'n i'n mynd nes i mi fynd ar y fan"*.

*"Dywedodd y swyddogion wrthyf am aros ar yr adain ac i beidio â mynd i addysg a dweud wrthyf mod i'n mynd i [*sefydliad oedd yn derbyn*]….roedd fy nhrosglwyddo wedi ei drafod yn [*cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant*] a dywedwyd wrthyf y byddwn yn mynd i Isis" (*ni chafodd yr oedolyn ifanc ei drosglwyddo i Isis).

5.17 Dywedodd eraill wrthym nad oeddent hwy ddim ond wedi clywed ymlaen llaw ble roeddent yn cael eu trosglwyddo am eu bod wedi gwneud cais am y wybodaeth gan swyddog.

*"Dwy neu dair wythnos cyn cael fy nhrosglwyddo ces i wybod – daliais ymlaen i ofyn i'r swyddog sy'n trefnu'r symudiadau ac mi ddwedodd o wrtha i."*

*"Roedd fy ffrind yn 18 y diwrnod o'm blaen i ac mi ddwedodd o wrtha i ei fod yn cael ei drosglwyddo i Moorland felly gofynnais i'r swyddog a dwedodd wrtha i fy mod i'n mynd yno hefyd"*.

5.18 Er, yn gyffredinol, fod yr oedolion ifanc yn y sampl wedi riportio eu bod yn teimlo'n "barod" i drosglwyddo, roeddent yn aml yn flin ac wedi cynhyrfu pan fu iddynt ganfod ble roeddent yn cael eu trosglwyddo. Roedd hyn yn aml oherwydd nad oeddent wedi teimlo'n rhan o'r broses, nid oeddynt yn gwybod ble roeddent yn mynd ac nid oeddynt yn cael eu hanfon i'r sefydliad roeddent hwy wedi gofyn amdano. Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai oedd wedi'u lleoli mewn sefydliad pobl ifanc oedd bellter arwyddocaol o'u cartref - rhai oedd wedi gobeithio cael eu trosglwyddo i sefydliad agosach at gartref ac yn methu gwneud.

*"Pan ffeindiais fy mod yn mynd i'r [*sefydliad derbyn*] ro'n i wedi cynhyrfu'n lan gan ei fod mor bell i ffwrdd oddi wrth fy Mam. Doeddwn i ddim yn teimlo'n rhan o'r penderfyniad"*.

*"Ro'n i'n* [wirioneddol flin] *am nad oeddwn yn gwybod ble ro'n i'n mynd. Ffoniais fy Mam wedi i mi gyrraedd yma ac roedd hithau hefyd wedi'i chythruddo gan ei bod wedi bwcio ymweliad yr wythnos honno i'm gweld i yn* [y sefydliad oedd yn anfon]*"*.

*"Teimlais yn rhan o'r broses pan oeddwn yn rhoi ceisiadau mewn mannau eraill ond yn y pendraw doedd gen i ddim rhan mewn gwirionedd gan nad oeddwn i'n gwybod y byddwn yn dod yma"*.

### *Cyswllt gyda Thimau Troseddwyr Ifanc (YOT) a staff prawf wedi trosglwyddo*

5.19 Adroddodd wyth oedolyn ifanc fod eu harolygiaeth wedi'i drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Prawf o YOT (gan gynnwys un oedolyn ifanc ar ddedfryd DTO). O'r rhain dywedodd chwech eu bod wedi gweld eu gweithiwr YOT ers iddynt newid sefydliad, gan gynnwys tri a ddwedodd eu bod wedi'u gweld mewn cyfarfod i drosglwyddo eu hachos o YOT i weithiwr prawf. Y tri hyn oedd yr unig rai i riportio eu bod wedi cyfarfod gyda'r rheolwr troseddwyr prawf. Dywedodd y pump arall nad oeddent wedi cyfarfod â'r rheolwr troseddwyr ar adeg y cyfweliad, er i ddau ddweud eu bod wedi siarad â hwy dros y ffôn. Amrywiodd hyd yr amser ers trefnu'r trosglwyddo o 50 diwrnod i 151 diwrnod.

5.20 Adroddodd naw oedolyn ifanc eu bod o hyd yn cael eu rheoli gan YOT yn hytrach nag Ymddiriedolaeth Prawf, gan gynnwys pedwar oedd â dedfrydau DTO a phump oedd ar ddedfrydau hwy. Dywedodd pedwar eu bod wedi gweld eu gweithiwr YOT o leiaf unwaith cyn eu trosglwyddo (gan gynnwys dau oedd ar ddedfrydau DTO) a dywedodd un oedolyn ifanc ar ddedfryd DTO fod ganddo gyfarfod cyswllt fideo gyda'i weithiwr YOT.

5.21 Yn gyffredinol, dywedodd chwech oedolyn ifanc wrthym nad oeddent wedi cael cyswllt gydag un ai rheolwr achos YOT na rheolwr troseddwr prawf ers newid sefydliad. Roedd cyfanswm yr amser y bu'r chwech oedolyn ifanc hyn yn eu sefydliadau cyfoes yn amrywio o 38 i 151 o ddyddiau (ar gyfartaledd 82). Roedd y lefel isel hwn o gysylltu a adroddwyd yn fater o bryder gan ei fod yn golygu nad oedd oedolion ifanc yn derbyn y gefnogaeth na'r arolygiaeth y dylent ei gael a doedd ymarferwyr ddim yn cynnal ac/neu adeiladu'r lefel o gysylltu ac ymddiriedaeth y byddai gofyn amdano yn hwyrach pan fyddid yn cynllunio ar gyfer rhyddhau.

5.22 Gwelsom beth defnydd o synnwyr cyffredin ynglŷn â throsglwyddo i'r gwasanaeth prawf. Roedd un rheolwr achos YOT yn gweithio gyda pherson ifanc ar ddedfryd tair mlynedd, tri mis a chadwodd yr achos am fod y person ifanc yn aros yn sefydliad pobl ifanc ar ôl ei ben blwydd yn ddeunaw oed i gwblhau rhaglen ymddygiad troseddol. Eglurodd y gweithiwr YOT hefyd gan mai hwn oedd profiad cyntaf y person ifanc o fod yn y ddalfa, ei fod yn cynllunio i ddod â swyddog prawf yn rhan o'r broses, drwy drefnu cyfarfod tair ffordd, cyn Cyrffyw Gwarchodaeth Cartref fel bo'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf cyn iddo gael ei ryddhau. Cynhaliwyd cyfweliad ag un rheolwr troseddwyr prawf a eglurodd fod rhai oedolion ifanc weithiau'n cael eu dal gan YOTau am gyfnod i ganiatáu amser iddynt ddygymod â'r sefydliad newydd cyn eu trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf. Mewn un achos, tua mis ar ôl y trosglwyddo daeth yr YOT i gyswllt ag ef a threfnwyd cyfarfod tair ffordd a ddigwyddodd mis ar ôl hynny. Derbyniodd y ffeiliau i gyd am y person ifanc cyn y cyfarfod. Roedd hyn yn ymddangos yn ffordd gall, ar yr amod fod y gweithwyr YOT yn aros yn weithredol yn rhan o'r ymwneud â'r person ifanc yn ei sefydliad newydd a bod targedau cynllun dedfryd yn cael eu cadw'n gyfredol.

### *Goruchwylwyr troseddwyr a chynllunio dedfryd*

5.23 Dywedodd deg oedolyn ifanc fod ganddynt oruchwyliwr troseddwyr yn y sefydliad a bod pob un wedi'u cyfarfod unwaith o leiaf. Dywedodd pedwar nad oedd

ganddynt un, ac nid oedd dau oedolyn ifanc yn siŵr - dywedasant eu bod wedi cyfarfod â rhywun ond ni wyddent beth oedd teitl ei swydd. Adroddodd un oedolyn ifanc mewn sefydliad cymysg, oedd yn parhau i gael ei reoli gan YOT, nad oedd ganddo oruchwyliwr ond roedd yn dal i weld ei weithiwr achos o sefydliad y bobl ifanc.

5.24 Adroddodd saith o'r deg oedolyn ifanc, a ddwedodd eu bod wedi cyfarfod â'u goruchwyliwr troseddwyr, eu bod wedi trafod eu cynllun dedfryd gyda hwy. Dywedodd pump fod ganddynt gynllun a bod targedau wedi'u gosod ar eu cyfer a dwedodd dau eu bod yn aros i'w gweithiwr prawf gwblhau eu cynllun a'u targedau. O'r deg a ddwedodd nad oeddent wedi siarad am eu cynllun dedfryd ers eu trosglwyddo, roedd tri wedi'u trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf ac roedd saith yn dal i gael eu rheoli gan YOT (gan gynnwys pedwar ar ddedfryd DTO).

5.25 Yn y ddau safle oedd wedi derbyn oedolion ifanc o sefydliadau eraill, nid oedd yr unedau rheoli troseddwyr wedi cael rhybudd ymlaen llaw am drosglwyddiad yr oedolyn ifanc a dim ond wedi iddynt gyrraedd y dderbynfa y daethant yn ymwybodol ohonynt. O ganlyniad dim ond wedi iddynt gyrraedd y cawsant oruchwyliwr troseddwyr.

5.26 Adroddodd pob un o'r goruchwylwyr troseddwyr fod yr oedolion ifanc wedi'u rhoi dan eu gofal ar ôl cael eu trosglwyddo i'r sefydliad. Dywedodd pob un iddynt gyfarfod â'r oedolyn ifanc o leiaf unwaith (gan groesddweud adroddiadau'r oedolion ifanc eu hunain) ac adroddodd 11 iddynt gyfarfod â hwy ddwywaith neu fwy. Dywedodd y goruchwylwyr troseddwyr mai'r sefyllfa ddelfrydol fyddai pe baent yn gallu cyfarfod â'r oedolion ifanc cyn iddynt gael eu trosglwyddo.

### *Derbyn gwybodaeth gan y Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) dan 18 oed*

5.27 Adroddodd y goruchwylwyr troseddwyr eu bod yn gyffredinol yn derbyn gwybodaeth gan y sefydliadau oedd yn anfon pan oedd yr oedolion ifanc yn cael eu trosglwyddo, ond eu bod yn aml yn straffaglu i gysylltu â YOT neu weithwyr prawf. Dim ond tri o oruchwylwyr troseddwyr ddwedodd eu bod wedi cyfarfod â gweithiwr YOT yr oedolyn ifanc ac roedd un arall wedi ceisio creu cyswllt ond heb gael yr un ymateb. Teimlent fod cysylltu â'r gweithiwr YOT yn hanfodol i gael pontio effeithiol, yn ddelfrydol cyn y trosglwyddo a hefyd ar ôl i'r oedolyn ifanc os oedd ar DTO neu os nad oedd wedi ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Prawf.

5.28 Roedd tystiolaeth yn y ffeiliau yn dangos fod goruchwylwyr troseddwyr yn rheolaidd yn mynd ar ôl yr YOT i geisio canfod os oedd yr achos wedi'i drosglwyddo, ac os nad oedd pryd fyddai hynny'n digwydd, ac i bwy roedd wedi ei drosglwyddo.

5.29 Adroddodd goruchwylwyr troseddwyr iddynt ysgrifennu cynllun dedfryd mewn tri o'r achosion yn y sampl. Eglurodd y goruchwylwyr eu bod yn sylfaenu'r cynlluniau ar gyfweliadau gyda'r oedolion ifanc, Asset (er nad oedd y rhain yn aml wedi'u diweddaru ers tro), gwybodaeth o'r sefydliad oedd yn anfon a chynlluniau hyfforddi. Eglurodd un arall fod cynllun y ddedfryd wedi'i gwblhau gan y gweithiwr YOT tra roedd y person ifanc yn ystad y bobl ifanc, ac felly fod y goruchwyliwr troseddwyr wedi dilyn y cynllun arbennig hwnnw.

5.30 Adroddodd goruchwylwyr troseddwyr eraill yr anawsterau o gael at y cynlluniau trosedd.

*"Ymwelodd y rheolwr troseddwyr ym mis Mai a chwblhau cynllun dedfryd heb i mi wybod. Nid yw eto wedi'i ryddhau i'r system felly ni allaf ei ddefnyddio i gynllunio dedfryd"*.

5.31 Yn absenoldeb cynlluniau dedfryd, eglurodd y goruchwylwyr troseddwyr eu bod yn defnyddio targedau o hen gynllun hyfforddi'r oedolion ifanc ac y byddent yn 'meddalu/gosod targedau dros dro' (er enghraifft, 'mynychu addysg') i'r oedolion ifanc i weithio tuag atynt nes bod y cynllun dedfryd wedi ei gwblhau.

5.32 Dangosodd tystiolaeth yn y ffeiliau achos fod goruchwylwyr troseddwyr yn rheolaidd yn gorfod mynd ar ôl gwasanaeth prawf i ganfod pwy oedd y rheolwr troseddwyr a phryd y byddent yn ysgrifennu'r cynllun dedfryd (ble roedd yn berthnasol). Er enghraifft, cyrhaeddodd un oedolyn ifanc ym mis Ebrill a dim ond ym mis Medi y cafodd wybod pwy oedd ei reolwr troseddwyr.

5.33 Adroddodd goruchwylwyr troseddwyr eu bod, yn gyffredinol, yn rheoli niferoedd bach o achosion trosglwyddo bob blwyddyn (un neu ddau). Gwnaethant y sylw mai eu prif drafferth oedd eu bod yn aml yn ei chael yn anodd canfod os oedd yr achos wedi ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Prawf ac, os oedd hynny wedi digwydd, pwy oedd y rheolwr troseddwyr prawf dynodedig. Roedd hyn yn creu oedi ac yn aml roedd yn rhaid i oruchwylwyr troseddwyr orfod dibynnu ar Asset am wybodaeth a all yn aml fod yn hen. Roedd un oedolyn ifanc, er enghraifft, wedi bod yn y sefydliad am 151 o ddyddiau pan wnaethom ei gyfweld - nid oedd rheolwr prawf troseddwyr eto wedi cyfarfod â'r oedolyn ifanc na'i oruchwyliwr troseddwyr ac felly roedd yr ail yn ceisio trefnu cyfarfod cynhadledd fideo.

5.34 Adroddodd y rheolwyr troseddwyr prawf wnaethom ni siarad â hwy eu bod wedi ymdrin â thua dau achos pontio yr un yn ystod y 12 mis blaenorol. Teimlent mai'r pethau mwyaf pwysig wrth drefnu pontio effeithiol oedd cyfarfodydd achos trosglwyddo a chyfathrebu da gyda YOT a'r bobl ifanc. Fodd bynnag fe wnaethant egluro er iddynt ddod yn fwy cyfarwydd â YOT a DOT, nid oeddynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Roedd hefyd wedi bod yn anodd gwybod pwy i gysylltu â hwy yn YOT, gan nad oedd ganddynt fynediad i Asset, ynglŷn â'r achosion roeddent hwy'n mynd yn gyfrifol amdanynt.

### *Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE)*

5.35 Ychydig o dystiolaeth o gynllunio dilyniant a gawsom. Dim ond dau oedolyn ifanc a adroddodd fod cynlluniau i barhau i fynd i'r afael â'u hanghenion ETE wedi'u trafod gyda nhw cyn eu trosglwyddo. Roedd y ddau'n cael eu trosglwyddo oddi fewn i sefydliadau cymysg a chyn eu trosglwyddo trefnwyd iddynt ddechrau neu fynd ar restr aros ar gyfer cyrsiau penodol.

5.36 Er bod oedolion ifanc wedi'u gweld gan weithwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn ystod cyfnod sefydlu yn y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy, dywedodd pum oedolyn ifanc ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo nad oeddynt yn gallu parhau gyda'r ETE roeddent wedi'i ddechrau yn y sefydliad blaenorol. Eglurodd un oedolyn ifanc ei fod wedi cael dweud wrtho na fyddai'n cael ei drosglwyddo nes iddo gwblhau ei TGAU. Yn annisgwyl, cafodd ei drosglwyddo ac er bod y sefydliad oedd yn ei dderbyn wedi trefnu iddo sefyll ei arholiadau nid oedd ei waith cwrs na'i nodiadau wedi'u trosglwyddo ar yr un pryd felly roedd ei astudiaethau wedi'u drysu.

5.37 Dywedodd pob un ond tri o’r oedolion ifanc eu bod yn gysylltiedig â ryw ffurf ar ETE adeg y cyfweliad.

5.38 Roedd rhannu gwybodaeth am anghenion addysg a hyfforddiant oedolion ifanc a’u llwyddiannau cyn y trosglwyddo yn haws yn y sefydliadau cymysg. Yn y ddau safle arall, roedd yr adran dysgu a sgiliau yn ddibynnol ar yr wybodaeth oedd yn cyrraedd gyda’r oedolion ifanc. Roedd y ddau’n dweud fod yn rhaid iddynt fynd ar ôl y sefydliadau oedd yn anfon i gael tystysgrifau, gwaith cwrs a chofnodion eraill. Gwnaed cyswllt ar sail achos wrth achos, ond roedd un sefydliad yn datblygu rhai cysylltiadau gyda’r adran addysg yn sefydliad y bobl ifanc oedd fwyaf aml yn trosglwyddo pobl ifanc iddynt hwy.

5.39 Roedd polisi wedi’i osod ar gyfer pontio addysg a hyfforddiant mewn un sefydliad cymysg. Roedd y swyddog addysg o’r rhan dros 18 oed yn ymweld ag uned y bobl ifanc cyn iddynt gael eu trosglwyddo ac roedd rhywun o’r adran addysg yn mynychu cyfarfod pontio a gynhaliwyd ar y bobl ifanc cyn bob trosglwyddiad. Roedd oedolion ifanc yn cael credyd ar restrau aros am gyrsiau am yr amser a dreuliwyd mewn uned bobl ifanc oedd yn golygu nad oeddent yn mynd i waelod y rhestrau.

### *Gwasanaethau iechyd*

5.40 Roedd y rhai a oedd yn flaenorol mewn cysylltiad â Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc i gyd yn dweud eu bod wedi gweld Cynghori, Asesu, Cyfeirio, Cyngor a Gofal Drwodd (CARAT) yn eu sefydliad newydd. Roedd lefel y cyswllt wedi’i ostwng er nad adroddodd unrhyw un o’r oedolion ifanc bryder am hyn.

5.41 Fodd bynnag, ni fu unrhyw rannu gwybodaeth iechyd am y bobl ifanc cyn y trosglwyddo pan oedd hynny’n golygu symud corfforol o un sefydliad i un arall.

5.42 Roedd pobl ifanc oedd yn cael eu trosglwyddo rhwng sefydliadau yn cael eu trin yn yr un ffordd ag eraill oedd yn cael eu trosglwyddo os oedd ganddynt apwyntiad iechyd wedi’i drefnu gan y sefydliad blaenorol. Byddai hyn yn cael ei drin ar sail achos wrth achos gyda’r posibilrwydd o gael eu cyfeirio at ysbyty lleol yn lle hynny.

5.43 Dywedodd un sefydliad y byddent yn adolygu, ac o bosib yn newid, y feddyginiaeth roedd oedolyn ifanc oedd newydd gyrraedd yn ei gymryd, i gyd-fynd â’u harfer ar gyfer pob carcharor oedd wedi’i drosglwyddo, beth bynnag fo’r oed.

5.44 Mewn sefydliadau cymysg ble roedd gwasanaethau iechyd i rai dan a thros 18 oed yn cael eu darparu gan yr un darparwr, roedd yn haws hyrwyddo parhad y driniaeth. Mewn un sefydliad cymysg, roedd nyrs y bobl ifanc yn paratoi cofnod cyfarwyddyd i’w chydweithwyr ar y safle dros 18 oed ac yn sicrhau fod y fferyllfa yn ymwybodol o ddyddiadau’r symudiadau fel y gallai’r feddyginiaeth ragnodedig fod ar gael i’r oedolyn ifanc ar ei adain newydd wedi’r pontio.

### *Sylwadau am y broses bontio*

5.45 Wrth ystyried y broses bontio, teimlai 6 o’r 17 oedolyn ifanc y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o gefnogaeth i’w cynorthwyo i addasu i’w sefydliad newydd.

Yn bennaf, dywedasant y byddent wedi hoffi mwy o wybodaeth am y sefydliad newydd, er enghraifft sut i wneud cais, a hefyd gwybodaeth am drefn y sefydliad.

*"Byddwn wedi hoffi cael gwybod be sy'n digwydd yma. Doeddwn i ddim yn gwybod y drefn."*

*"Maen nhw'n disgwyl i chi wybod bopeth, hyd yn oed wrth i chi gael eich sefydlu rydych yn gofyn iddyn nhw am ffurflen gais a maen nhw'n edrych arnoch chi fel pe bai chi'n hurt ac y dylech wybod"*.

5.46 Teimlai eraill y byddent wedi hoffi cael mwy o gefnogaeth bersonol gan y staff i'w helpu i addasu i'w amgylchedd newydd.

*"Ro'n i'n teimlo'n nerfus, faswn i'n meddwl y basen nhw [*staff*] yn dod i'm gweld i dipyn bach mwy"*

*"Dywedodd y Staff y basen nhw'n ffonio fy Mam i adael iddi wybod mod i wedi cael fy nhrosglwyddo yma ond dywedodd hi na wnaethon nhw ddim. Roedd hi'n bythefnos ar ôl i mi gael fy nhrosglwyddo cyn i mi gael siarad â hi"*.

5.47 Dywedodd pawb ar wahân i un oedolyn ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf yn y sefydliad newydd ac adroddodd y mwyafrif eu bod yn teimlo'n "iawn" yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf. Roedd hyn yn cael ei briodoli ar y cyfan i'r ffaith eu bod yn adnabod pobl eraill yn y sefydliad ac/neu wedi'u trosglwyddo gyda rhai roeddent yn eu hadnabod. Roedd eraill yn gwneud y sylw er ei fod yn drefn wahanol i'r hyn roeddent wedi arfer ag ef, fe wnaethant addasu a " *dod i arfer*" yn gyflym".

5.48 Un thema gyson mewn sawl cylch oedd nad oedd oedolion ifanc oedd yn cael eu trosglwyddo yn cael eu trin yn wahanol i eraill oedd yn cyrraedd o'r newydd. Mewn un sefydliad dywedwyd wrthym "*mae'r cwrs derbyn yr un fath i bawb, maent yn cael eu trin yr un fath â phawb arall rydym yn eu derbyn".* Mae hyn yn golygu eu bod wedi derbyn yr un sgrin dderbyn ac asesiad addysg; er enghraifft, yr un fath â phob newydd ddyfodiad arall ac nid oedd dim yn unigryw yn y ffordd roedd trosglwyddo o ystad plant a phobl ifanc yn cael ei drin wrth iddynt gyrraedd.

5.49 Ychydig o werthfawrogi'r anawsterau y gall pobl ifanc ei wynebu wrth symud i Sefydliad Troseddwyr Ifanc dros 18 oed oedd yn cael ei ddangos gan y staff. Mewn un sefydliad roedd cydnabyddiaeth fod *"y gall y problemau sydd ganddynt fod wedi dod o ystad pobl ifanc,"* ond mewn lle arall y sylw oedd "mae [pobl ifanc] *wedi arfer â chael eu trin mewn ffordd arbennig – fedran nhw ddim sgrechian a gweiddi fel maent yn ei wneud mewn* [sefydliad pobl ifanc]".

### ***Amrywiaeth***

5.50 Daethom i'r casgliad, yn seiliedig ar ein cyfweliadau ag oedolion ifanc a'n darllen o gofnodion achos, nad oedd rhyw nac ethnigrwydd wedi bod yn arwyddocaol wrth egluro amrywioldeb y gwaith i hyrwyddo pontio effeithiol.

### ***Casgliad***

5.51 Ein hargraff gyffredinol o bontio pobl ifanc yn y ddalfa oedd, er bod trafodaeth am y trosglwyddo ynghynt, unwaith roedd y trosglwyddo wedi digwydd roedd bwlch mewn rheoli achos a chynllunio dedfryd. Roedd hyn yn golygu fod staff ac oedolion

ifanc eu hunain yn gorfod ailsefydlu'r ymdeimlad o bwrpas yn absenoldeb proses cynllunio dedfryd oedd yn pontio'n briodol darpariaeth dan 18 oed a thros 18 oed. Roedd hyn yn golygu risg i ddilyniant ymyriadau oedd yn angenrheidiol i ostwng y perygl o niwed i eraill (*RoH*) a'r tebygrwydd o aildroseddu, yn ogystal ag ymyriadau i ymdrin â gwendidau ee hunan niweidio ac anawsterau iechyd meddwl.

## 6. TREFNIADAU CEFNOGI

**Crynodeb:**

Mae'r bennod hon yn amlinellu pa drefniadau a phrotocolau oedd yn eu lle, a oedd y staff yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylid ganddynt, a pha ffactorau eraill, er enghraifft goruchwylio hyfforddiant a rheoli oedd naill ai'n helpu neu'n rhwystro'r gwaith.

***Beth roeddem yn ei ddisgwyl ei weld yn ymarferol:***

- Mae trefniadau rheoli a phrotocolau yn cyfrannu at allu'r staff i deimlo'n hyderus ac yn fedrus wrth helpu pobl ifanc i bontio'n effeithiol o wasanaethau sy'n seiliedig ar ieuenctid i wasanaethau sy'n seiliedig ar oedolion.

***Canfyddiadau allweddol:***

- Nid oedd gan unrhyw un o'r sefydliadau gwarchodol bolisi pontio ffurfiol.
- Yn y gymuned roedd y rhan fwyaf o'r YOT a'r Ymddiriedolaethau Prawf wedi datblygu protocolau lleol wedi'u sylfaenu ar esiampl arfer da cenedlaethol. Roedd ymwybyddiaeth y staff o'r trefniadau hyn yn amrywiol ac roedd disgwyliadau cyswllt ag ETE a'r darparwyr iechyd yn aneglur.
- Roedd angen mwy o bwyslais ar adolygu effeithiolrwydd y trefniadau fel y gallai Byrddau Rheoli YOT ac Ymddiriedolaethau Prawf wneud penderfyniadau cytbwys.
- Cyfyngedig oedd ymwybyddiaeth staff YOT a staff y gwasanaeth prawf o waith ei gilydd gyda phobl ifanc ac oedolion ifanc.
- Roedd rhai asiantaethau iechyd wedi datblygu protocolau lleol ar gyfer pontio o wasanaethau iechyd ieuenctid i wasanaethau iechyd oedolion ac adroddodd staff fod rhannu gwybodaeth yn dechrau gwella.

### *Trefniadau ysgrifenedig i bontio yn y ddalfa*

6.1 Nid oedd gan unrhyw un o'r sefydliadau bolisi ffurfiol pontio yn ei le, er fod gan un sefydliad cymysg rai prosesau clir i reoli pontio oedolion ifanc oedd yn aros ar ôl eu pen blwydd yn ddeunaw oed. Mewn un sefydliad dywedwyd wrthym nad oedd triniaeth arbennig i rai 18 oed, byddai pob unigolyn oedd yn dod i fewn yn cael ei drin yn ôl y risg a chynnwys y nodiadau achos.

### *Protocolau trosglwyddo lleol - Timau Troseddwyr Ifanc (YOT) i wasanaeth prawf*

6.2 Roedd *Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Gwasanaethau Ieuenctid* oedd yn weithredol ar ôl 30 Tachwedd 2009 yn mynnu fod rheolwyr YOT yn sefydlu protocol gyda'i Ymddiriedolaeth Prawf lleol. Datganodd y Safon Cenedlaethol y dylai'r protocol lleol ymwneud â'r trefniadau trosglwyddo, rhannu gwybodaeth, graddfeydd amser, rheoli risg, parhad ymyriadau a datrys anghydfod. Cyhoeddwyd protocol ar y cyd tua'r un amser gyda model o arfer da i'w addasu'n lleol.

6.3 O'r chwech ardal y bu i ni ymweld â hwy roedd gan bedair brotocol lleol diweddar ar gyfer trosglwyddo. Yn y ddwy ardal arall roedd gweithdrefnau sylfaenol trosglwyddo achos wedi'u cynnwys mewn cytundeb Gwasanaeth Prawf/YOT ehangach, er bod rhai trefniadau trosglwyddo wedi'u cytuno ar lefel tîm. Roedd y rhan fwyaf o brotocolau lleol wedi dilyn 'esiampl arfer da' yn y protocol cenedlaethol. Mewn rhai nid oedd pwyslais digonol ar y pethau ymarferol yn ymwneud ag iechyd, ETE, a phartneriaid eraill yn y broses drosglwyddo; trefniadau penodol i sicrhau dilyniant yr ymyriadau a delio â phryderon Diogelwch cyfredol.

6.4 Gwelsom rhai addasiadau o'r esiampl cenedlaethol o arfer da. Pwysleisiodd rhai ardaloedd eu bod yn defnyddio cyfarfodydd trosglwyddo achosion ar gyfer achosion 'risg uwch' yn hytrach na phob achos. Mewn un, trosglwyddo ar unwaith i wasanaeth prawf oedd i'w ystyried i bob un o'r bobl ifanc oedd yn agos at 18 oed pan gawsant eu dedfrydu, i osgoi'r angen am yr hyn oedd yn cael ei weld fel trosglwyddo dianghenraid a dieisiau yn 18 oed. Mynnodd un protocol y dylai'r hysbysiad cyntaf fod dri mis o flaen cyfnod y trosglwyddo (yn hytrach na chwe mis) fel graddfa amser mwy realistig. Cynhwysodd un protocol fodel o agenda ar gyfer cyfarfodydd trosglwyddo achos oedd o gymorth i ymarferwyr.

6.5 Ehangodd y protocol rhwng yr Ymddiriedolaeth Prawf yng Nghymru a'r YOT yng Nghymru bwrpas y cyfarfod trosglwyddo i gynnwys fel y nod cyntaf *'(i) roi rhan i'r person ifanc yn y trosglwyddo (a chefnogwr/rhiant/gofalwr os yn berthnasol)'.* Roedd rheolwyr yno'n teimlo fod hyn yn rhoi'r pwyslais priodol ar bwysigrwydd dull ysgogol, ochr yn ochr ag agwedd mwy trefniadol y trosglwyddo.

### *Ymwybyddiaeth o'r Protocolau*

6.6 Roedd y rhan fwyaf o staff y YOT y gwnaethom eu cyfweld yn ymwybodol os oedd protocol lleol; staff y gwasanaeth prawf yn llai felly, gan adlewyrchu efallai fod y protocol yn canolbwyntio mwy ar gyfrifoldebau'r YOT. Fodd bynnag roedd yr wybodaeth am y camau i'w cymryd pan oedd achos yn cael ei drosglwyddo yn gyfyngedig. Tra roedd rhai YOT wedi trafod y trefniadau mewn cyfarfodydd tîm, doedd rhai YOT a'r rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau Prawf ddim wedi cyflwyno'r protocol lleol yn effeithiol. Roedd niferoedd y rhai a drosglwyddwyd yn fach (mewn rhai swyddfeydd dim ond un neu ddau'r flwyddyn) ac felly roedd llawer o staff y YOT a'r Ymddiriedolaethau Prawf felly yn anghyfarwydd ag union fanylion y prosesau trosglwyddo. Roedd staff o'r gwasanaethau iechyd yn ymwybodol o fodolaeth protocol trosglwyddo achos y gwasanaeth prawf/YOT lleol, a pha wasanaeth oedd yn goruchwylio pa grŵp oedran, ond dim ond y rhan lleiaf posibl roeddent hwy wedi ei chwarae yn y trosglwyddiadau.

### *Rôl y swyddogion prawf a secondiwyd i YOT*

6.7 Cryfhawyd rhai trefniadau lleol gan rôl penodol i swyddog prawf a secondiwyd wrth reoli a delio â phontio rhai oedd yn 17 ac 18 oed. Dywedodd nifer o YOT eu bod yn ddiweddar wedi ail ganolbwyntio'r rôl ar ' dasgau craidd y swyddog prawf' gan fod 'crwydro' wedi digwydd i rôl mwy generig. Yn Swydd Gaerloyw mynnodd y protocol y byddai'r swyddog prawf a secondiwyd yn monitro a hwyluso trosglwyddo achosion i'r Ymddiriedolaeth Prawf; rhannu gwybodaeth perthnasol ar strwythur dedfrydu oedolion a newidiadau deddfwriaethol i reolwyr achosion YOT;

monitro pobl ifanc oedd yn cael gofal yn flaenorol; a sicrhau ymwybyddiaeth gan y gwasanaeth prawf o'u statws a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o'r brose

***Trefniadau rhwng darparwyr ymyriadau***

6.8 Mewn nifer o ardaloedd y gwnaethom ymweld â hwy roedd protocol lleol ar gyfer pobl ifanc er mwyn trosglwyddo o wasanaethau ETE a gwasanaethau iechyd wedi'u seilio ar bobl ifanc i rai ar gyfer oedolion. Roedd llawer o'r rhain wedi cael eu harwain gan ddadleuon cenedlaethol a lleol am anghenion pobl ifanc wrth bontio.

6.9 Ym maes ETE, roedd enghreifftiau o brotocol ar gyfer cysylltu rhwng Connexions a gwasanaethau gofal cymdeithasol ehangach plant (ac yn benodol timau gadael gofal) ond llai o dystiolaeth o brotocol rhwng Connexions/staff ETE yn y YOT a'r gwasanaethau ETE oedolion roeddynt yn gweithio gyda hwy. Dywedodd rhai rheolwyr troseddwyr gwasanaeth prawf wrthym fod eu gwasanaethau ETE ar gyfer oedolion sy'n droseddwyr yn newid yn aml, a gallai hyn fod wedi bod yn ffactor.

6.10 Ym maes iechyd, roedd gan rai o'r gwasanaethau oedd yn seiliedig ar bobl ifanc a rhai ar oedolion drefniadau pontio ysgrifenedig, er fod lefel y dealltwriaeth yn y gwasanaeth iechyd o'u rôl, meini prawf a throthwy heb ddatblygu digon. Hefyd roedd rhai protocol YOT/Iechyd oedd yn ymdrin â phontio i wasanaethau iechyd oedolion ond yn eithrio'r gwasanaeth prawf. Roedd y protocolau hyn fel rheol yn ymdrin â: defnyddio dulliau 'arwain yn ôl yr angen', ffiniau oed a defnyddio doethineb, cynllunio gadael, trefniadau i bobl ifanc i symud i wasanaethau oedolion (naill ai'n 18 oed neu'n fwy hyblyg), rhannu gwybodaeth, cyfarfodydd trosglwyddo achos a chydweithio.

**Roedd polisi Camddefnyddio Sylweddau YOS yng Nghaerlŷr yn benodol yn cyfeirio at drosglwyddiadau ac yn ymdrin â rôl y gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau oedolion a'r gwasanaeth prawf. Roedd y polisi yn cynnwys cwblhau pecyn gadael a slip ateb er mwyn sicrhau fod y gweithiwr oedd yn dilyn wedi derbyn y cyfeiriad, yn ogystal â disgwyl cyfarfod trosglwyddo i sicrhau gwasanaeth di-dor. Roedd hefyd brotocolau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl gan Ymddiriedolaeth Partneriaeth Swydd Caerlŷr – ac roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth benodol am bontio i wasanaethau oedolion yn ogystal â chyfeiriadau YOS yn cael eu hymestyn o bosib i 19 oed.**

**Yn Wakefield roedd enghreifftiau da o brotocolau rhwng gwasanaethau iechyd (yn arbennig y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau) a'r YOT, ond roedd hefyd yn cynnwys lleoliadau diogel a'r gwasanaeth prawf. Yn ychwanegol, roedd CAMHS fforensig, wedi'i leoli ar y cyd gyda'r YOT, wedi datblygu eu protocol pontio eu hunain ac roedd yr asiantaeth yn credu fod risgiau wedi'u rheoli'n well o ganlyniad i hyn.**

**Gwelsom hefyd enghreifftiau o wasanaethau ar gyfer rhai 16-25 oed a gwasanaethau oedolion ble roedd ymdrechion wedi digwydd i ddarparu gwasanaeth oedolion ifanc arbenigol. Teimlai ymarferwyr fod y trefniadau hyn wedi helpu wrth ymgysylltu ag anghenion y grŵp oedran hwn.**

6.11 Roedd llawer o staff, mewn gwasanaethau iechyd pobl ifanc ac oedolion yn teimlo eu bod wedi derbyn gan y naill a'r llall, y lefel o wybodaeth oedd ei angen arnynt yn ystod y trosglwyddo. Roeddynt hefyd yn teimlo fod penderfyniadau fel rheol yn seiliedig ar ble y gellid cwrdd orau ag anghenion pobl ifanc – a gallai hyn gynnwys trosglwyddo cynharach ble y cytunwyd fod cymorth cyfredol, sefydlog yn angenrheidiol. Ond mewn achosion eraill roedd defnyddio gwahanol ddulliau i oedran a throthwy yn creu problemau. Canfuwyd ble roedd diagnosis iechyd meddwl clir (h.y. un oedd yn cael ei derbyn ym maes oedolion), protocol gadarn a chlir, a chyswllt da rhwng y gwasanaethau iechyd, dilyniant da roedd pontio rhesymol yn fwy tebygol. Yn yr enghreifftiau hynny, gwelsom esiamplau o drosglwyddo pwyllog, priodol rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion. Os oedd setiau o symptomau'n bresennol, fodd bynnag, neu os oedd gan yr unigolyn ifanc lefel is o gamddefnyddio sylweddau yna, yn ôl asiantaethau lleol roedd yn llawer iawn anoddach i greu trefniadau pontio da. Mae ymarferwyr cyfiawnder troseddol yn aml yn cyfeirio at oedolion ifanc yn gorfod cwrdd â throthwy uwch i gael mynediad i wasanaethau oedolion, yn wahanol i wasanaethau camddefnyddio sylweddau pobl ifanc.

6.12 Gwelsom enghreifftiau o broblemau'n bodoli rhwng CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion. Disgrifiodd un ymarferwr trosglwyddo rhai achosion fel *"gêm bat a phêl"*. Yn ogystal gallai fod anawsterau wrth sicrhau fod problemau iechyd corfforol, oedd yn cael sylw yn y YOT, yn cael eu hystyried gan y gwasanaeth prawf ac yn cael cymorth gan y gwasanaethau iechyd oedolion. Yr arfer gorau a welsom oedd pan oedd nyrsys YOT yn aros yn rhan o'r broses pan oedd yr unigolyn ifanc yn cyrraedd 18 er mwyn gwneud yn siŵr fod y Meddygon Teulu a'r gwasanaethau iechyd oedolion yn adnabod ac yn mynd i'r afael â'r problemau iechyd. Un enghraifft, yn Wakefield, oedd nyrs YOT yn gweithio gydag unigolyn ifanc yn y ddalfa oedd â diabetes Math 1. Cysylltodd â'r arbenigwr priodol yn yr amgylchedd ddiogel, parhau i gysylltu â'r unigolyn ifanc wedi iddo gael ei ryddhau a darparu cymorth gyda rhoi'r gorau i ysmygu a gydag iechyd rhywiol cyn ei drosglwyddo i arbenigwr diabetig oedolion pan ddaeth y gorchymyn i ben ac roedd yn 18 oed.

6.13 Yn Wakefield, gwelsom driniaeth ar gyfer ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) yn parhau pan ddaeth yr unigolyn ifanc yn 18 oed, ond roedd hyn yn eithriad. Meddai un rheolwr achosion YOT "*mae gan gymaint o'n pobl ifanc ADHD a chaiff ei weld fel problem iechyd meddwl a chânt eu trin gan CAMHS ond unwaith maent yn 18 oed, faint o oedolion 18 oed welwch chi gyda ADHD? Mae'n cael ei ail labelu fel anhwylder personoliaeth ac mae diffyg gwasanaeth ar gyfer hyn".*

### *Adolygu effeithiolrwydd trefniadau lleol*

6.14 Pur anaml roedd protocol yn nodi sut y byddid yn mesur effeithiolrwydd y trefniadau lleol ac nid oedd Byrddau Rheoli YOT ac ymddiriedolaethau prawf YOT felly yn gallu arolygu'r maes hwn yn effeithiol. Fe adroddodd y mwyafrif o Ymddiriedolaethau Prawf fod ganddynt ddata ufudd-dod a thorri amodau ar gyfer y rhai 18-20 oed, er mai ychydig o feysydd sydd wedi nodi trosglwyddo YOT fel grŵp ar wahân. Nid yw hyn yn syndod am y byddai'r niferoedd yn fach a byddai systemau gwybodaeth yn annhebygol o gynhyrchu rhestr fanwl gywir yn rhwydd. Yn Wakefield, bu archwiliadau gan y rheolwyr gweithredol oedd yn goruchwylio'r

broses drosglwyddo. Roedd hyn wedi canfod y gyfradd drosglwyddo, ac nad oedd rhai cyfarfodydd tair ffordd yn digwydd ac fod peth anawsterau wedi bod wrth ddefnyddio Asset er mwyn cael gwybodaeth i lywio OASys o ansawdd da.

6.15 Yn y gwasanaethau iechyd, roedd rhai enghreifftiau da o fonitro unigol oddi fewn i'r gwasanaethau iechyd, ac o effeithiau'r cyfnodau trosglwyddo heb gael eu cyfansymio. Roedd ystyriaeth gyfyngedig o ganlyniadau mewn perthynas â phontio o iechyd pobl ifanc i iechyd oedolion yn gyffredin. Yn Swydd Hertford bu peth monitro o effeithiolrwydd trefniadau pontio o safbwynt pobl ifanc o'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn CAMHS Caerlŷr, gwnaed defnydd da o ffurflen monitro protocol pontio fer. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth a oedd y person ifanc wedi mynegi dewis am CAMHS neu iechyd meddwl oedolion, a oeddynt wedi cael unrhyw broblemau wrth bontio a beth oedd canlyniad y pontio.

### *Asiantaethau yn ymwybodol o waith y naill a'r llall*

6.16 Tra roedd bron i ddau draean o ymarferwyr YOT yn teimlo'n ymwybodol 'iawn' neu'n 'weddol' ymwybodol o waith y gwasanaeth prawf, dim ond traean o'r ymarferwyr gwasanaeth prawf oedd yn teimlo'r un fath am waith yr YOT. Roedd y diffyg hwn mewn ymwybyddiaeth yn cael ei adlewyrchu yn ein canfyddiadau nad oedd rheolwyr achos YOT bob amser yn ystyried beth oedd goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn ei olygu. Roedd hyn yn wir wrth wneud penderfyniadau cynnar am sut i reoli achos oedd yn gymwys i'w drosglwyddo, ac fod rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf ambell dro yn y niwl am natur y gwaith a wneid gan oedolion ifanc yn y YOT.

6.17 Roedd staff YOT wedi cael gwybodaeth am y gwasanaeth prawf gan swyddogion y gwasanaeth prawf a secondiwyd a staff oedd ar gynlluniau gwaith di-dâl ond nid oeddynt yn wybodus am ymyriadau strwythuredig yn y gwasanaeth prawf. Adroddodd ymarferwyr YOT mai ychydig o gyswllt oedd ganddynt gyda rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf. Ychydig a wyddai llawer o staff y gwasanaeth prawf am waith YOT ac adroddwyd mai ychydig o sylw a roed i waith YOT a datblygu plant a glasoed yn yr hyfforddiant mewn swydd. Fe wnaeth ychydig adrodd eu bod wedi cael hyfforddiant (fel rheol yn berthnasol i drais domestig neu ddiogelu plant) gyda staff YOT neu wedi eu gweld yn y llys.

6.18 Roedd rhai ymarferwyr (gan gynnwys swyddogion prawf a secondiwyd) yn pwysleisio tebygrwydd y ddwy rôl – "*rydym yn asesu, cynllunio a chyflawni ymyriadau i ostwng aildroseddu"*, tra roedd eraill yn gweld gwahaniaeth mewn gwerthoedd – "*rydym ni'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn teilwra'r hyn a wnawn i'r bobl ifanc – mae gwasanaeth prawf yn llawer llymach*". Roedd ymarferwyr YOT yn aml yn gweld staff y gwasanaeth prawf fel rhai â baich achosion trwm iawn ac yn annhebygol o gael llawer o amser i gyfathrebu.

6.19 Roedd rhai wedi ymdrechu i feithrin cyfathrebu. Yn ein arolwg peilot yn Nyffryn y Tafwys gwelsom enghreifftiau o gyfarfodydd ymarferwyr y gwasanaeth prawf ac ymarferwyr YOT oedd yn trafod datblygiadau yn y ddau wasanaeth ac roedd hyn yn cael ei groesawu. Yn Leeds bu cyfarfod datblygu arferion rhwng rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf oedd yn hanner arbenigol a rhai ar secondiad o'r YOT, ac roeddynt wedi cael cyflwyniad gan y nyrs YOT ar ddatblygiad plant a glasoed ac ar ddatblygu empathi gyda glaslanciau. Yn YJS Conwy a Sir Ddinbych, roedd rheolwr gweithredol wedi trefnu trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth y

Gwasanaeth Prawf am sut i fynd i'r afael ag achosion ble roedd pryder am y *Perygl o Niwed*.

6.20 Nid oedd gan staff YOT a'r gwasanaeth prawf ymwybyddiaeth o sut roedd y gwasanaethau iechyd lleol yn ymdrin â rhai 18-20 oed er fod rhai camau wedi eu cymryd mewn meysydd penodol i fynd i'r afael â hyn, er enghraifft rhai cyfarfodydd traws asiantaethol oedd yn helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth cyffredinol, a hyfforddiant ar fodelau gyflawni gwasanaethau i gyfiawnder troseddol ac iechyd. Ychydig o ardaloedd oedd â 'chyfeirlyfr gwasanaethau' er fod yna gyfeiriadur yn seiliedig ar y we, cynhwysfawr yng Ngorllewin Swydd Efrog.

6.21 Yn iechyd ac ETE fe wnaethom ddarganfod fod rhai ymarferwyr yn dal yn gyfwastad ag arferion gyda'r 'grŵp oedran arall' yn arbennig os oedd ganddynt brofiad blaenorol o weithio gyda'r grŵp oedran hwnnw, neu'n adnabod ymarferwyr yn y grŵp oedran hwnnw. Yn Swydd Hertford roedd y YOS wedi cynnig hyfforddiant i'r gwasanaeth iechyd meddwl fforensig oedolion i gynorthwyo gyda deall eu swyddogaethau priodol, ac roedd cyflwyno gweithwyr iechyd meddwl glasoed oedd yn arbenigwyr fforensig wedi gwella'r cysylltiadau â'r gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.

***Casgliad***

6.22 Bu gwaith canmoladwy i ddatblygu trefniadau lleol er mwyn gwella ansawdd y pontio ond roedd effaith hyn wedi'i leihau am nad oedd rhai staff yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylid ganddynt ac nid oedd digon o wybodaeth gan reolwyr i wybod os oedd y trefniadau yn gweithio cystal ag y dylent. Roeddem yn teimlo y byddai mwy o ddealltwriaeth o rôl y naill a'r llall a goruchwyliaeth rheoli mwy gweithredol, yn ogystal â gwell cyswllt gyda a rhwng darparwyr ymyriadau, wedi cael yr effaith fwyaf posibl ar ansawdd y pontio.

## Atodiad 1: Geirfa byrfoddau

| | |
|---|---|
| Asset | Offeryn asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn edrych ar drosedd, amgylchiadau personol, agweddau a chredoau y bobl ifanc sydd wedi cyfrannu tuag at eu hymddygiad troseddol. |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, yn darparu iechyd meddwl arbenigol a gwasanaethau ymddygiad i bobl ifanc. |
| CARAT | Cynghori, Asesu, Cyfeirio, Cyngor a Gofal Drwodd. Gwasanaethau a ddarperir yn y ddalfa i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau |
| Connexions/ Gyrfa Cymru | Sefydlwyd y gwasanaeth Connexions yn 2001 gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i gwrdd â gofyn pobl ifanc am wybodaeth, cyngor a chymorth. Drwy weithio amlasiantaethol, mae Connexions yn darparu cyngor a chanllaw o safon uchel sy'n ddiduedd (gan gynnwys cyngor a chanllaw gyrfaoedd), yn ogystal â mynediad at gyfleoedd datblygiad personol i helpu i symud rhwystrau dysgu a dilyniant, ac i sicrhau fod pobl ifanc yn pontio yn llyfn i fod yn oedolyn ac i fywyd gwaith. Cynlluniwyd Connexions i helpu yr holl bobl ifanc oedran 13 i 19 oed a'r rhai hyd at 24 oed sydd ag anhawster neu anabledd dysgu. Fodd bynnag, mae ffocws arbennig ar y rhai hynny sydd mewn risg o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, neu o gael eu hallgau'n gymdeithasol.<br><br>Gyrfa Cymru yw'r arweiniad i yrfaoedd a gwasanaeth gwybodaeth cenedlaethol i bobl ifanc ac oedolion. Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaethau i bobl o bob oed sydd angen gwybodaeth a chyngor am yrfaoedd, ac i gyflogwyr/busnesau sydd angen help a chyngor ar recriwtio, hyfforddi, datblygu gweithwyr, sgiliau a chymwysterau. |
| DTO | Mae'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO) yn dedfrydu cadw pobl ifanc yn y ddalfa. Gall gael ei roi i bobl ifanc 12 i 17 oed. Gall hyd y ddedfryd fod rhwng pedwar mis a dwy flynedd. Treulir yr hanner cyntaf yn y ddalfa tra mae'r ail hanner yn cael ei dreulio yn y gymuned dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) |
| DYO | Atal Troseddwyr Ifanc |
| ETE | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth |
| GP | Meddyg Teulu |
| Iechyd | Defnyddiwyd yn yr adroddiad hwn i ymdrin ag amrywiaeth o waith gan y sectorau statudol a gwirfoddol yn ymwneud ag iechyd corfforol, camddefnyddio sylweddau, ac iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. |
| Arolygiaeth Prawf EM | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| Ymyriadau | Gwaith gydag unigolyn sydd wedi'i gynllunio i newid ei ymddygiad troseddol a/neu i gefnogi diogelu'r cyhoedd |
| IOM | Rheoli troseddwyr integredig - trefniadau lleol rhwng Ymddiriedolaethau Prawf, yr heddlu a phartneriaid i ganolbwyntio adnoddau ar weithio gyda'i gilydd gyda ac wrth reoli troseddwyr sy'n oedolion dewisedig |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu y carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd mewn ardal ddaearyddol benodol i reoli rhai mathau o droseddwyr |
| Sefydliad | Sefydliad sy'n cadw'r rhai sydd dan 18 oed a rhai sy'n 18 oed a hŷn yn y |

| | |
|---|---|
| cymysg | ddalfa ond yn ddarostyngol i gyfundrefnau gwahanol |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: yr asiant unigol sy'n gyfrifol am y carchardai a'r Ymddiriedolaethau Prawf |
| OASys | System Asesu Troseddwyr: y fframwaith a gynlluniwyd ac sy'n benodedig yn Genedlaethol i'r gwasanaethau prawf a charchardai i asesu troseddwyr. Gwna defnydd o ffactorau 'statig' a 'dynamig' |
| Rheolwr troseddwr ar brawf | Y term ar gyfer aelod o staff ymddiriedolaeth brawf sy'n gyfrifol am reoli achosion troseddwyr, fel rheol 18 oed a hŷn, yn ddarostyngedig i orchymyn llys; yn y ddalfa, ac ar drwydded |
| Goruchwyliwr Troseddwyr | Y term ar gyfer aelod o staff ymddiriedolaeth brawf, neu sefydliad Carchar, sy'n gwneud tasgau penodol, fel rheol mewn cysylltiad â rheolwr troseddwyr i reoli dedfryd troseddwr. |
| Ymddiriedolaeth Prawf | Cyrff lleol, a gomisiynwyd gan NOMS i ddarparu gwasanaethau prawf |
| PSR | Adroddiad cyn dedfrydu: ar gyfer llys |
| *RoH* | *Perygl o Niwed i eraill* |
| *'Gwaith RoH, neu 'gwaith Perygl o Risg* | Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio'r gwaith o ddiogelu'r cyhoedd, yn y lle cyntaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngol,* i gadw i cyn lleied â phosibl gyfle unigolyn o ymddwyn mewn ffordd sy'n creu *Perygl o Niwed i eraill* |
| Diogelu | Y gallu i ddangos fod pob gweithred resymol wedi'i gwneud i gadw i cyn lleied â phosibl y risg o berson ifanc yn cael niwed, naill ai ganddynt eu hunain neu eraill (h.y. yn agored i niwed). Mae hyn yn ehangach nag ystyr ffurfiol amddiffyn plant, sy'n canolbwyntio ar yr angen i gael ymyriad gorfodol i ddiogelu pobl ifanc rhag niwed |
| YJB | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr |
| YOI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc a gadwyd ar remand neu a ddedfrydwyd i'r ddalfa. Mae YOIau ar gyfer rhai dan 18 oed ac i rai sy'n 18 oed a throsodd |
| YOIS | System Wybodaeth Troseddwyr Ifanc: un o'r ddwy system rheoli achosion yn electronig ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr. |
| YOT/YOS/YJS | Tîm Troseddwyr Ifanc/Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid: defnyddir YOT yn cyfystyr er hwylustod drwy'r ddogfen hon i olygu Timau Troseddwyr Ifanc, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fel y sefydlwyd dan y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998. Mae YOTau yn dimau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu wedi'u secondio, swyddogion prawf, gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr iechyd ac addysg |
| Rheolwr achosion YOT | Y term ar gyfer aelod o Dîm Troseddwyr Ifanc sy'n gyfrifol am reoli achosion pobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchmynion llys, yn y ddalfa ac ar drwydded |
| YRO | Gorchymyn adsefydlu Ieuenctid. Dedfryd gymunedol generig yw YRO ar gyfer pobl ifanc sy'n cyfuno nifer o ddedfrydau blaenorol i un dedfryd generig. Daeth i rym am droseddau a gyflawnwyd ar neu cyn 30 Tachwedd 2009 fel rhan o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008. Gallai fod 18 o ofynion y gellir ei atodi i YRO; y rhai mwyaf cyffredin yw goruchwyliaeth, gweithgaredd, gwaith di-dâl (ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed yn unig), arolygiaeth a gwyliadwriaeth dwys, a chanolfan presenoldeb |

## Atodiad 2: Pontio - Cysyniadau Allweddol

| **Cysyniadau** | **Goblygiadau posibl i bontio pobl ifanc oddi fewn i'r system cyfiawnder troseddol** |
|---|---|
| Ymlyniad.<br><br>Gall profiadau cynnar plentyndod effeithio'r graddau y mae pobl ifanc ac oedolion yn gallu ffurfio perthynas newydd, perthynas personol a pherthynas gweithio gyda phobl mewn awdurdod[18]. | Mae llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol wedi cael profiad o berthynas teuluol a phersonol dyrys. Efallai iddynt gael eu gwahardd o'r ysgol a gallant fod wedi cael profiad o newid gweithwyr/cartrefi os oeddynt mewn gofal. Gall y profiadau negyddol hyn wneud pontio yn anodd yn y dyfodol. |
| Prosesau pontio[19]<br><br>Mae unrhyw newid yn cynnwys elfen 'wedi'i gynllunio' ac elfen 'pontio. Mae'r cyntaf yn fwy mecanistig (ee symud swyddfa), mae'r ail yn seicolegol ac yn tueddu i lusgo y tu ôl i newid ffisegol (ee agweddau tuag at symud swyddfa wrth i'r unigolyn ddarganfod pethau newydd).<br><br>Mae pontio yn cynnwys tri cyfnod: gorffen beth oedd yn arfer â bod, bod mewn parth niwtral a'r dechrau newydd.<br><br>Yn y parth niwtral, gall pobl fod yn ddryslyd, a phrofi gostyngiad mewn cymhelliad a chynnydd mewn pryder. | Mae arolygiadau prif ffrwd yn y gymuned a'r ddalfa wedi dangos y gall gweithdrefnau pontio fod yn aneglur a ddim bob amser yn cael eu rhoi ar waith yn iawn.<br><br>Yn ychwanegol, mae llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn dangos lefel uchel o fyrbwylledd a phroblemau gyda lles emosiynol. Gallant hefyd fod ag anghenion iaith a chyfathrebu. Os oes ansicrwydd ynglŷn â lle maent yn y broses pontio, gall pobl ifanc gael y profiad o drawsnewid yn anodd, yn arbennig os nad ydynt yn gweld unrhyw fudd personol. |
| Dilyniant gweithiwr neu gynorthwywr<br><br>Mae newid gweithwyr (yn arbennig ble nad oes eglurhad dros y newid neu ble mae'n cael ei weld fel un diangen) yn cael ei weld yn negyddol gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth. Er fod y cyswllt â'r canlyniadau yn llai amlwg, mae diffyg parhad gweithiwr wedi bod yn un o'r ffactorau a ganfuwyd wrth ymchwilio rhai o'r trasiedïau.<br><br>Mae enghreifftiau o wasanaethau pobl hŷn ac yn Adolygiad Munro o amddiffyn plant[20] ganfyddiadau negyddol o newid gweithiwr. Meddai'r olaf:<br><br>*'Neges glir gan y plant (a'u rhieni) yw eu bod yn gwerthfawrogi dilyniant yn eu perthynas. Mae siarad yn agored am broblemau personol,* | Mae llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol wedi bod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau statudol a gwirfoddol am ran helaeth o'u bywyd. Ble maent wedi cael profiadau negyddol o newid yn y gorffennol, maent yn debygol o weld pontio yn y dyfodol yn anffafriol.<br><br>Yn dibynnu ar bersonoliaeth a phrofiadau bywyd y bobl ifanc, ac ansawdd y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth sy'n seiliedig ar ieuenctid, gallai rhai ddarganfod y rhagolwg o newid yn bositif neu o leiaf yn dderbyniol. |

| | |
|---|---|
| *a rhai sy'n aml yn boenus, angen ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol, ac mae newid gweithiwr yn golygu fod angen ailddatblygu'r ymddiriedaeth yna gyda rhywun newydd...mae helpu plant a theuluoedd i newid yn golygu gweithio gyda hwy, nid gwneud pethau iddynt.'*<br><br>Mewn cyd-destun arall gallai newid gweithiwr fod yn bositif ee os yw'n gyfleus i ddefnyddiwr y gwasanaeth a/neu ble mae'r gweithiwr newydd yn darparu gwasanaeth mwy addas a/neu arbenigol na'r gweithiwr cyntaf.<br><br>Er nad yw'n gynrychioladol mae rhai hunangofiannau yn dangos fod newid athro neu unrhyw un arall mewn awdurdod a orfodwyd yn cael ei wrthwynebu ar y dechrau ond wrth edrych yn ôl yn cael ei weld fel catalydd ar gyfer newid a gwelliant. | |
| Rheoli prosiect<br><br>Mae gan y mwyafrif o newid dynol elfennau o brosiect. Mae'r mwyafrif o dechnegau rheoli prosiect yn argymell 'dechrau gyda'r diwedd yn y golwg' wrth ymdrin â<br><br>- newid wedi'i gynllunio sy'n ymwneud â budd-daliadau, neu<br><br>- wrth ymdrin â newid anorfod neu wedi ei orfodi ble mae'r amcan yw osgoi peryglon.<br><br>Mae model rheoli troseddwyr NOMS yn cynnwys y cysyniad o '*bob achos fel prosiect…nid i wrthrychu'r troseddwr ond i roi doethinebau rheoli prosiect i'r her o gyflawni newid mewn graddfa amser penodedig*. | Dylai fod budd ar gyfer ansawdd y gwasanaeth wrth edrych ar y cyfnod o oruchwyliaeth neu yn y ddalfa fel un cyflawn yn hytrach na dau gyfnod annibynnol o oruchwyliaeth neu ofal yn y ddalfa gan ddau wahanol asiantaeth neu sefydliad.<br><br>Byddai hefyd yn bwysig i weld os oes lles i drawsnewid sydd i'w gweld yn gorbwyso'r peryglon.<br><br>Fodd bynnag, pan mae'r pontio yn digwydd oherwydd meini prawf sy'n berthnasol ar sail oed yn hytrach nag ar sail anghenion, mae'n ddadleuol beth yw rôl lles. |
| Aeddfedrwydd<br>Mae crynodeb diweddar o ymchwil i aeddfedrwydd o Brifysgol Birmingham [(21)], a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury yn datgan: '*gellir deall aeddfedrwydd fel cysyniad datblygiadol, gan gynnwys y categorïau datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol*. O'r rhain '*prosesau datblygu corfforol a deallusol a gwblheir fel rheol yn ystod llencyndod; categorïau datblygiad emosiynol a chymdeithasol sy'n fwyaf perthnasol wrth ystyried aeddfedrwydd oedolion ifanc*." | Er mai'r sail resymegol ar gyfer pontio pobl ifanc 18 oed i wasanaethau oedolion yw fod y bobl ifanc yn cyrraedd oedran gŵr neu wraig, gall llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol gael lefelau isel o ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol. Gall hyn lesteirio eu gallu i bontio ac mae'n codi'r broblem o ba asiantaethau, yn seiliedig ar ieuenctid a/neu oedolion, sydd â'r adnoddau iawn i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. |

| | |
|---|---|
| Pwysigrwydd y 'berthynas gwaith'.<br><br>Mae perthynas gwaith wedi derbyn mwy o sylw gan y rhai sy'n ysgrifennu ar fodelu pro gymdeithasol, cyfreithlondeb, ac ymataliad.<br><br>Cyflwynodd NOMS y model rheoli troseddwyr ar gyfer oedolion sy'n droseddwyr yn 2006. Roedd yn seiliedig ar bedair egwyddor greiddiol yn seiliedig ar ymchwil oedd yn hyrwyddo pwysigrwydd perthynas gwaith unigol gyda'r troseddwr.<br><br>*'cysondeb – mae angen i'r troseddwr gael profiad o gysondeb y neges a'r ymddygiad, gan yr un person drosodd a throsodd a gan wahanol bobl sy'n gweithio gyda'r un troseddwr ar yr un pryd.*<br><br>*dilyniant – mae angen dilyniant o'r gofal neu'r driniaeth, ond mae angen parhad rhesymol o'r berthynas gydol y ddedfryd.*<br><br>*ymroddiad – mae angen i droseddwyr gael profiad fod y rhai sy'n gweithio gyda hwy yn ymroddedig neu'n diffuant, nid jest yn cymryd arnynt*<br><br>*atgyfnerthu – byrhoedlog fydd enillion os nad yw'r dysgu newydd yn cael eu droi yn ymddygiad normal drwy broses sy'n ei atgyfnerthu a'i wobrwyo.'* | Er wedi'i anelu at droseddwyr sy'n oedolion mae egwyddorion allweddol (cysondeb, dilyniant, ymroddiad ac atgyfnerthu) yn debyg iawn i'r rhai ddylai fod yn greiddiol i waith gyda phobl ifanc.<br><br>Mae llwyddo i gael y canlyniadau hyn pan mae pobl ifanc yn symud rhwng gwasanaethau ieuenctid ac oedolion yn debyg o fod yn her. Rhwng ac oddi fewn i wasanaethau ieuenctid ac oedolion mae amrediad o arddulliau personol, dulliau, ffyrdd o weithio, rhaglenni, etc sy'n golygu hyd yn oed ble mae ymarferwr unigol yn 'gwneud eu gorau' gall rhai pobl ifanc brofi gwasanaeth gyda diffyg parhad ac yn wasanaeth tameidiog. |

## Atodiad 3: Cyfeiriadau


1. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: *JOINT INSPECTION BUSINESS PLAN 2010-12* (2010)
2. NOMS/YJB: *Case transfer protocol between the YJB and NOMS: Guidance for YOTs and local probation areas/trusts on case transfers* (2009)
3. Arolygiaeth Prawf EM*: Movement of Cases: An Inspection of the Effectiveness of Arrangements for Handling the Movement of Offender Cases Between Probation Areas* (2004)
4. Ofsted*: Transition through detention and custody: Arrangements for learning and skills for young people in custodial or secure settings* (2010)
5. NOMS: *The NOMS Offender Management Model* (2006)
6. Y Cenhedloedd Unedig: *Convention on the Rights of the Child* (1989)
7. Uned Allgáu Cymdeithasol: *Transitions: Young Adults with Complex Needs: A Social Exclusion Unit Final Report* (2005)
8. Barrow Cadbury Trust: *Lost in Transition: A Report of the Barrow Cadbury Commission on Young Adults and the Criminal Justice System* (2005)
9. Transition to Adulthood (T2A) Alliance: *YOUNG ADULT MANIFESTO: The need for a distinct and radically different approach to young adults in the criminal justice system; an approach that is proportionate to their maturity and responsive to their specific needs* (2009)
10. Yr Adran Addysg: *Positive for Youth: A new approach to cross-government policy for young people aged 13 to 19* (2011)
11. YJB: *Progression to the young adult estate* (2008)
12. National Treatment Agency for Substance Misuse: *Young people's substance misuse treatment services – essential elements* (2005)
13. National Treatment Agency for Substance Misuse: *Guidance on commissioning young people's specialist substance misuse treatment services* (2008)
14. YJB: *National Standards for Youth Justice Services* (2010)
15. NOMS: *National Standards for the Management of Offenders: Standards and Implementation Guidance* (2007)
16. NOMS: *National Standards for the Management of Offenders: in England and Wales* (2011)
17. NOMS: Prison Service Instruction 28/2009: Care and management of young people (2009)
18. David Howe: *Attachment across the life course: A brief introduction* (2011) Palgrave MacMillan, Basingstoke
19. William Bridges: *Managing Transitions: Making the most of change*, third edition (2009) Nicholas Brealey, Llundain
20. Eileen Munro: *The Munro Review of Child Protection: Final Report- A child-centred system* (2011) Yr Adran Addysg
21. Institute of Applied Social Studies and School of Social Policy, Prifysgol Birmingham: *Maturity, young adults and criminal justice: A literature review* (2011)

## Atodiad 4: Datganiad o ddiben a chod ymarfer

### Datganiad o ddiben

Mae Gwasanaeth Prawf EM yn Arolygiaeth annibynnol, a gyllidir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein diben yw i:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol am effeithiolrwydd y gwaith gydag oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu gyda'r amcan o ostwng aildroseddu a gwarchod y cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn dan nawdd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gweithio gydag Arolygiaethau fel bo angen
- cyfrannu tuag at well perfformiad gan y sefydliadau rydym yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu tuag at bolisi cadarn a chyflawni gwasanaeth effeithiol, yn arbennig wrth ddiogelu'r cyhoedd, drwy ddarparu cyngor a lledaenu arfer da, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo yn weithredol cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach, yn arbennig mewn sefydliadau ble rydym yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn arbennig drwy waith ar y cyd ag Arolygiaethau eraill.

### Cod Ymarfer

Mae Gwasanaeth Prawf EM yn anelu at gyrraedd ei ddiben drwy:

- weithio mewn dull gonest, proffesiynol, teg a chwrtais
- adrodd a chyhoeddi canfyddiadau'r arolwg a'r argymhellion ar gyfer gwelliant mewn da bryd ac i safon dda
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a sylw ehangach i amrywiaeth ym mhob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys yn ein arferion cyflogaeth a'n prosesau cyfundrefnol ein hunain
- i sefydliadau rydym yn arolygu eu gwaith, gan gadw i'r isafswm faint o waith ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r broses arolygu.

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar yr arolwg, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei gylch gwaith, ysgrifennu at:


*Prif Arolygydd Profiannaeth EM*
*6th Floor, Trafford House*
*Chester Road, Stretford*
*Manchester M32 0RS*

http://justice.gov.uk/about/hmi-probation

Criminal Justice
Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

ISBN 978-1-84099-573-2